

*Datganiad  
Cyfrifon  
Blwyddyn Ariannol  
2010/2011*

*A H Kirkham BA (Hons) CPFA*

*Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro a Phennaeth y Gwasanaethau  
Ariannol*



# CYNNWYS

	TUDALEN
<b>CYFLWYNIAD</b>	<b>5</b>
<b>RHAGAIR EGLURHAOL</b>	<b>6 - 13</b>
<b>DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL</b>	<b>14 - 39</b>
<b>DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R DATGANIAD CYFRIFON</b>	
• Cyfrifoldebau'r Awdurdod	<b>40</b>
• Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151	<b>41</b>
<b>ADRODDIAD YR ARCHWILIAD</b>	<b>42 - 43</b>
<b>DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISIŌAU CADW CYFRIFON</b>	<b>44 - 63</b>
<b>DATGANIADAU CRAIDD:</b>	
• Symudiadau yn Natganiad y Cronfeydd wrth Gefn	<b>64 - 65</b>
• Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	<b>66</b>
• Y Fantolen	<b>67</b>
• Datganiad ynglŷn â Llif Arian	<b>68</b>
<b>NODIADAU I'R CYFRIFON:</b>	
<b>NODYN 1</b> – Safonau Cyfrifo a Gyhoeddwyd ond Nad Ydynt Eto Wedi'u Mabwysiadu	<b>69</b>
<b>NODYN 2</b> – Barn Gritigol mewn Cymhwyso Polisiŷau Cyfrifo	<b>69</b>
<b>NODYN 3</b> – Rhagdybiaethau a wneir am y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif	<b>70</b>
<b>NODYN 4</b> – Eitemau perthnasol o Incwm a Threuliau	<b>71</b>
<b>NODYN 5</b> – Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen	<b>71</b>
<b>NODYN 6</b> – Addasiadau rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Ariannu Dan y Rheoliadau	<b>72 - 75</b>
<b>NODYN 7</b> – Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd	<b>76 - 77</b>
<b>NODYN 8</b> – Gwariant Gweithredol Arall	<b>78</b>
<b>NODYN 9</b> – Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	<b>78</b>
<b>NODYN 10</b> – Incwm Treth a Grantiau Amhenodol	<b>78</b>
<b>NODYN 11</b> – Eiddo, Offer a Chyfarpar	<b>79 - 81</b>
<b>NODYN 12</b> – Eiddo buddsoddiad	<b>82</b>
<b>NODYN 13</b> – Asedau Anniriaethol	<b>83 - 84</b>
<b>NODYN 14</b> – Offerynnau Ariannol	<b>85 - 87</b>
<b>NODYN 15</b> – Rhestrau Stoc	<b>88</b>
<b>NODYN 16</b> – Contractau adeiladu	<b>88</b>
<b>NODYN 17</b> – Dyledwyr	<b>89</b>
<b>NODYN 18</b> – Arian parod a chywerthydd arian	<b>89</b>
<b>NODYN 19</b> – Asedau a Ddelir I'w Gwerthu	<b>90</b>
<b>NODYN 20</b> – Credydwyr	<b>91</b>
<b>NODYN 21</b> – Darpariaethau	<b>91 - 92</b>
<b>NODYN 22</b> – Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	<b>93</b>
<b>NODYN 23</b> – Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio	<b>93 - 99</b>
<b>NODYN 24</b> – Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau gweithredol	<b>100</b>
<b>NODYN 25</b> – Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi	<b>100</b>

<b>NODYN 26</b> – Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu	<b>101</b>
<b>NODYN 27</b> – Symiau yr adroddwyd arnynt ar gyfer Penderfyniadau Dyrannu Adnoddau	<b>101 - 105</b>
<b>NODYN 28</b> – Gweithrediadau Caffaeledig ac a Derfynwyd	<b>105</b>
<b>NODYN 29</b> – Gweithgarwch Masnachu	<b>106</b>
<b>NODYN 30</b> – Gwasanaethau Asiantaeth	<b>107</b>
<b>NODYN 31</b> – Cyllidebau Wedi'u Cronni	<b>107</b>
<b>NODYN 32</b> – Lwfansau aelodau	<b>108</b>
<b>NODYN 33</b> – Tâl Swyddogion	<b>108 - 109</b>
<b>NODYN 34</b> – Costau Archwilio Allanol	<b>109</b>
<b>NODYN 35</b> – Incwm Grantiau	<b>110 - 111</b>
<b>NODYN 36</b> – Carfannau Perthynol	<b>112 - 113</b>
<b>NODYN 37</b> – Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf	<b>113</b>
<b>NODYN 38</b> – Gwariant Cyfalaf a Gyllidir o Gyfalaf o dan Statud	<b>114</b>
<b>NODYN 39</b> – Prydlesau	<b>115 - 118</b>
<b>NODYN 40</b> – Mentrau Cyllid Preifat a chytundebau tebyg	<b>118 - 119</b>
<b>NODYN 41</b> – Colledion Amhariad	<b>119</b>
<b>NODYN 42</b> – Buddiannau Terfynu	<b>120</b>
<b>NODYN 43</b> – Cynlluniau Pensiwn y Cyfrifir Amdanynt Fel Cynlluniau Cyfraniadau Diffiniedig	<b>120</b>
<b>NODYN 44</b> – Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig	<b>120 - 125</b>
<b>NODYN 45</b> – Rhwymedigaethau Wrth Gefn	<b>125</b>
<b>NODYN 46</b> – Asedau Wrth Gefn	<b>125</b>
<b>NODYN 47</b> – Natur a Maint y Risgiau a Ddaw o Offerynnau Ariannol	<b>125 - 130</b>
<b>NODYN 48</b> – Cronfeydd Ymddiriedolaeth	<b>131</b>
<b>NODYN 49</b> – Rhwymedigaethau i'r Dyfodol	<b>131</b>
<b>NODYN 50</b> – Treth y Cyngor	<b>132</b>
<b>NODYN 51</b> – Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)	<b>133</b>
<b>NODYN 52</b> - Addasiadau Blwyddyn Blaenorol – Trosglwyddiad i IFRS	<b>134 - 138</b>
<b>CRONFA'R DEGWM</b>	<b>139 - 142</b>
<b>YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG LLANRWST</b>	<b>143 - 144</b>
<b>GEIRFA</b>	<b>145 - 152</b>

## **CYFLWYNIAD**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n awdurdod unedol sy'n darparu holl brif wasanaethau llywodraeth leol, megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, hamdden, cynllunio a phriffyrdd.

Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o tua 112,000. Mae tua 80% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y llain arfordirol sy'n cynnwys trefi Abergele, Bae Colwyn a Llandudno. Mae gweddill y boblogaeth wedi ei gwasgaru ar draws yr ardal sy'n estyn o Ddolwyddelan yn y de-orllewin a Llangwm a Dinmael yn y de-ddwyrain. Mae tua thraean o drigolion Conwy'n siarad Cymraeg a thua hanner y boblogaeth yn y Fwrdeistref Sirol wedi eu geni yng Nghymru.

### **Llywodraethu Gwleidyddol**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 59 o gynghorwyr etholedig, sy'n cynrychioli 38 rhanbarth etholiadol. Dyma strwythur gwleidyddol presennol y Cyngor:

- 19 Ceidwadwyr
- 14 Annibynnol
- 14 Plaid Cymru
- 7 Llafur a
- 5 Democratiaid Rhyddfrydol

### **Y Cyngor**

Y Cyngor (59 Cynghorydd) sy'n pennu'r gyllideb a'r polisiau cyffredinol. Mae'n cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ac yn trafod y gwahanol ddewisiadau ar gyfer materion pwysig sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd y Cyngor ac aelodau eraill y Cabinet, ac yn dosbarthu cyfrifoldebau (portffolios) i aelodau'r Cabinet. Y Cyngor hefyd yw canolbwynt unrhyw drafodaeth am berfformiad y Cabinet.

### **Cabinet**

Mae'r Cabinet yn cynnwys deg cynghorydd ynghyd ag Arweinydd y Cyngor sy'n cadeirio cyfarfodydd y Cabinet. Mae gan bob aelod Cabinet bortffolio penodol o gyfrifoldeb ar gyfer meysydd gwasanaeth y Cyngor.

## RHAGAIR EGLURHAOL

1. Bwriad Datganiad Cyfrifon y Cyngor yw darparu gwybodaeth glir ynglŷn ag effaith ariannol gweithgareddau'r Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw, ar ffurf sy'n hawdd ei deall.
2. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifeg Awdurdod Lleol 2010 - Y Cod), sy'n nodi'r egwyddorion a'r arferion angenrheidiol i roi barn 'cywir a theg' am sefyllfa ariannol a thrafodion awdurdod lleol. Mae'r Cod 2010 yn cynnwys 'arfer cyfrifyddu priodol' dan delerau adran 21 (2) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Cod 2010 yw'r cyntaf i fod yn seiliedig ar y Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
3. Mae costiau gwasanaethau yn y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â'r Cod Gwerth Gorau Arfer Cyfrifo 2010/11 (BVACOP) sy'n diffinio Cyfanswm y Gost ac sy'n amlinellu dadansoddiad gwariant y gwasanaeth i'w fabwysiadu, ynghyd â dadansoddiad goddrychol safonol a argymhellir.

#### 4. Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

##### (i) Cefndir

Cyhoeddodd adroddiad cyllideb Trysorlys Ei Mawrhydi yn 2007 y byddai cyrff cyhoeddus yn mabwysiadu IFRS. Bydd hyn o fudd i sicrhau cysondeb a chymaroldeb rhwng adroddiadau ariannol yn yr economi byd eang ac i ddilyn arfer gorau yn y sector preifat' (*HM Treasury, Economic and Fiscal Strategy Report and Financial Statement and Budget report, March 2007*). Mae'r GIG, y Gwasanaeth Prawf a chyrrff canolog y llywodraeth eisoes wedi mabwysiadu IFRS yn eu cyfrifon 2009/10.

Mabwysiadodd awdurdodau lleol IFRS ychydig yn hwyrach a dyma adran olaf y sector cyhoeddus i fabwysiadu IFRS yn llawn, wrth baratoi cyfrifon 2010/11.

##### (ii) Effaith gweithredu IFRS

Golygodd gweithredu IFRS newid dull paratoi a chyflwyno cyfrifon yn sylfaenol. Roedd CIPFA o'r farn bod y trawsnewid i IFRS yn gyfle i 'symleiddio'r cyflwyniad' a gwneud negeseuon yn y datganiadau ariannol yn gliriach (CIPFA/IFRS: How to tell the story).

Mae'r newidiadau i'r cyfrifon yn golygu diwygio ac ychwanegu'n sylweddol at yr Egwyddorion a Pholisïau Cyfrifo. Dyma'r prif newidiadau rhwng cyfrifon a baratowyd dan reolau GAAP y DU o'u cymharu ag IFRS:

- Trefn a chynnwys y Datganiadau Ariannol Craidd.
- Ailddosbarthu asedau - Mae Asedau Sefydlog diriaethol yn cael eu hailddosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer. Rhoddir rhagor o bwyslais ar gyfrifo cydrannau. Crëwyd dosbarth newydd ar gyfer Asedau a Gadwyd i'w Gwerthu dan Asedau Cyfredol .
- Prydlesi – Adolygwyd cytundebau prydlesi a symudwyd asedau prydlesi ariannol i'r Fantolen / eu tynnu o'r Fantolen. Adolygwyd trefniadau eraill i asesu a oeddent yn cynnwys hanfodion prydles.

- Buddion i Weithwyr - Cyfrifwyd ar gyfer tâl gwyliau a buddion tymor byr eraill yn gronedig ac felly sefydlwyd credydwr ar gyfer hyn, wedi ei osod yn erbyn cronfa wrth gefn negyddol.
- Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau'r Llywodraeth – Credydir y rhain wrth eu derbyn i'r Gronfa Refeniw (oni bai bod amodau ynghlwm â hwy) a'u trosglwyddo i'r Cyfrif Cymhwysiad Cyfalaf .

Dangosir y newidiadau i'r cyfrifon dan GAAP y DU, sydd eu hangen gyda'r trawsnewid i gyfrifon sy'n cydymffurfio ag IFRS, yn fanwl yn nodyn 52 i Ddatganiad Cyfrifon 2010/11.

Yn unol ag IFRS1, mae Mabwysiadu Datganiad Cyfrifon 2010/11 yn unol â Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol am y Tro Cyntaf, yn cynnwys tair Mantolen a Nodiadau fel a ganlyn:

- 31 Mawrth 2011
- 31 Mawrth 2010 (cymariaethau)
- 1 Ebrill 2009 (trawsnewid i IFRS)

**5.** Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys y datganiadau ariannol a ganlyn, yn unol â'r Cod:

**a) Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae'r datganiad hwn yn darparu adolygiad parhaus o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys y system reolaeth fewnol a'r systemau rheoli risg, er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â'u heffeithiolrwydd a/neu lunio cynllun gweithredu rheoli i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

**b) Datganiad cyfrifoldebau'r Datganiad Cyfrifon**

Mae'n nodi cyfrifoldebau' penodol y Cyngor a'i swyddogion wrth baratoi a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

**c) Datganiad Egwyddorion a Pholisïau Cyfrifyddu**

Pwrpas y Datganiad yw esbonio sail ffigurau'r Cyfrifon. Mae'n amlinellu'r polisïau cyfrifeg sydd wedi'u mabwysiadu.

**d) Y Datganiadau Ariannol 'Craidd'**

**1. Datganiad Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gern**

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yng ngwahanol gronfeydd wrth gefn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, a ddadansoddwyd fel 'cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i ostwng trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r llinell Gweddill neu'r (Ddiffyg) wrth Ddarparu Gwasanaethau'n dangos gwir gost economaidd daprau gwasanaethau'r awdurdod, y mae rhagor o fanylion amdanynt i'w gweld yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Fantolen Cronfa'r Cyngor ar gyfer gosod Treth y Cyngor. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn trosglwyddo i Gronfeydd wedi'u Clustnodi, yn dangos Mantolen Cronfa'r Cyngor cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i / neu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, yr ymgwymerodd y Cyngor â nhw.

Roedd y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn £39.482 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2011 (2009/10 £38.7m), gan gynnwys gweddill o £3.005 miliwn yng Nghronfa'r Cyngor.

## 2. Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad hwn yn dangos cost cyfrifo darparu gwasanaethau'n unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o'r trethi. Mae awdurdodau'n codi treth ar gyfer gwariant, yn unol â'r rheoliadau; efallai bydd hyn yn wahanol i'r gost gyfrifo. Dangosir sefyllfa'r dreth yn y Datganiad Symudiadau'r Cronfeydd. Mae'r datganiad yn dangos bod £45.245m yn weddill yn ystod y flwyddyn. (roedd diffyg o £26.252miliwn yn 2009/10), oherwydd y newid mewn trin costau pensiwn gwasanaeth o sail RPI i CPI.

## 3. Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n cael eu cydnabod gan yr awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â chronfeydd yr awdurdod. Rhoddir gwybod am y cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Y categori cyntaf yw cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, hynny yw, y cronfeydd wrth gefn y byddai'r awdurdod yn gallu eu defnyddio efallai i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i ddarparu lefel darbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft, y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf y gellir ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf yn unig neu i ad-dalu dyledion). Ail categori'r cronfeydd wrth gefn yw'r rhai hynny nad yw'r awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn gydag enillion a cholledion heb eu cyflawni (er enghraifft y Gronfa Ailwerthuso), lle byddai'r arian ar gael i ddarparu gwasanaethau'n unig, petai'r asedau'n cael eu gwerthu; a bod y cronfeydd wrth gefn gydag amseroedd gwahanol a ddangosir yn llinell y Datganiadau Symudiadau i'r Cronfeydd, 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a sail ariannu dan reoliadau'.

Roedd gwerth net yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2011 yn £160.86 miliwn. Roedd hyn yn gynydd o £131.75 miliwn dros y sefyllfa a gymhwyswyd ar 31 Mawrth 2010, oherwydd y gostyngiad mewn Atebolrwydd Pensiynau.

## 4. Datganiad Llif Ariannol

Mae'r datganiad llif ariannol yn dangos y newidiadau mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, yr awdurdod yn ystod y cyfnod hysbysu. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r awdurdod yn creu a defnyddio arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian, trwy ddsbarthu llif ariannol fel gweithgarwch gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif ariannol net sy'n deillio o weithgarwch gweithredu, yn ddangosydd allweddol faint mae gweithrediadau'r awdurdod yn cael eu hariannu trwy drethi ac incwm grant neu gan dderbynwyr gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod. Mae gweithgarwch buddsoddi'n cynrychioli maint all-lif ar gyfer adnoddau y bwriadwyd iddynt gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau'r awdurdod yn y dyfodol. Mae llif ariannol sy'n deillio o weithgarwch ariannu, yn ddefnyddiol i ragfynegi hawliadau ar lif ariannol yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (hynny yw, benthyca) i'r awdurdod.



## 6. Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor ddau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf.

Mae **Gwariant Refeniw** yn ymwneud â gwario ar gostau gwasanaethau o ddydd i ddydd, fel cyflogau staff, cynnal adeiladau a chyflenwadau ac offer cyffredinol. Mae'r gwariant yn cael ei ariannu gan incwm treth y cyngor, talwyr trethi busnes, ffioedd a thaliadau am wasanaethau penodol, a grantiau gan y llywodraeth.

Mae **Gwariant Cyfalaf** yn ymwneud â gwario ar asedau fel ffyrdd, ailddatblygu a gwaith adnewyddu mawr ar adeiladau. Bydd yr asedau yn darparu manteision i'r gymuned am sawl blwyddyn a bydd y gwariant yn cael ei ariannu'n bennaf gan fenthyciadau a grantiau cyfalaf.

### 6.1 Adolygu'r Flwyddyn – Gwariant Refeniw

Yn wreiddiol pennwyd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2010/11 yn £186.9m (£181.7m yn 2009/10) gan ystyried y cynnydd mewn cyflogau a phrisiau.

Cafodd y gyllideb ei gosod yn erbyn cefndir setliad ariannol gwael gan Lywodraeth Cymru. Gweithredwyd pecyn arbedion ac effeithlonrwydd heriol er mwyn gosod y gyllideb o fewn yr adnoddau a oedd ar gael.

Cafodd y gyllideb ei monitro a'i rheoli'n fanwl yn ystod y flwyddyn, gan gyflwyno adroddiadau i'r Cabinet, yn unol â gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn ariannol canfuwyd pwysau ariannol ar Adain Iechyd Meddwl y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar Adain Ymateb i Lifogydd y Gwasanaethau Amgylcheddol, ond rheolwyd y ddau orwariant hyn o fewn eu cyllidebau arian cyfyngedig, ynghyd â grant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gadarnhawyd ddiwedd Mawrth 2011.

Bu'n rhaid gwario'n ychwanegol i raeau ffyrdd oherwydd y gaeaf garw a rheolwyd ariannu hynny trwy grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a chyllidebau refeniw.

Y Cyfanswm gwariant net gwirioneddol oedd £186.78m, ac mae'n braf nodi bod y Cyngor wedi sicrhau gwariant net cyffredinol a oedd o fewn y gyllideb, er gwaethaf yr amrywiadau arferol o orwario a thanwario mewn gwasanaethau unigol. Dangosir prif elfennau'r gyllideb refeniw ar gyfer 2010/11 a sut mae'r rhain yn cymharu â'r ffigurau terfynol gwirioneddol, yn y tabl a ganlyn, yn ogystal â nodiadau i esbonio'r amrywiannau.

Col 1	Col 2	Col 3	Col 4	Col 5	Col 6	NODIADAU
<b>GWASANAETH</b>	<b>AMCANGYFRIF GWREIDDOL</b>	<b>SEFYLLFA A GYMERADWYFYD YM MIS RHAGFYR</b>	<b>ADDASWYD Y GYLLIDEB AR GYFER GS</b>	<b>FFIGYRAU TERFYNOL</b>	<b>AMRYWIANT (Col 5 – Col 4)</b>	
	<b>2010/11 £'000</b>	<b>2010/11 £'000</b>	<b>2010/11 £'000</b>	<b>2010/11 £'000</b>	<b>2010/11 £'000</b>	
<b><u>Sylfaen Adnoddau</u></b>						
Grant Cymorth						
Refeniw	(114,366)	(114,366)	(114,366)	(114,366)	-	
Grant NNDR	(31,984)	(31,984)	(31,984)	(31,984)	-	
Treth y Cyngor	(40,374)	(40,374)	(40,374)	(40,374)	-	
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>(186,724)</b>	<b>(186,724)</b>	<b>(186,724)</b>	<b>(186,724)</b>	<b>-</b>	
<b><u>Gwariant Net</u></b>						
Cyfraniad o'r						
Cronfeydd	(190)	(190)	(190)	(56)	134	<b>1</b>
Cyfraniad o'r Gronfa						
Risg	-	(224)	(224)	-	224	<b>2</b>
Gwasanaethau						
Addysg	75,163	75,163	75,702	75,630	(72)	<b>3</b>
Gwasanaethau						
Cymdeithasol	46,023	46,291	47,087	47,077	(10)	<b>4</b>
Isadeiledd -						
Priffyrdd/Tai Sector						
Preifat	7,202	7,190	7,427	7,427	-	
Addysg	12,752	12,794	12,853	12,853	-	
Gwasanaethau						
Datblygu Cymunedol	7,341	7,268	7,500	7,485	(15)	
Gwasanaethau						
Rheoleiddio	4,283	4,283	4,464	4,464	-	
Theatrau a'r Ganolfan						
Gynadledda	1,134	1,134	1,255	1,245	(10)	
Gwasanaethau						
Cefnogi	12,890	12,907	13,392	13,351	(41)	<b>5</b>
Ardollau	5,923	5,873	5,873	5,882	9	<b>6</b>
Gweithgareddau						
Rheoli'r Trysorlys a						
chostau a						
gweithgareddau						
Corfforaethol eraill	14,203	14,011	11,361	11,366	5	<b>7</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>186,724</b>	<b>186,500</b>	<b>186,500</b>	<b>186,724</b>	<b>224</b>	

### **NODIADAU**

#### **SYLWER: Addaswyd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer costau Gwerthuso Swyddi (GS) yng Ngholofn 4**

1. Gostyngodd y tanwariant ar wasanaethau'r angen am gyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn
2. Rheolwyd gorwariant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (£200k) a'r Gwasanaethau Amgylcheddol (£42k) o fewn cyllidebau'r adrannau
3. Arweiniodd llai o gyrsiau galwedigaethol, a llai o hawliadau yswiriant at danwariant net yn y gyllideb Addysg
4. Arweiniodd osgoi rhai lleoliadau preswyl / nyrsio iechyd meddwl (y disgwyliwyd y byddent wedi dechrau erbyn diwedd 2010 /11), ynghyd â grant ychwanegol gan LIC ar gyfer y Gwasanaethau Plant, at ganlyniad is na'r hyn a ragamcanwyd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gynharach yn ystod y flwyddyn
5. Tanwariant yng nghyllideb TG oherwydd swyddi gwag
6. Roedd ffioedd y Crwner yn uwch na'r swm a ragamcanwyd
7. Sefyllfa ffafriol ynglŷn â llog a enillwyd ac a dalwyd i'w osod yn erbyn gwariant ychwanegol ar Ddarpariaeth Dyledion Gwael ac Iechyd Galwedigaethol.

Gweithredwyd y Strwythur Cyflogau a Graddfeydd newydd o 1 Rhagfyr 2010 ar gyfer y staff a gytunodd i dderbyn y telerau ac amodau newydd, a chost hyn oedd £5.167m

Mae barn ynglŷn â hawliadau Cyflog Cyfartal trwy Brydain i gyd wedi bod yn destun cryn herio, gwaith achosion ac adolygiadau. Mae'r sefyllfa'n newid yn gyflym ac fe'i hadolygir yn gyson. Gostyngwyd y ddarpariaeth ar gyfer Cyflog Cyfartal yn y cyfrifon o £5.8miliwn i £2miliwn, yn sgil gwybodaeth ddiweddarach. Nid oes cefnogaeth ariannol i hyn, mae wedi ei osod yn erbyn cronfa wrth gefn negyddol na ellir ei defnyddio – y Cyfrif Talu Ôl-dâl Anghyfartal.

Mae gweddill cyffredinol Cronfa'r Cyngor yn dangos faint o gronfeydd wrth gefn heb eu hymrwymo sydd gan y Cyngor ar gyfer gofynion llif ariannol a digwyddiadau na ragwelwyd mohonynt ar gyfer y dyfodol. £3.005 miliwn oedd lefel gweddill Cronfa'r Cyngor ddiwedd y flwyddyn. Tybir mai dyma'r lleiafswm darbodus. Dangosir cronfeydd wrth gefn eraill na ellir eu defnyddio yn Nodyn 7 y cyfrifon.

Caewyd y Cyfrif Refeniw Tai yn ffurfiol ar ôl trosglwyddo'r stoc tai i Gartrefi Conwy yn 2008/09 a throsglwyddwyd y £189,000 a oedd yn weddill yn y gronfa i Gronfa'r Cyngor.

## 6.2 Gwariant Cyfalaf

Y ogystal â gwario arian i ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian i ddarparu cyfleusterau newydd fel ysgolion, ac isadeiledd priffyrdd a'r arfordir. Roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn £23.152 miliwn yn 2010/11. Dyma grynodeb o fuddsoddiad cyfalaf mewn meysydd gwasanaeth yn 2010/11 a sut ariannwyd hynny:

Gwariant Cyfalaf	2010/11 Gwirioneddol £'000
<b>Gwariant Cyfalaf yn ôl Gwasanaeth:</b>	
Addysg	1,403
Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol	7,387
Isadeiledd a Chludiant	4,708
Tai Sector Preifat	2,010
Datblygu Cymunedol - Adfywio	822
Datblygu Cymunedol – Gwasanaethau Hamdden	990
Datblygu Cymunedol – Llyfrgelloedd	482
Datblygu Cymunedol – Ieuenctid	153
Gofal Cymdeithasol	1,399
Cynllunio a Chefn Gwlad	133
Technoleg Gwybodaeth	357
Peirianneg a Dylunio	453
Theatrau	584
Cytundebau Argadwedig Tai	684
Gwasanaeth Rheoleiddio	1,217
Eraill	370
<b>Cyfanswm Gwariant Cyfalaf</b>	<b>23,152</b>

Ariannu Cyfalaf	2010/11 Gwirioneddol £'000
<b>Drwy:</b>	
Benthyca â Chymorth	5,001
Benthyca Darbodus a Benthyciad Buddsoddi i Arbed	1,239
Derbyniadau Cyfalaf	1,408
Grantiau Cyfalaf	13,472
Arian Cyfalaf wrth Gefn	1,282
Refeniw	750
<b>Cyfanswm Ariannu Cyfalaf</b>	<b>23,152</b>

Gellir ariannu'r gwariant Cyfalaf trwy Fenthyca â Chymorth pan fydd costau yn cael eu hariannu trwy'r Grant Cefnogi Refeniw, a Benthyca Darbodus pan fydd y costau yn cael eu hariannu trwy gyllideb refeniw'r Cyngor.

Ymgwymerwyd â'r prosiectau mawr a ganlyn yn 2010/11:

- Canolfan Digwyddiadau Parc Eirias
- Adnewyddu Llyfrgell Llandudno
- Glan y Môr Bae Colwyn ac Amddiffyn yr Arfordir
- Adnewyddu Theatr Colwyn
- Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol
- Grantiau Gwella Eiddo Bae Colwyn
- Gwaith Lliniaru Llifogydd
- Cynlluniau Ailgyrchu Newydd
- Gwella Adeiladau Ysgolion ac Adnewyddu Ceginau
- Ailwynebu'r Rhwydwaith Ffyrdd Sirol
- Ailosod Goleuadau Stryd sy'n Dirywio

Roedd dyled y Cyngor yn £107.868 miliwn ar 31 Mawrth 2011 (£102.868 miliwn ar 31 Mawrth 2010), sef cynnydd o £5 miliwn mewn benthyca tymor byr.

Dyma Derfynau'r Gweithgareddau Benthyca yn 2010/11, a bennwyd yn unol â'r Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdod lleol, a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (y Cod Darbodus) fel a ganlyn:

	£'000
<b>Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol:</b>	
Benthyca	171,922
Ymrwymadau Tymor Hir eraill	45,000
	216,922
<b>Terfyn Gweithredol ar gyfer Dyledion Allanol:</b>	
Benthyca	161,922
Ymrwymadau Tymor Hir eraill	45,000
	206,922

## **7. Atebolrwydd Pensiwn – Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS19)**

Mae'r Cyfrifon, fel y cyflwynir hwy, yn cydymffurfio â gofynion y safon uchod gan eu bod yn dangos yn y cyfrifon refeniw, cost flynyddol gyfredol y ddarpariaeth bensiwn i weithwyr fel y cynghorir gan actwari'r Cyngor. Mae'r Datganiadau hefyd yn cynnwys yn y Fantolen, asesiad yr actwari o gyfran yr Awdurdod o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2011 a'r gronfa sydd ei hangen i ariannu'r rhwymedigaeth honno.

Rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, a nodwyd yn y Fantolen yw cyfanswm y diffyg a ragamcanwyd yn ystod oes ddisgwyliedig y gronfa. Bydd y diffyg hwn yn newid yn flynyddol yn dibynnu ar berfformiad y buddsoddiadau a thybiaethau actwari a wneir o ran y pensiynwyr presennol, pensiynwyr sydd wedi gohirio'u pensiwn a gweithwyr presennol. Yn 2010/11 cafwyd gostyngiad anghyfartal yng ngwerth rhwymedigaethau'r gronfa oherwydd canlyniadau asedau cadarnhaol a disgwyliadau chwyddiant tymor is yn gostwng, ynghyd â newid yn y cynnydd mewn pensiynau o RPI i CPI.

Mae'r gronfa'n amodol ar brisant bob tair blynedd, sy'n asesu cyflwr y gronfa bensiwn ar y pryd ac yn argymhell cyfradd briodol o gyfraniadau cyflogwyr i'r gwahanol gyrrff sy'n rhan o'r gronfa er mwyn adfer y gronfa i sefyllfa gytbwys dros gyfnod o amser.

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun statudol, ac fel y cyfryw, dim ond trwy ddeddfwriaeth gellir newid buddion a gronnir trwy'r cynllun.

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**  
**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**  
**2010/2011**

**1. CYFLWYNIAD**

- 1.1** Llywodraethu corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae llywodraethu corfforaethol yn ymwneud â'r modd y bydd aelodau etholedig a swyddogion yn ymwneud â materion y Cyngor a sut rydym yn cysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid.
- 1.2** I ddangos trefn lywodraethol dda, mae'n rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (a chefnogi) sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith ar gyfer Darparu Trefn Lywodraethol Dda mewn Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdod Lleol (SOLACE) yn 2001.
- 1.3** Mae'r sicrwydd llywodraethu yn y datganiad hwn wedi'i strwythuro o amgylch pob un o'r egwyddorion llywodraethu craidd sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith uchod.

**2. CWMPAS CYFRIFOLDEB**

- 2.1** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("Yr Awdurdod") yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Cyflwynwyd Rhaglen Wella Cymru (WPI) yn 2002; a cafodd ei ddiweddarau yn 2005. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Canllawiau mwy diweddar ynglŷn â sicrhau gwelliannau parhaus trwy Ganllawiau Rhaglen Wella Cymru 2010. Rhoddwyd cyflwyniadau i'r aelodau etholedig ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor (UDRh) i drafod y Canllawiau yn ystod y cam ymgynghori.
- 2.2** Datblygwyd y Canllawiau i gefnogi gweithredu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Canllawiau yn amlinellu'r newidiadau i Raglen Gwella Cymru. Mae 2 ran i'r Canllawiau:
- Gwella a Chynllunio Busnes
  - Cynllunio Cymunedol
- Mae'r Canllawiau yn uno gweithgareddau gwella tymor byr a chynllunio cymunedol tymor hir ac mae'n seiliedig ar yr egwyddorion sylfaenol fod gwelliannau yn fwy nag enillion mesuradwy neu effeithiolrwydd mewnol sefydliadol.
- 2.3** Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i lywodraethu ei faterion i hwyluso cynnal gweithgareddau'r Cyngor yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau i reoli risg yn effeithiol.
- 2.4** Bydd yr Awdurdod yn parhau i adolygu ei drefniadau yn erbyn arfer gorau ac yn gweithredu newidiadau i wella'r trefniadau llywodraethu cyffredinol.

### **PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

- 3.1** Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd ar gyfer cyfarwyddo a rheoli'r Awdurdod ar gyfer rhoi cyfrif i, cysylltu â, ac arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost effeithiol priodol.
- 3.2** Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith ac mae wedi'i gynllunio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu cyflawni polisiau, nodau ac amcanion ac felly dim ond sicrwydd rhesymol, nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar y broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i: ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion yr Awdurdod; gwerthuso'r tebygrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu; a rheoli risgiau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.
- 3.3** Mae'r fframwaith llywodraethu a gefnogir gan God Llywodraethu Corfforaethol Lleol wedi'i sefydlu yn y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol ac mae'n cydfynd ag arferion priodol.

### **FFRAMWAITH LLYWODRAETHU'R CYNGOR**

- 4.1** Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys polisiau, trefnau a gweithgareddau'r Awdurdod sydd wedi'u sefydlu i:
- Sefydlu a monitro cyflawni'r amcanion;
  - canfod, asesu a rheoli risgiau i'w cyflawni;
  - hwyluso llunio polisiau a gwneud penderfyniadau;
  - sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau;
  - sicrhau cydymffurfiaeth â pholisiau, trefnau, cyfreithiau a rheoliadau sydd wedi'u sefydlu;
  - diogelu asedau a lles y Cyngor rhag colledion o bob math; a
  - sicrhau ansawdd, cywirdeb, argaeledd, cyfrinachedd a dibynadwyedd gwybodaeth, cyfrifon a data.

Mae cynnal y fframwaith yn broses barhaus y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddi er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus a datblygu arfer da. Mae elfennau allweddol fframwaith llywodraethu'r Cyngor wedi'u disgrifio dan y penawdau isod.

## ***Y Cyfansoddiad***

- 4.2** Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau ac mae'n nodi'r trefnau, y protocolau a'r codau y mae'r aelodau etholedig a'r swyddogion yn eu defnyddio i gyflawni amcanion y Cyngor mewn modd effeithlon, eglur ac atebol.
- 4.3** Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Erthyglau Sylfaenol, Rheolau Trefn, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol a'r Cynllun Pwerau wedi'u Dirprwyo, yn ogystal â'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion. Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn rheolaidd ac mae ar gael mewn copi caled ac ar wefan y Cyngor.
- 4.4** Dan y Cyfansoddiad, mae'r Arweinydd a'r Cabinet, sy'n cynnwys hyd at 9 Cynghorydd arall a benodwyd gan yr Arweinydd, yn ffurfio corff penderfynu gweithredol yr Awdurdod. Mae'n rhaid i'w penderfyniadau fod yn unol ag amcanion cyffredinol y Cyngor ac maent yn amodol ar gael eu harchwilio gan bedwar pwyllgor trosolwg a chraffu. Bydd penderfyniadau allweddol, fel sefydlu cyllideb y Cyngor, cymeradwyo polisïau allweddol a phenodi i swyddi uwch, yn cael eu gwneud gan y Cyngor. Mae'r broses hon wedi'i nodi yn y Cyfansoddiad.
- 4.5** Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad (ac eithrio newidiadau bychain y gellir eu cymeradwyo gan y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Cyngor a Chadeirydd Pwyllgor Adolygu'r Cyfansoddiad a Chamweinyddu) yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor yn dilyn ystyriaeth Pwyllgor Adolygu'r Cyfansoddiad a Chamweinyddu'r Cyngor.

## ***Pwyllgor Safonau***

- 4.6** Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Safonau i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gan aelodau etholedig. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri aelod etholedig, un cynghorydd cymuned a mwyafrif unigolion cyfetholedig sy'n annibynnol o'r Awdurdod. Mae swyddogaeth y Pwyllgor yn cynnwys:
- helpu, cynghori a monitro cydymffurfiaeth â Chod Ymddygiad yr aelodau etholedig;
  - trefnu i hyfforddi aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Cod;
  - rhoi hawl i aelodau etholedig gael eu heithrio o ofynion sy'n ymwneud â chysylltiadau fel y nodwyd yn y Cod;
  - Ymdrin â chwynion a gyflwynwyd iddo gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus fod unigolyn wedi torri'r Cod Ymddygiad;
  - Ystyried materion eraill sy'n briodol ac yn angenrheidiol i gynnal safonau ymddygiad uchel yr Awdurdod a'i aelodau etholedig, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro.



## **Pwyllgor Archwilio**

**4.7** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn bwyllgor cyfansoddiadol llawn o'r Cyngor sy'n cynnwys cydbwysedd gwleidyddol o aelodau etholedig. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb am:

- gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon;
- cytuno ar natur a chwmpas y cynllun archwilio blynyddol;
- derbyn adroddiadau Archwilio Allanol ac Archwilio Mewnol;
- derbyn crynodeb chwarterol o Ymchwiliadau Arbennig wedi'u cynnal gan Archwilio Mewnol;
- derbyn adroddiad sy'n cynnwys manylion ymchwiliadau Budd-dal Tai a Budd-dal Treth y Cyngor a ymchwiliwyd yn llwyddiannus gan y Tîm Ymchwilio Budd-daliadau;
- adolygu addasrwydd y trefniadau llywodraethu;
- derbyn yr Adroddiad Asesu Blynyddol a'r Adroddiad Gwella Blynyddol a gynhyrwyd gan ein Harchwilwyr Allanol;
- ystyried trefniadau archwilio mewnol a rheoli risg;
- monitro gweithredu argymhellion gan yr archwilwyr Mewnol ac Allanol;
- monitro gweithredu rheolau sy'n ymdrin â chofrestru arhegion a lletygarwch a datgan cysylltiad gan aelodau etholedig a swyddogion; a
- cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol a derbyn adroddiadau monitro ynglŷn â pherfformiad Rheoli Trysorlys.

**4.8** Mae gan yr Awdurdod amgylchedd rheoli cadarn sy'n sefydledig ac wedi'i brif ffrydio yn nhrefniadau busnes yr Awdurdod. Y grwpiau swyddogion sy'n gyfrifol am oruchwylio a monitro'r amgylchedd rheoli yw'r Gweithgor a'r Uwch Dîm Rheoli. Yn ogystal, mae'r Grŵp Adolygu Adroddiadau yn adolygu adroddiadau democrataidd cyn eu cyflwyno.

### **Y Gweithgor**

**4.9** Roedd y Gweithgor yn cyfarfod ddwywaith y mis gydol 2010/11. Roedd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr Dros Dro, y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, ynghyd â'r Pennaeth Addysg Statudol, y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

**4.10** Roedd y Prif Weithredwr wedi ei wahardd o'i swydd gydol blwyddyn ariannol 2010/2011. Parhaodd y Swyddogion Gweithredol dros dro a benodwyd gan aelodau etholedig ym mis Mawrth 2010 i weithredu yn ystod y cyfnod:

- Penodwyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau yn Brif Weithredwr/Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig dros dro;
- Penodwyd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151 yn Gyfarwyddwr Corfforaethol dros dro;
- Penodwyd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro yn Gyfarwyddwr Corfforaethol dros dro;
- Mae trefniadau wedi'u sefydlu i ddyrchafu unigolion dros dro i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad priodol mewn perthynas â'u swyddi gwreiddiol.

**4.11** Nodwyd meysydd cyfrifoldeb y swyddogion uchod a chyflwynwyd yr wybodaeth i'r aelodau etholedig a'r staff, gan roi cyfarwyddyd ac eglurder i'r trefniadau dros dro.

## ***Uwch Dîm Rheoli***

- 4.12** Bydd yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn cyfarfod yn fisol ac mae'n cynnwys pob Pennaeth Gwasanaeth, yn ogystal â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol. Bydd pob mater rheoli a strategol pwysig yn cael ei gyflwyno i'r grŵp hwn, a bydd cynlluniau a pholisïau drafft sy'n effeithio'r sefydliad yn cael eu cynnwys ar y rhaglen cyn cael eu cyflwyno i'r broses ddemocrataidd.
- 4.13** Mae'r UDRh yn gwneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â materion rheoli yn yr Awdurdod, ac yn ystyried risgiau a datblygu polisiau. Hefyd, mae'r Tîm yn ystyried materion cenedlaethol, isranbarthol a lleol, yn ogystal â materion trawsawdurdod i leihau gweithio yn unigol a hyrwyddo cysondeb. Mae'r UDRh hefyd yn cysylltu â'r Cabinet fel bod dealltwriaeth gyffredin a phwrpas i waith yr Awdurdod.

## ***Grŵp Adolygu Adroddiadau***

- 4.14** Mae'r Grŵp Adolygu Adroddiadau (RRG) yn cyfarfod ddwywaith y mis i oruchwylio adroddiadau sydd i'w cyflwyno i'r Cabinet, ac mae'n ystyried rhaglenni gwaith i'r dyfodol y swyddogaethau Craffu i ddarganfod patrymau gwaith a chanfod materion capasiti a all godi. Hefyd, mae'r Grŵp yn sicrhau synergedd rhwng cynlluniau gwaith y Cyngor, y Cabinet, y swyddogaeth Graffu a Rheoli Strategol.
- 4.15** Gellir isrannu elfennau'r fframwaith llywodraethu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r meysydd allweddol isod.

## **5. ELFENNAU ALLWEDDOL Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

### **5.1 SEFYDLU A MONITRO CYFLAWNI AMCANION YR AWDURDOD**

#### ***Strategaeth Gymunedol***

- 5.1.1** Mae Strategaeth Gymunedol Conwy yn darparu fframwaith amlasiantaeth strategol ar gyfer canlyniadau dinasyddion a gwelliannau gwasanaeth yn y Sir. Mae'n cynnwys pob un o adrannau'r Awdurdod ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i Gonwy.
- 5.1.2** Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cynnwys 5 thema strategol ac yn ymwneud â'r cyfnod 10 mlynedd rhwng 2004 a 2014. Mae wrthi'n cael ei adolygu a bydd yn cael ei ailgyhoeddi yn 2011 gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau dinasyddion. Mae trefnau sefydledig ar gyfer sefydlu a monitro amcanion yr Awdurdod yn unol â'r Strategaeth Gymunedol, ac mae gan yr Awdurdod bolisi a phroses gwneud penderfyniadau priodol. Mae blaenoriaethau a nodau tymor hir yn cael eu hailarchwilio bob blwyddyn gan y Cabinet ac uwch swyddogion.

#### ***Cynllun Corfforaethol***

- 5.1.3** Mae Cynllun Corfforaethol 2008 i 2012 yn nodi gweledigaeth CBS Conwy yn glir, sef "Adfywio ein Cymunedau a gwneud Conwy yn ganolbwynt i Ogledd Cymru". Mae gan y Cynllun Corfforaethol gysylltiadau cryf gyda'r Strategaeth Gymunedol a chynlluniau strategol a phartneriaeth eraill yn yr Awdurdod a'r gymuned yn gyffredinol. Mae'r themâu yn cael eu cefnogi gan is-set o 12 Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol. Roedd ei gynhyrchu yn dilyn prosesau sefydledig oedd yn gweithredu yng Nghonwy. Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol yn 2008 yn unol â fframwaith y Strategaeth Gymunedol. Datblygwyd y cynllun ar ôl dadansoddiad manwl o anghenion demograffig, ac ymgynghoriad helaeth ar faterion a gweithredoedd allweddol. Roedd hyn yn cynnwys atborth ymgynghoriad cymunedol gydag amryw o bartneriaethau, gweithdai gyda phartneriaid, aelodau etholedig a'r UDRh. Roedd yr amcanion a ddatblygwyd hefyd yn cynnwys ystyried y rhaglen genedlaethol, data perfformiad ac argymhellion o adroddiadau arolwg. Cymeradwywyd Cynllun Prosiect i'r Cynllun Corfforaethol ym mis Mawrth 2011 i ailgloriannu'r Cyfeiriad Strategol ar gyfer yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod rhwng

2012 a 2016. Bydd cynllun drafft wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2012 i'w ystyried gan y weinyddiaeth ddemocrataidd newydd. Bydd y cynllun corfforaethol newydd yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

### ***Cynllun Darparu'r Cynllun Corfforaethol***

- 5.1.4** Mae targedau blynyddol yn cael eu sefydlu ar gyfer Amcanion y Cynllun Corfforaethol sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Darparu'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r cynllun hefyd yn nodi'r swyddog arweiniol, yr Aelod Cabinet, Craffu a dyraniad adnoddau. Yna bydd yr wybodaeth yn cael ei dosbarthu i feysydd gwasanaeth trwy eu Cynlluniau Gwasanaeth eu hunain. Bydd Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (SPR) yn cael eu cynnal gyda phob maes gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn a bydd yr Aelod Portffolio Cabinet, Aelod Busnes y Cabinet, yr Uwch Reolwr a'r Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol yn bresennol. Mae Adroddiadau Perfformiad Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn yn adlewyrchu'r cynnydd a nodwyd yn yr SPR gan adolygu Cynllun Darparu'r Cynllun Corfforaethol, y Gofrestr Risg Corfforaethol, Dangosyddion Perfformiad, Cytundebau Canlyniadau, y Cynllun Rheoleiddio a llwyddiannau a materion Gwasanaeth. Bydd adroddiadau Perfformiad Corfforaethol yn cael eu cyflwyno i'r UDRh, yr Aelodau Gweithredol, y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet.

### ***Rheoli Rhaglen a Phrosiect***

- 5.1.5** Mae'r Awdurdod yn dilyn fframwaith rheoli rhaglen a phrosiect sy'n seiliedig ar fethodoleg Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus (MSP) OGC a PRINCE 2. Mae Rheolwyr Prosiect yn cael eu hyfforddi i lefel sylfaen neu ymarferydd ac maent yn cael eu cefnogi gan dîm corfforaethol o gefnogwyr prosiect yn y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol. Mae Prosiectau sy'n cynrychioli effaith neu risg sylweddol i'r Awdurdod yn cael eu monitro yn y Byrddau Gwella Corfforaethol neu Gwasanaeth. Mae gan y Byrddau gysylltiadau â Chraffu ac mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn aelodau o'r Byrddau.

Mae'r Awdurdod yn cynnal cynllun arbrofol o'r meddalwedd rheoli perfformiad Ffynnon, a gall rŵan gyflwyno mesurau perfformiad a'r Cytundeb Gwella trwy Ffynnon. Gellir gwneud cynnydd pellach wrth ddatblygu'r gofrestr risg pan fydd y diweddariad i'r system wedi'i osod. Mae dyddiad y diweddariad wedi'i ohirio sawl gwaith gan y darparwr.

### ***Rheoli Perfformiad***

- 5.1.6** Mae elfennau allweddol llywodraethu corfforaethol wedi'u nodi yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol. Diweddarwyd y fframwaith ym mis Rhagfyr 2010 i adlewyrchu newidiadau i arferion gwaith a Chanllawiau WPI newydd Cynullid Cymru. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2010/2011 yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor erbyn 31/10/11 yn unol â gofynion statudol.
- 5.1.7** Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiad yn rhoi sylwadau ar berfformiad yn erbyn yr amcanion, sefyllfa ariannol a dangosyddion perfformiad o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'n cael ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol. Mae Adroddiad Blynyddol 2009/2010 sy'n rhan o Gynllun Gwella 2010/2011 yr Awdurdod yn cynnwys sylwebaeth fanwl ar berfformiad yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â'r amcanion allweddol a nodwyd.
- 5.1.8** Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) yn lle'r Llythyr Blynyddol. Mae'r AGB yn nodi fod adolygiad blynyddol yr Awdurdod o Amcanion y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2010/11 yn ateb gofynion statudol a bod yr Adroddiad Blynyddol yn darparu barn gytbwys o'i berfformiad yn 2009/2010.

**5.1.9** Mae'r Awdurdod yn profi meddalwedd rheoli perfformiad Ffynnon ac erbyn hyn mae'n gallu cyflwyno mesurau perfformiad a'r Cytundeb Canlyniadau trwy Ffynnon. Cofnodwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol ar Ffynnon yn ystod 2010/2011 ac mae cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys ychwanegu'r ACRF a'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth at Ffynnon ar ôl uwchraddio'r system rhagor. Mae dyddiadau ar gyfer yr uwchraddio wedi'u gohirio nifer o weithiau gan y darparwr.

## **5.2 HWYLUSO GWNEUD PENDERFYNIADAU A PHOLISIÂU**

### ***Cod Llywodraethu Corfforaethol***

**5.2.1** Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i egwyddorion trefn lywodraethol dda ac wedi cymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn ystod 2010/2011, yn seiliedig ar fframwaith a nodwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA)/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Llywodraeth Leol (SOLACE). Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn rhan o'r Cyfansoddiad ac yn berthnasol i bob agwedd o fusnes yr Awdurdod.

### ***Atebolrwydd ac Eglurder wrth Wneud Penderfyniadau***

**5.2.2** Mae trefniadau wedi'u sefydlu i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus ac eglur sy'n destun trefniadau craffu a rheoli risg effeithiol trwy:

- Wneud penderfyniadau allweddol a mawr yn gyhoeddus (ac eithrio rhai eithriadau a ganiateir gan y gyfraith);
- Gwybodaeth yn ymwneud â'r penderfyniadau sydd ar gael i'r cyhoedd;
- Sefydlu rheolau a threfnau sy'n llywodraethu sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, eu hadolygu'n rheolaidd a'u gwneud ar gael i'r cyhoedd;
- Ystyried cyngor cyfreithiol, ariannol, ac adnoddau dynol priodol ac unrhyw gyngor priodol arall fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

**5.2.3** Hefyd, mae'r Awdurdod wedi sicrhau fod trefniadau wedi'u sefydlu i alw unigolion sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pedwar Pwyllgor Craffu gyda threfniadau ar gyfer galw penderfyniadau i mewn;
- Pwyllgor Archwilio;
- pecyn llywodraethu partneriaeth;
- llywodraethu prosiectau a rhaglenni;
- y Cyfansoddiad;
- system gwynion gorfforaethol i gwsmeriaid;
- system ar gyfer ymdrin â chwynion ynglŷn â chamweinyddu yn erbyn aelodau etholedig; a
- Strategaeth Gwrth Dwyll a Llygredigaeth a Pholisi Rhannu Pryderon.

### ***Y Cyfansoddiad***

**5.2.4** Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r trefnau i'w dilyn i sicrhau fod y rhain yn effeithlon, yn eglur ac yn atebol i bobl leol. Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau a threfnau ar gyfer gwneud penderfyniadau ac mae wedi'i gynllunio i wneud yn siŵr y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Cymesuroi (h.y. mae'n rhaid i'r weithred fod gymesur â'r canlyniad dymunol);
- Ymgynghoriad dyledus a chyngor proffesiynol gan swyddogion;
- Parch tuag at hawliau dynol;

- Rhagdybiaeth o blaid didwylledd;
- Esbonio nodau a chanlyniadau dymunol;
- Ystyried dewisiadau eraill;
- Cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad, gan gynnwys manylion unrhyw ddewisiadau eraill a ystyriwyd a'u gwrthod.

### ***Y Swyddog Monitro***

**5.2.5** Mae gan y Swyddog Monitro, swyddogion y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a swyddogion uwch eraill yr Awdurdod ran i'w chwarae wrth helpu i sicrhau fod yr egwyddorion yn y Cyfansoddiad, fel penderfyniadau cynaliadwy, craffu cadarn, rheolau cyfiawnder naturiol, safonau ymddygiad, effeithlonrwydd, eglurder a safonau uchel o lywodraethu corfforaethol yn cael eu cyflawni ym mhroses weinyddol yr Awdurdod.

### ***Y Cyngor***

**5.2.6** Cynhaliwyd 12 cyfarfod o'r Cyngor yn ystod 2010/2011 i gyflawni ei swyddogaeth gwneud penderfyniadau a pholisïau.

### ***Y Cabinet***

**5.2.7** Mae'r Cabinet yn gwneud swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb ar unrhyw ran arall o'r Awdurdod. Neilltuwyd meysydd portffolio penodol i'r Aelodau Cabinet sy'n helpu'r Cabinet i fonitro gweithgareddau'r Awdurdod. Y Cabinet yw corff gwneud penderfyniadau gweithredol allweddol yr Awdurdod ac mae'n gwneud penderfyniadau o fewn y fframwaith polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor. Pan fydd penderfyniadau mawr yn cael eu trafod, bydd croeso i'r cyhoedd fod yn bresennol fel arfer, ac eithrio pan fydd materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod. Mae'n rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau sy'n unol â pholisïau a chyllidebau cyffredinol yr Awdurdod. Os yw'n dymuno gwneud penderfyniad sydd y tu hwnt i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, mae'n rhaid ei gyfeirio at y Cyngor llawn i gael penderfyniad.

### ***Pwyllgorau Craffu***

**5.2.8** Roedd adroddiad Diwedd Prosiect Trosolwg a Chraffu Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009 yn nodi'r casgliad "yn gyffredinol mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau effeithiol i gefnogi trosolwg a chraffu. Gwnaethpwyd cynnydd da iawn wrth wella safonau craffu a gwella ei effaith. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa gref i adeiladu ar lwyddiannau hyd yma a chynnal y gwelliannau."

### ***Pwyllgor Safonau***

**5.2.9** Mae'r Pwyllgor Safonau yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y Codau a'r Trefnau dan y Cyfansoddiad i sicrhau fod nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael effaith lawn. Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol am wneud argymhellion ar gyfer diwygio neu wella'r Cyfansoddiad. Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad gael eu gwneud gan y Cyngor llawn, ond bydd gan y Swyddog Monitro'r awdurdod i wneud newidiadau bychain i'r Cyfansoddiad fel y nodwyd ym mharagraff 4.5 uchod.

### ***Pwyllgorau Rheoleiddio***

**5.2.10** Hefyd, mae gan yr Awdurdod dri phwyllgor rheoleiddio wnaeth gyfarfod fel a ganlyn:

- cynhaliwyd Pwyllgor Cynllunio unwaith y mis;
- cynhaliwyd Pwyllgor Archwilio bum gwaith; a
- cynhaliwyd Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli chwe gwaith yn ystod y flwyddyn.

## ***Cynllun Dirprwyo***

- 5.2.11** Yn ogystal â'r uchod, er mwyn galluogi'r Awdurdod i wneud y nifer penderfyniadau sydd eu hangen yn ddyddiol, bydd cyfrifoldebau am rai penderfyniadau yn cael eu dirprwyo i uwch swyddogion sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Rhan 8 y Cyfansoddiad.

### **5.3 SICRHAU CYDYMFFURFIAETH Â PHOLISIÂU, TREFNAU, CYFREITHIAU A RHEOLIADAU SEFYDLEDIG.**

- 5.3.1** Mae gan bob swyddog gyfrifoldeb i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, trefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig. Bydd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth yn cael eu darparu i swyddogion yn ôl yr angen a bydd sesiynau cyflwyno priodol yn cael eu trefnu i staff newydd.

#### ***Y Swyddog Monitro***

- 5.3.2** Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro'r Awdurdod wedi'i ddynodi yn Swyddog Monitro yng Nghonwy. Swyddogaeth y Swyddog Monitro yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cyfansoddiad a pholisïau, trefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig. Ailaseswyd y gwasanaeth Cyfreithiol yn llwyddiannus ar gyfer achrediad Lexcel ym mis Tachwedd 2010 ac mae ganddynt Swyddogion Cyfreithiol sy'n arbenigo mewn meysydd penodol o weithgareddau'r Awdurdod. Mae'r Swyddog Monitro yn monitro gweithgareddau i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Ar sail y monitro sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, gall y Swyddog Monitro gadarnhau fod y trefniadau hyn yn gweithredu yn foddhaol.

#### ***Rheolau Sefydlog Contractau a Rheoliadau Ariannol***

- 5.3.3** Mae Rheoliadau Ariannol, Codau Ymarfer Ariannol, Rheolau Sefydlog Contractau, Polisïau a Threfnau a Chodau Ymddygiad i gyd wedi'u sefydlu ac ar gael i staff ar bapur ac yn electronig.

#### ***Rheoli Ariannol***

- 5.3.4** Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro a'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yw'r Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb ac mae'n cymryd cyfrifoldeb am drefniadau dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae trefnau rheoli ariannol yr Awdurdod yn cael eu cynnal yn unol â'r Rheoliadau Ariannol a nodwyd yn y Cyfansoddiad.

#### ***Archwilio Mewnol***

- 5.3.5** Mae gan yr Awdurdod swyddogaeth Archwilio Mewnol sy'n gweithredu i'r safonau a nodwyd yng nghanllawiau CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael yn rhoi gwybod yn ddiduedd, ac yn ei enw ei hun ar addasrwydd ac effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, gan gynnwys rheoli risg a threfniadau llywodraethu corfforaethol. Mae cwmpas Archwilio Mewnol yn cynnwys holl weithgareddau busnes yr Awdurdod, ac mae gan yr Adain Archwilio Mewnol fynediad digyfngedig i weithwyr, cofnodion ac asedau mewnol, er mwyn gwneud ei waith yn effeithiol.

#### ***Pwyllgor Safonau***

- 5.3.6** Mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Safonau i fonitro safonau ac ymddygiad aelodau etholedig, fel y nodwyd ym mharagraff 4.6, a Phwyllgor Archwilio sefydledig, fel y nodwyd ym mharagraff 4.7 uchod.

#### ***Rheolyddion Allanol***

- 5.3.7** Bydd yr Awdurdod yn cael archwiliadau allanol gan KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) a bydd yn cael arolwg ac adolygiad allanol pellach gan nifer o asiantaethau. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar ran yr Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn:

- KPMG – Archwilio Cyfrifon, casgliad ar drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, archwilio'r cynllun gwella, gwaith perfformiad lleol, astudiaethau llywodraeth leol, archwilio hawliau grant:
- WAO – Archwilio, mae gwaith WAO arall yn cynnwys gwaith a wnaed fel rhan o raglen gwaith i'r dyfodol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**5.3.8** Mae'r Awdurdod wedi bod ag agwedd weithgar ac adeiladol tuag at yr adroddiadau a'r argymhellion a wnaed gan asiantaethau allanol, gyda chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng uwch reolwyr yr Awdurdod ac arolygwyr allanol. Roedd yr Adroddiad Asesu Corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011 yn cadarnhau fod gan yr Awdurdod Grŵp Gwella ac Archwilio sy'n gwneud swyddogaeth allweddol, wrth sicrhau gweithredu argymhellion archwilio mewnol ac allanol yn briodol ac yn amserol.

#### ***Polisiâu a Strategaethau***

**5.3.9** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu nifer o strategaethau a pholisiâu corfforaethol i gefnogi cydymffurfiaeth â'r trefnau y cytunwyd arnynt. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys y Strategaeth Pobl Corfforaethol, Caffael, Iechyd a Diogelwch, a Chwynion.

#### ***Hyfforddi a Datblygu Aelodau Etholedig***

**5.3.10** Un o amcanion y Cynllun Corfforaethol yw "Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein staff a'n haelodau etholedig yn gwybod beth sydd i'w ddisgwyl ohonynt, a beth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu, a'u bod yn cael y gefnogaeth i gydweithio fel tîm i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid". Mae'r Awdurdod wedi datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau a rhaglen dreigl o hyfforddiant aelodau etholedig, sy'n cynnwys rhaglen gyflwyno drylwyr. Cafodd yr Awdurdod Siarter CLILC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau ym mis Awst 2009. Mae proses o Adolygiadau Datblygu Personol hefyd wedi ei datblygu ac yn ystod 2010/2011, cymerodd pob Aelod sy'n cael y Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig ran yn y broses. Hefyd, mae Aelodau Cabinet wedi'u nodi fel Aelodau Arweiniol Corfforaethol ar amcanion perthnasol y Cynllun Corfforaethol a'r risgiau corfforaethol. Estynnir gwahoddiad i bob Aelod Cabinet i fynd i'w Hadolygiadau Perfformiad Gwasanaeth perthnasol.

#### ***Hyfforddi a Datblygu Staff***

**5.3.11** Cafodd yr Awdurdod achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl IIP yn 2008 am gyfnod o 3 blynedd. Yn ystod 2009/2010 gwnaethpwyd cynnydd wrth adolygu'r Cynllun Adolygu Perfformiad a Datblygiad presennol mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Ddinbych. Mae'r broses newydd yn cael ei phrofi ym mis Ebrill 2011 a bydd yn cael ei chyflwyno yn llawn yn hydref 2011.

### **5.4 CANFOD, ASESU A RHEOLI'R RISGIAU I AMCANION YR AWDURDOD.**

#### ***Rheoli Risg***

**5.4.1** Mae gan yr Awdurdod Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg a gafodd ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod 2009/2010. Mae'n cynnwys y fframwaith ar gyfer rheoli risg drwy'r Awdurdod ac yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg. Cofnodwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol ar Ffynnon yn ystod 2010/11 ac erbyn hyn mae'n cael ei rheoli a'i diweddarau trwy ddefnyddio'r system Ffynnon. Cafodd gwelliannau a wnaethpwyd i'r broses risg yn ystod 2010/11 i reoli'r gofrestr trwy Ffynnon eu cymeradwyo yn anffurfiol gan SAC a KPMG. Bydd y polisi risg yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2011.

- 5.4.2** Mae'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu yn gwybod fod risg yn cael ei ystyried yn elfen allweddol o'r broses gwneud penderfyniadau, ac mae pob adroddiad i'r cyrff hyn yn cynnwys rhan ynglŷn â risg. Y Prif Weithredwr Dros Dro yw'r Cefnogwr Rheoli Risg yn yr Awdurdod, ac mae'n cael ei gefnogi gan uwch swyddogion sydd wedi cymell y broses hyd yma.
- 5.4.3** Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn swyddog â chyfrifoldeb am reoli risg yn eu gwasanaeth perthnasol.
- 5.4.4** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cofrestr Risg Corfforaethol. Mae pob risg yn cael ei neilltuo i swyddog arweiniol corfforaethol ac aelod etholedig arweiniol. Mae'r gofrestr yn cael ei chynnal a'i rheoli drwy'r Grŵp Gwella ac Archwilio, y Gweithgor a'r UDRh. Mae risgiau yn cael eu hadrodd i'r aelodau etholedig yn ffurfiol drwy'r broses ddemocrataidd. Mae'r Gofrestr yn cael ei hystyried yn rheolaidd gan y Penaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'r cyfarfodydd UDRh a gan y Cabinet, y Prif Bwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Awdurdod yn trafod ei risgiau corfforaethol gyda'i Archwilwyr Allanol yn rheolaidd, ac mae'r broses hon yn caniatáu ystyried y risgiau mewn modd rheolaidd a strwythuredig, gyda chefnogaeth a her allanol. Hefyd, bydd risgiau corfforaethol yn cael eu hystyried yn ystod y broses fframwaith cynllunio busnes, sy'n cefnogi proses dyrannu adnoddau'r awdurdod.
- 5.4.5** Daeth y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael i'r casgliad yn y Datganiad Sicrwydd Blynyddol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Mai 2011, fod rhagor o ddatblygiadau wedi digwydd yn ystod 2010/2011 i integreiddio rheoli risg i fusnes yr Awdurdod o ddydd i ddydd, a bod prosesau rheoli risg boddhaol wedi'u sefydlu i reoli llywyddiant amcanion yr Awdurdod. Y gwelliannau sydd wedi'u nodi yn y maes hwn yw:
- Cedwir y Gofrestr Risg Corfforaethol ar Ffynnon, system rheoli perfformiad yr Awdurdod, gyda rhagor o ddatblygiadau wedi'u cynllunio ar gyfer y system;
  - Cafodd y Fframwaith Rheoli Perfformiad ei ddiweddarau yn ystod 2010/11 a'i ddosbarthu yn eang i staff.
- 5.4.6** Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cydnabod y gwneir cynnydd o hyd i integreiddio rheoli risg yn llawn i fusnes y sefydliad o ddydd i ddydd a daw i'r casgliad fod gan y Cyngor brosesau rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol boddhaol i reoli cyflawni amcanion y sefydliad. Hefyd, daw'r datganiad i'r casgliad fod gwelliannau mewn perthynas â rheoli risg a gweithio partneriaeth yn amlwg yn ystod 2010/2011.

#### ***Sefydlu Cyllideb***

- 5.4.7** Pan fydd yr Awdurdod yn sefydlu ei gyllideb, bydd aelodau etholedig yn ystyried y lefel risg ac ansicrwydd ynglŷn â'r rhagamcanion cyllidebol a'r amgylchiadau. Mae'r broses gyllidebol yn cael ei ategu gan ymwybyddiaeth risg fel egwyddor craidd cynllunio busnes ac ariannol.

#### ***Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth***

- 5.4.8** Adolygwyd a diweddarwyd cofrestrau risg gwasanaeth yn ystod 2010/2011 fel rhan o'r adolygiadau perfformiad gwasanaeth a gynhaliwyd gan bob gwasanaeth i ganfod ac ystyried y risgiau allweddol sy'n effeithio darpariaeth gwasanaethau fel y nodwyd ym mharagraff 5.1.4. Adolygir cofrestrau Risg Prosiect gan fyrddau prosiect priodol ac mae prosiectau arwyddocaol yn rhoi gwybod am eu risgiau yn eu hadroddiadau amlygu i un o'r ddau Fwrdd Gwella.

#### ***Parhad Busnes ac Adfer Argyfwng***

- 5.4.9** Mae gan yr Awdurdod gynlluniau ar gyfer argyfyngau mawr fel llifogydd a phandemig posibl ac mae hefyd wedi datblygu ystod gynhwysfawr o Gynlluniau



Parhad Busnes i sicrhau y gall yr Awdurdod barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol pan fydd argyfwng a sicrhau adfer darpariaeth gwasanaeth arferol pan fydd yr argyfwng ar ben. Cynhaliodd y Cyngor ymarfer Rheoli Parhad Busnes (BCM) ym mis Tachwedd 2010 a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol wasanaethau ar draws yr Awdurdod. Cafodd llawer o wersi eu nodi yn ystod yr ymarfer a'u cynnwys mewn adroddiad ôl ymarfer gydag argymhellion ar gyfer gwella Rheoli Parhad Busnes a hydwythedd yr Awdurdod. Mae "Gweithgor Hydwythedd CBSC" wedi'i sefydlu i oruchwylio gweithredu'r argymhellion.

- 5.4.10** Yn dilyn cais llwyddiannus am reffeniw mewn perthynas â threfniadau Adfer Argyfwng TG cynhaliwyd ymarfer gwerthuso cynhwysfawr. Gwnaethpwyd rhagor o gynnydd yn ystod 2010/2011 ac erbyn hyn mae Conwy â threfniadau ffurfiol wedi'u sefydlu gydag arbenigwr adfer argyfwng trydydd parti. Pe bai argyfwng bydd y darparwr yn danfon offer newydd i leoliad a gytunwyd arno ac yn adfer systemau'r Cyngor yn ôl trefn flaenoriaethu a gytunwyd arni. Mae gwelliannau i barhad busnes yn cynnwys ateb menter, tra chyflym wrth gefn, newydd a sefydlu gweinyddwr "rhag methiant" ar gyfer systemau reffeniw allweddol y Cyngor mewn lleoliad arall.

#### ***Cynllunio Rhag Argyfwng ac Iechyd a Diogelwch***

- 5.4.11** Mae Uned Cynllunio Rhag Argyfwng gweithgar a sefydledig yn helpu i reoli risgiau allanol i'r Awdurdod ac yn cydweithio yn rhanbarthol yng Ngogledd Cymru. Mae gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i ystyried ailstrwythuro'r gwasanaethau ar lefel isranbarthol.

- 5.4.12** Mae gan yr Awdurdod Uned Iechyd a Diogelwch ganolog gweithgar sy'n rhoi cyngor a hyfforddiant i bob gwasanaeth ar faterion Iechyd a Diogelwch. Bydd asesiadau risg tân yn cael eu perfformio ym mhob eiddo. Sefydlwyd Prosiect Strategaeth Ymyrraeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystod 2010/2011 i weithredu system reoli Iechyd a Diogelwch gorfforaethol ar draws yr Awdurdod. Daw'r prawf i ben ym mis Hydref 2011.

#### ***Strategaeth Gwrth Dwyll a Llygredigaeth***

- 5.4.13** Mae gan yr Awdurdod Strategaeth Gwrth Dwyll a Llygredigaeth sy'n nodi cyfrifoldebau aelodau etholedig a staff wrth hyrwyddo diwylliant o onestrwydd. Mae hefyd yn nodi'r mesurau ar gyfer atal, canfod ac archwilio honiadau o dwyll a llygredigaeth, rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, a defnyddio asiantaethau Disgyblu pan fo'n briodol. Mae trefniadau rhannu pryderon wedi'u sefydlu, a bydd unrhyw anghysondebau yn cael eu harchwilio gan yr Adain Archwilio Fewnol neu swyddogion priodol yn y gwasanaethau. Diweddarwyd y Strategaeth yn ystod 2010/2011 i adlewyrchu gofynion Deddf Llwgrwobrwyath newydd 2010 a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 25 Gorffennaf 2011.

### **5.5 SICRHAU GWELLIANT PARHAUS.**

- 5.5.1** Daeth yr Adroddiad Gwella Blynnyddol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011 gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad fod sawl agwedd o drefniadau corfforaethol y Cyngor erbyn hyn yn cynnal gwelliant. Mae'r Awdurdod wedi parhau i wella ei drefniadau yn ystod 2010/2011 mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Archwilwyr Allanol. Mae'r gwasanaethau yn cael eu harchwilio'n allanol gan Archwilwyr Allanol ac asiantaethau allanol eraill, ac mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol swyddogaeth wrth roi sylwadau ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

## ***Byrddau Gwella***

- 5.5.2** Mae Pwyllgorau Craffu a threfniadau bwrdd prosiect yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau gwelliannau parhaus ym mhob gwasanaeth. Mae'r Awdurdod hefyd wedi sefydlu dau Fwrdd Gwella i gymell moderneiddio gwasanaethau, datblygu sefydliadol, gwaith partneriaeth a herio defnydd adnoddau yn yr Awdurdod.
- 5.5.3** Mae'r un pwyslais i swyddogaeth y Byrddau Gwella, ond mae'r prosiectau a rhaglenni wedi'u halinio yn unol â'u gwasanaeth neu swyddogaeth gorfforaethol. Mae'r Pwyllgorau Craffu hefyd wedi'u halinio i'r ddau Fwrdd. Roedd y Byrddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2010/2011 ac yn cyfrannu at amcanion y Cyngor o sicrhau gwerth gorau a gwelliant parhaus.
- 5.5.4** Mae'r Byrddau yn cael adroddiadau amlygu, adroddiadau diwedd cam ac adroddiadau gwersi a ddysgwyd am y gwahanol brosiectau corfforaethol. Mae pob prosiect yn cael ei ddatblygu a'i fonitro o fewn y Fframwaith Rheoli Prosiect Corfforaethol sy'n seiliedig ar y Fethodoleg PRINCE 2 .

## ***Themâu Allweddol***

- 5.5.5** Hefyd, mae'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (SPR) yn ceisio cefnogi gwelliannau parhaus ar lefel gwasanaeth, a monitro llwyddiant amcanion corfforaethol. O ganlyniad i'r Prosiect Asesu a Gwella Corfforaethol (CAIP), datblygodd yr Awdurdod broses adolygu fewnol gyda'r nod o fonitro gwelliant ar draws naw thema allweddol a fabwysiadwyd gan Gonwy. Cydnabuwyd CAIP am arfer da gan Wobrau Rhagoriaeth Cymru CLILC yn 2009. Canlyniad gwerthuso'r 9 thema allweddol oedd yr argymhelliad bod angen adolygu a diweddarau'r fframwaith yn unol â'r rhaglen lywodraethu gyfredol. Cafodd y cynnig i leihau nifer y themâu allweddol i 6, ar sail hierarchaeth Asesu Corfforaethol SAC o fframwaith llywodraethu corfforaethol, ei gymeradwyo gan yr Aelodau ym mis Mawrth 2010.
- 5.5.6** Cynhelir yr asesiad 6 thema allweddol gan dimau o staff ac aelodau etholedig ac maent yn gwneud argymhellion ar ffyrdd o wella perfformiad, a chanlyniadau yn yr Awdurdod. Mae hwn wedi bod yn ddull pwysig o sicrhau ymglymiad staff o bob lefel o'r sefydliad, ac mae'n eu caniatáu iddynt gael profiad y tu allan i'w maes gwaith arferol. Rhoddir gwybod am yr argymhellion i'r Cabinet ac mae argymhellion sydd wedi eu derbyn yn cael eu monitro trwy adolygiadau perfformiad gwasanaeth ar gyfer cynnydd a gweithredu.

## ***Cyllid***

- 5.5.7** Mae'r Awdurdod yn chwilio am ffyrdd o sicrhau defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau yn barhaus, ac yn ymdrechu i wella'r ffordd y mae ei swyddogaethau yn cael eu cynnal.
- 5.5.8** Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro a'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol neu ei gynrychiolydd yn asesu pob adroddiad a datblygiadau sy'n cynnwys canlyniadau ariannol.

## ***Cydweithio***

- 5.5.9** Mae'r Awdurdod ynghlwm â chydweithio gyda phartneriaid fel yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol eraill, y sector gwirfoddol, Gwasanaethau Tân, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac Addysg Uwch. Ym mis Tachwedd 2010 cyhoeddodd yr Awdurdod Ddatganiad ar Gydweithredu gan gadarnhau'r ymrwymiad i gydweithredu a'r dull ar gyfer cydweithredu.
- 5.5.10** Mae'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac wedi arwain rhai Prosiectau Cydweithio Gogledd Cymru fel Teleofal a TCC. Mae'r Awdurdod wedi penodi Pennaeth Priffyrdd ac Isadeiledd ar y cyd gyda Chyngor Sir Ddinbych. Hefyd, mae cydweithio gyda Thrwyddedu Cyngor Sir Ddinbych yn llwyddiannus ac mae cydweithio pellach yn parhau gyda Sir

Ddinbych mewn perthynas ag agweddau eraill o'r Gwasanaethau Rheoleiddio. Mae'r Awdurdod a Chyngor Sir Ddinbych wedi sefydlu Bwrdd Cydweithredu sy'n cynnwys uwch swyddogion ac aelodau (wedi'u cefnogi gan Grŵp Cydweithredu Swyddogion) i gefnogi'r rhain a phrosiectau cydweithrediadol eraill ac i ddarparu elfen o newid. Mae gan yr Awdurdod gynrychiolaeth uwch ar y Byrddau cydweithredu rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Amgylchedd, a Gwasanaethau Cefnogi ac mae'n cyfrannu at amrywiaeth o weithgorau sy'n datblygu cynigion cydweithrediadol.

### **Partneriaethau**

**5.5.11** Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb cyffredinol am bartneriaethau i'r Pennaeth Gwasanaethau Datblygu Cymunedol ym mis Medi 2009 pan benodwyd y Rheolwr Cydlynu Partneriaeth. Cyfrifoldebau'r swydd yw rheoli a chydlynu'r agwedd strategol tuag at waith partneriaeth. Mae Rheolwr Cydlynu Partneriaeth yr Awdurdod yn darparu cefnogaeth weinyddol i Fwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy, Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Lles Conwy, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd Conwy a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

**5.5.12** Mae adolygiad a chyhoeddiad wedi'i ddiweddarau o'r Strategaeth Gymunedol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddinasyddion wedi'u comisiynu gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy. Yn ystod 2010/11 cafodd PID ei gymeradwyo a sefydlwyd tîm prosiect. Trwy weithio'n agos gyda'r gymuned mae canlyniadau strategol allweddol i ddinasyddion a dangosyddion mesuradwy wedi'u datblygu a bydd cynllun gweithredu wedi'i gwblhau erbyn hydref 2011.

**5.5.13** Datblygwyd Pecyn Gwaith Llywodraethu Partneriaeth ar gyfer Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Phartneriaethau Strategol a chafodd ei gefnogi gan y Cabinet ar 10 Tachwedd 2010. Mae'r pecyn gwaith yn sicrhau bod ein swyddogion, aelodau etholedig a phartneriaid yn deall nodau a phwrpas unrhyw waith partneriaeth ac yn deall ein cyfrifoldebau ac ymrwymïadau priodol.

**5.5.14** Cefnogwyd a chymeradwywyd y Cynllun Gwella a Llywodraethu Partneriaeth gan y Cabinet ar 9 Mawrth 2010. Bydd y cynllun yn gwella trefniadau llywodraethu ac yn darparu lefel briodol o sicrwydd i Gynghorwyr mewn partneriaeth â gwaith partneriaeth a'u heffaith ar fywydau pobl yng Nghonwy. Mae 3 cham i'r cynllun:

- Cwmpasu Partneriaeth ac asesu bob partneriaeth yn sylweddol;
- Gwella llywodraethu a pherfformiad;
- Trefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol y partneriaethau.

Gwnaethpwyd cynnydd da yn ystod 2010/2011 mewn gweithredu'r uchod gan bennu terfynau pob partneriaeth arwyddocaol a chynnal asesiad arwyddocaol ohonynt. Hefyd, mae'r Rheolwr Cydlynu Partneriaeth wedi gweithredu gwiriadau iechyd mewn perthynas â phob partneriaeth arwyddocaol i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol wedi'u sefydlu ac i symbylu gwelliant. Bydd y cynllun yn sicrhau fod gan yr Awdurdod lun cyflawn o'r bartneriaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i lywodraethu, perfformiad ac atebolrwydd y bartneriaeth.

**5.5.15** Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad ar y cyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o'r gwaith archwilio a gynlluniwyd ar gyfer 2009/10. Canlyniad y gwaith hwn oedd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi hyfforddiant i reolwyr a staff ym mhob gwasanaeth i ddefnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA). Defnyddiwyd y fethodoleg RBA i ddatblygu'r Cytundeb Canlyniadau a'r Strategaeth Gymunedol ddrafft. Bydd RBA yn cael ei ddefnyddio gan bartneriaethau strategol yn y dyfodol i sicrhau gwell perfformiad a gwell canlyniadau. Yn ystod 2010/2011 gwnaeth Archwilio Mewnol waith dilynol mewn perthynas â'r tair partneriaeth a archwiliwyd yn ystod 2009/2010. Daeth yr adolygiad i'r canlyniad er bod materion heb eu datrys y mae angen delio â nhw, roedd tystiolaeth o welliannau arwyddocaol mewn perthynas â'r trefniadau

Ilywodraethu sydd wedi'u sefydlu. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau ym mis Mai 2010 i roi gwybod i'r aelodau am y cynnydd a oedd wedi'i wneud mewn gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol.

### ***Meincnodi Perfformiad***

- 5.5.16** Mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at nifer o glybiau meincnodi, mewn ystod o wasanaethau, sy'n caniatáu cymharu perfformiad, costau ac arfer da. Mae Dangosyddion Perfformiad (PI) yn cael eu monitro a'u riportio yn rheolaidd, ac mae dadansoddiad yn cael ei ddarparu i ganfod gwelliannau a dirywiad perfformiad, a chynllunio cyfeiriad y Cyngor i sicrhau fod cymaint o ddangosyddion perfformiad â phosibl yn y chwarterl uchaf. Sefydlwyd Uned Ymchwil a Gwybodaeth i sicrhau bod cefnogaeth ac arbenigedd corfforaethol ar gyfer ymchwil a gwybodaeth. Mae'r uned yn darparu gwybodaeth ddemograffig ddiweddar a chyson, ac yn darparu dadansoddiad blynyddol o berfformiad y Cyngor yng Nghymru, yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol. Lansiodd gwefan ystadegau ar gyfer y Sir yn 2010/2011.

### ***E-Lywodraeth***

- 5.5.17** Mae'r Awdurdod wedi cymryd agwedd rhagweithiol i'r rhaglen e-lywodraeth ac mae wedi sefydlu systemau busnes fel system Adnoddau Dynol/Cyflogau a System Gofal Cymdeithasol ac mae'n sefydlu System Rheoli Cofnodion a Dogfennau Electronig. Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio'r rhaglen e-lywodraeth i gymell gwelliannau mewn effeithlonrwydd trafodaethol trwy wefan y Cyngor. Yn ystod 2009/2010 cynhaliodd yr Awdurdod gynllun arbrolfol e-dendro ac e-ocsiwn mewn perthynas â 78 o gytundebau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Arweiniodd hyn at arbedion o tua £77mil mewn perthynas â chyllideb 2010/2011.

### ***Caffael***

- 5.5.18** Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i foderneiddio ei brosesau caffael ac mae ganddo gysylltiadau cryf gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r Tîm Gwerth Cymru, a chyrrff sector cyhoeddus cyfagos. Mae'r Awdurdod yn aelod o Bartneriaeth Caffael Gogledd Cymru sy'n gweithredu ar gyfer chwe Awdurdod Gogledd Cymru. Sefydlwyd y bartneriaeth i gyflawni tîm caffael rhanbarthol i gyflymu a gwella arbedion caffael trwy gaffael detholiad o nwyddau a gwasanaethau ar y cyd.

- 5.5.19** Yn ystod 2009/2010, ehangwyd y swyddogaeth Caffael Corfforaethol i ddarparu gwell lefel o gefnogaeth i wasanaethau, cynghori ar yr ymarferion caffael, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gwerthusiadau ansawdd/pris, neu sy'n gofyn am gadw at gyfarwyddiadau'r UE. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gryfhau swyddogaeth yr uned ymhellach, i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r fframwaith rheoleiddio a lleihau risgiau caffael.

### ***Hyfforddiant Staff***

- 5.5.20** Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu gan unigolion sydd â'r capasiti a'r sgiliau i alluogi gwelliannau parhaus. Cafodd Conwy y wobr Buddsoddwyr mewn Pobl ar gyfer yr Awdurdod cyfan ym mis Medi 2008, ac fel y mae adroddiad yr asesiad yn nodi, mae wedi ymrwymo i ddatblygu a hyfforddi ei weithlu.

- 5.5.21** Cynhaliwyd arolwg staff y Cyngor ym mis Mehefin 2010 gyda graddfa ymateb o 40%. Mae adroddiad wedi'i ddsbarthu trwy'r broses ddemocrataidd ac uwch reolwyr. Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i ddelio â meysydd allweddol sydd angen gwelliant.

- 5.5.22** I grynhoi, roedd llawer o ganlyniadau cadarnhaol gan gynnwys nifer arwyddocaol o staff a oedd yn agored i newid, yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwasanaeth cwsmer da, yn cael perthynas gadarnhaol gyda'u rheolwr atebol a chydweithwyr ac a oedd yn cydbwyso gwaith a bywyd cartref. Roedd nifer arwyddocaol o staff yn teimlo'n fodlon gyda Chyngor Conwy fel cyflogwr ac yn teimlo fod ganddynt y

sgiliau i wneud eu gwaith ac roeddent yn gallu cael mynediad at y briff tîm i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

**5.5.23** Roedd meysydd sydd angen gwelliant yn cynnwys delio â'r rhesymau pam nad yw rhai staff yn falch o weithio i Gonwy, gwella cyfathrebu yn gyffredinol ac yn benodol cyfathrebu gweledigaeth y Cyngor, y Cynllun Corfforaethol, gwybodaeth am Aelodau Cabinet a dangos manteision gwaith cydweithrediadol. Rydym angen edrych hefyd ar sut rydym yn rheoli newid ac yn delio â pherfformiad gwael unigolion, gwella adolygiadau datblygu perfformiad a rheoli straen.

#### ***Effeithlonrwydd***

**5.5.24** Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn bositif i Raglen Gwella Cymru mewn perthynas â chyflawni, mesur, ac arddangos enillion effeithlonrwydd, ac mae'n datblygu ei brosesau ymhellach i wella ar y sylwadau positif a gafwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG ym mis Ionawr 2011.

**5.5.25** Yn niwedd 2009, dechreuodd yr Awdurdod adolygu ei swyddfeydd fel rhan o'i ymdrechion i fynd i'r afael â'r pwysau economaidd ac ariannol mawr sy'n bodoli ar hyn o bryd, a gwella'r profiad cwsmer ar gyfer dinasyddion Conwy, yn ogystal â gwella amgylchedd gwaith ein hased pennaf, ein staff. Datblygwyd ystod o gynigion. O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol newidiol, a chyfleoedd eraill sydd wedi cyflwyno eu hunain yn ddiweddar, mae'r Awdurdod wedi cael prydles Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Dinerth Road, a oedd yn wag ar ôl agor adeilad newydd LICC yng Nghyffordd Llandudno. Mae hyn wedi caniatáu i'r gwasanaethau cymdeithasol oedolion i symud o nifer o safleoedd i un ganolfan ac i wasanaethau rheng flaen symud i adeiladau sy'n fwy hygyrch i'r cyhoedd. Rhagwelir bydd y cynlluniau symud swyddfeydd hyn gydag amser yn arwain at well arferion gwaith ac arbedion effeithlonrwydd.

**5.5.26** Yn ystod 2010/2011 bu gwaith yn parhau ar Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y mwyafrif o asedau gweithredol Conwy, er mwyn ei gysylltu â pholisïau corfforaethol. Hefyd, mae'r Gwasanaeth Priffyrdd ac Isadeiledd wedi cwblhau nifer o gamau gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Asedau Priffyrdd yn ystod 2010/11 ac yn parhau i weithredu a datblygu prosesau Rheoli Asedau.

**5.5.27** Fel gyda phob sefydliad sector cyhoeddus, darparwyd arbedion cyllidebol arwyddocaol gan Gonwy yn ystod 2010/2011 (yn y swm o £4.2m), yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr a'r effeithiau ôl-ddilydol ar Lywodraeth Leol Cymru, mae Conwy yn cynllunio'n weithredol i ddarparu rhagor o arbedion o £15m yn ystod y cyfnod rhwng 2011/2012 a 2013/2014.

#### ***Gwobrau a Llwyddiannau***

**5.5.28** Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei amcanion corfforaethol ac wedi gwneud gwelliannau sylweddol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- Adroddiad Gwella Blynyddol cadarnhaol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011 yn cadarnhau bod Conwy yn awdurdod sy'n gwella
  - Rhoi'r Contract Iechyd Galwedigaethol newydd
  - Cymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor
  - Cymeradwyo Datganiad y Cyngor ar Gydweithredu a sefydlu Bwrdd Cydweithredu gyda Sir Ddinbych
  - Cwblhau proses Dendro Venue Cymru
  - Tîm Genesis, Tîm Strategaeth Tai a'r prosiect Goleuadau Stryd rhanbarthol yn cyrraedd rownd derfynol Rhagoriaeth Cymru.
  - Ennill Gwobr APSE am benodi Cyd Bennaeth Priffyrdd
  - Ennill y Wobr Rhagoriaeth newydd mewn Gwasanaeth Cwsmer i'r Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau. Rhoddwyd hon yn unol â gofynion safon Rhagoriaeth Cwsmeriaid Swyddfa Cabinet y D.U..

- Ennill nifer o Wobrau Baner Werdd a Baner Las
- Datblygu dull ar y cyd gyda Chyngor Sir Ddinbych ar gyfer adolygiadau datblygu perfformiad a chynlluniau gwasanaeth
- Mewn partneriaeth gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe a LICC, rydym wedi sefydlu Cymuned Ymarfer (CoP) ar gyfer Cymru Gyfan i rannu arfer da ynglŷn â rheoli prosiectau.
- Sicrhau £6.4 miliwn ar gyfer Canolfan Ddigidwyddiadau Parc Eirias
- Cwblhau ymarfer Prif Gynllun Bae Colwyn y gellir ymgynghori arno erbyn hyn.
- Cael cyllid ar gyfer gwaith Amddiffynfeydd Arfordirol Bae Colwyn
- Cael cyllid ar gyfer cam 2 y Cynllun Datblygu Gwledig
- Cytuno ar gau Cartref Preswyl Awel y Môr
- Agor y Ganolfan Anableddau Dysgu – Rhodfa Riviere a'i chyflwyno ar gyfer gwobrau ecolegol (gwobrau CLAW a Chynladwyedd)
- Sicrhau £4 miliwn ar gyfer prosiect Taith i Waith i helpu pobl ddi-amddiffyn i gael mynediad at gyfleoedd gwaith.

## 5.6 RHEOLI ARIANNOL YR AWDURDOD A RHOI GWYBOD AM REOLI ARIANNOL.

**5.6.1** Mae'r Awdurdod wedi penodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro a'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yn Brif Swyddog Ariannol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cael ei gynnal yn unol â'r Rheoliadau Ariannol a nodwyd yn y Cyfansoddiad.

**5.6.2** Mae'r Awdurdod yn cynnal proses gyllidebu a arweinir gan flaenoriaethau a risg, sy'n ceisio cyfeirio adnoddau referniw a chyfalaf at flaenoriaethau a risgiau strategol. Mae Grŵp Monitro Rhaglen Gyfalaf yn gorchwyllo datblygu'r broses hon mewn perthynas ag adnoddau cyfalaf. Mae'r Grŵp Monitro Rhaglen Gyfalaf yn gweithredu o fewn yr egwyddorion yn y Fframwaith Llywodraethu Cyfalaf a gymeradwywyd.

### ***Sefydlu a Monitro Cyllideb***

**5.6.3** Mae trefnau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer rheolaeth ariannol yr Awdurdod a rhoi gwybod am wybodaeth rheoli ariannol sydd wedi ei gynnwys yn y Fframwaith Cynllunio Busnes. Mae gan yr Awdurdod set o Egwyddorion Ariannol Arweiniol i gefnogi ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig Cryno, ac wedi datblygu rhagolygon cyllidebol strategol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol sydd i ddod.

**5.6.4** Mae'r Awdurdod yn gweithredu cynllun o gyllidebau wedi'u dirprwyo sy'n cael eu cefnogi gan unedau cyllid canolig ac adrannol. Mae'r rhain wedi eu tanategu gan drefnau proffesiynol sy'n sefydlu cyfrifoldeb a llinellau rhoi gwybod ar gyfer Cyfrifwyr gwasanaeth.

**5.6.5** Bydd adroddiadau monitro cyllideb, sy'n nodi rhagolygon blwyddyn lawn yn cael eu rhoi i'r Cabinet a'r Gweithgor yn fisol, ac i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn chwarterol. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi rhesymau am amrywiadau ac yn nodi unrhyw gamau cywiro a gynigir. Bydd adroddiadau monitro manwl yn cael eu paratoi ar gyfer rheolwyr gwasanaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth i helpu deiliad cyllideb i gyflawni eu cyfrifoldebau ariannol.

**5.6.6** Sefydlwyd nifer o Fyrddau Prosiect penodol i fonitro datblygiad a gwariant ar y prosiectau strategol allweddol.

### ***Rheoli Trysorlys***

**5.6.7** Bydd gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn cael eu cynnal yn unol â'r Strategaeth a Chynllun Blyneddol Rheoli Trysorlys, ac mae'r benthyca yn unol â'r Cod Darbodus. Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn rhagweithiol i'r Cod Darbodus, a rhoddir gwybod

i aelodau etholedig am y dangosyddion darbodus. Mae'r Awdurdod wedi datblygu polisi sy'n sefydlu amodau ar gyfer defnyddio benthyca darbodus.

### ***Grantiau***

- 5.6.8** Mae'r Awdurdod yn denu nifer fawr o grantiau i ariannu'r prosiectau a chynlluniau. Mae rhai grantiau yn rhai sydd wedi bodoli ers hir, ac mae eraill yn fwy diweddar, ac yn adlewyrchu polisiâu Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y materion cynladwyedd sy'n deillio o gefnogaeth grant. O ganlyniad, datblygwyd protocol grantiau i sicrhau bod agwedd gyson yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ar gyfer pob grant, gyda phwyslais penodol ar wneud cais am, a derbyn, ffynonellau cyllid newydd.

## **5.7 RHEOLI PERFFORMIAD**

### ***Fframwaith Rheoli Perfformiad***

- 5.7.1** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Fframwaith Rheoli Perfformiad ers 2005 sy'n ymwneud â'r broses a'r amserlen ar gyfer gweithredu elfennau allweddol o reoli perfformiad sef:

- Amcanion Corfforaethol
- Cynlluniau Gwasanaeth
- Adolygiadau Datblygu Personol
- Rheoli Risg
- Rheoli Prosiect
- Mesurau Perfformiad
- Rheoleiddio ac Archwilio
- Cynllunio Ariannol
- Trefniadau Craffu

Cafodd y Fframwaith Rheoli Perfformiad ei ddiweddarau yn dilyn cyhoeddi Rhaglen Gwella Cymru newydd a chafodd ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2010.

### ***Tim Gwella a Datblygu Corfforaethol***

- 5.7.2** Mae gan yr Awdurdod Dîm Gwella a Datblygu Corfforaethol sefydledig (CIDT) sy'n gwneud amryw o ddyletswyddau gyda'r nod o gefnogi a chydlynu'r rhaglen wella yng Nghonwy. Mae'r Tîm hefyd yn cefnogi, ac yn rhoi gwybod am berfformiad yn gyson ym mhob gwasanaeth. Cafodd y Tîm ei arwain gan y Prif Weithredwr ac mae wedi bod dan Arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro a'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yn ystod y trefniadau rheoli interim.

### ***Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol***

- 5.7.3** Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol yn darparu agwedd rhagweithiol i ddadansoddi cwynion a chanmoliaeth. Mae cronfa ddata ymgynghori wedi cael ei datblygu, ac mae ar gael ar fewnwyd y Cyngor. Cafodd ei chyflwyno i'n holl bartneriaid i'w defnyddio fel pecyn ar y we yn 2010/2011.

### ***Cynllun Corfforaethol a Chytundeb Canlyniadau***

- 5.7.4** Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ddogfen strategol sy'n amlinellu sut y byddwn yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd rydym yn gwneud ein swyddogaethau. Mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Darparu'r Cynllun Corfforaethol, sy'n manylu ar gamau penodol, datblygiad, adnoddau, swyddog arweiniol ac aelod cabinet arweiniol a phwyllgor trosolwg a chraffu penodol pob amcan.

**5.7.5** Mae'r Awdurdod hefyd wedi bod yn gweithio i gwblhau'r amcanion a nodwyd yn y Cytundeb Gwella gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafwyd y lwfans grant llawn ar gyfer 2009/2010. Cafodd Cytundebau Gwella eu disodli gan Gytundebau Canlyniad 3 blynedd yn 2010/2011. Gweithiodd yr Awdurdod mewn partneriaeth â LICC a phartneriaid allweddol eraill i sicrhau fod y cytundeb yn unol â'r Cynllun Corfforaethol. Mae ffigyrau perfformiad bron wedi'u cwblhau ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod hwn.

### **Heriau Mewnol ac Allanol**

**5.7.6** Mae'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn monitro perfformiad y gwasanaethau drwy adolygu datblygiad gwasanaethau, data mesur perfformiad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad, a'r Cytundeb Canlyniadau bob 6 mis.

**5.7.7** Cynhaliwyd Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth ym mis Mai/Mehefin a mis Hydref/Tachwedd yn ystod 2010/2011 ledled yr Awdurdod.

**5.7.8** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Rhwydwaith Perfformiad a Pholisi mewnol sy'n cyfarfod bob chwarter i alluogi swyddogion busnes a pherfformiad yn y gwahanol wasanaethau i rannu arferion da.

**5.7.9** Bydd adroddiadau cynnydd sy'n nodi'r gwelliannau a wnaed wrth ymateb i argymhellion rheolyddion allanol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn. Bydd datblygiadau wrth weithredu argymhellion Archwilio Mewnol yn cael eu riportio yn chwarterol.

**5.7.10** Yn ystod 2010/2011 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru nifer o archwiliadau sydd wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Ystyriwyd yr adroddiadau gan y Pwyllgor Archwilio. Aeth y Cynrychiolydd Archwilio a Chyfarwyddiaeth i'r cyfarfodydd hyn i gyflwyno'r darganfyddiadau a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno.

<b>DYDDIAD</b>	<b>MAES</b>	<b>SYLWADAU YN GRYNO</b>
Awst 2010	Adroddiad Corfforaethol	Asesu
		Roedd prif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwiliwr Cyffredinol yn nodi bod "Sawl agwedd o drefniadau corfforaethol erbyn hyn yn cynnal gwelliant ond mae'r ansicrwydd presennol ar lefel uwch reolwyr yn risg posibl i allu'r Cyngor i ddelio â'r heriau sydd i ddod."
Ionawr 2011	Adroddiad Blynyddol	Gwella
		Roedd casgliadau allweddol yr adroddiad yn nodi "Mae'r Cyngor wedi cynnal y cynnydd mae wedi'i wneud mewn blynyddoedd diweddar. Mae wedi datblygu systemau effeithiol i fonitro ei berfformiad ac mae ar sail gadarn yn symud ymlaen i gyfnod o gyllid llai. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn ei gynllunio ariannol, gan gydnabod y bydd yn rhaid iddo ddod o hyd i arbedion o hyd at £15.7 miliwn dros dair blynedd. Er ei fod yn wynebu gwir heriau i sicrhau arbedion, mae wedi dechrau gweithio ar amrywiaeth o opsiynau i'w helpu i wneud hynny, gan ganfod arbedion o £11.8 miliwn hyd yn hyn."

### **Grŵp Archwilio a Gwella**

**5.7.11** Yn ystod 2008/2009, sefydlwyd Grŵp Archwilio a Gwella. Prif bwrpas y grŵp yw cefnogi ac ategu proses Rhaglen Gwella Cymru gyda rheolyddion allanol. Mae'n sicrhau fod y risgiau a nodwyd yn cael eu datrys yn briodol trwy weithredu mesurau effeithiol i liniaru risgiau. Mae'r mesurau yn cynnwys egwyddorion rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol. Mae'r grŵp yn cynnwys y Pennaeth



Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, y Rheolwr Archwilio, y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol, y Cydlynnydd Adolygu Gwelliant gyda phresenoldeb y Swyddog Adran 151 (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar hyn o bryd) a'r Swyddog Monitro (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar hyn o bryd) yn ôl y gofyn. Mae rhaglen o gyfarfodydd misol i:

- helpu gyda llif gwaith;
- cefnogi'r broses adolygu perfformiad gwasanaeth a chanfod risgiau;
- adolygu adroddiadau rheoleiddio drafft allanol a chynlluniau gweithredu perthnasol a gynhyrchwyd gan y gwasanaethau;
- ystyried cynnydd wrth weithredu argymhellion rheolyddion allanol; ac
- ystyried materion a risgiau wedi'u canfod gan Archwilio Mewnol wrth iddynt gyflawni eu gwaith;
- ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, y fframwaith a'r cynllun gweithredu perthnasol.

## **5.8 FFURFIO, CYSYLLTU A CHYNNAL PERTHNASAU EFFEITHIOL GYDA PHOBL LEOL A RHANDDEILIAID**

### ***Y Cynllun Corfforaethol ac Ymgynghoriad Cymunedol***

**5.8.1** Mae'r Cyngor wedi creu mecanweithiau ar gyfer deialog parhaus gyda phobl leol a rhanddeiliaid. Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol yn 2008 yn unol â fframwaith y Strategaeth Gymunedol. Datblygwyd y cynllun ar ôl dadansoddi anghenion demograffig yn fanwl ac ymgynghori yn helaeth ar faterion a gweithredoedd allweddol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio atborth ymgynghoriad cymunedol a gynhaliwyd gan wahanol bartneriaethau, gweithdai gyda phartneriaid, aelodau etholedig a'r UDRh. Roedd amcanion a ddatblygwyd hefyd yn cynnwys ystyried y rhaglen genedlaethol, data perfformiad ac argymhellion o adroddiadau arolwg.

**5.8.2** Mae ymglymiad cymunedol yn y broses hon yn hanfodol ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi datblygu deialog parhaus o roi atborth ynglŷn â chynnydd a thrafod anghenion y dyfodol mewn diwrnodau Cyfarfod y Cyngor, Bwletin Conwy, cyhoeddi Adroddiadau Blynnyddol a datblygu Cynlluniau Gweithredu Lleol gydag aelodau etholedig lleol. Mae ymglymiad cymunedol wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu prosiectau penodol, gan sicrhau fod y gymuned ynghlwm â sefydlu amcanion, a hefyd yn bartner wrth ddatblygu prosiectau i gyflawni'r amcanion a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys deialog cymunedol parhaus ynglŷn â phrosiectau pwysig fel Moderneiddio Ysgolion Cynradd, Tai Gofal Ychwanegol, Ailgylchu Gwastraff, Cynllun Cyffordd Llandudno, Ardal Adfywio Bywyd y Bae+, fforymau Strydlun, gwaith rhyng-ghenedlaeth, a Risgiau Llifogydd.

### ***Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol***

**5.8.3** Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol yn darparu agwedd rhagweithiol tuag at ddadansoddi a dehongli cwynion a chanmoliaeth. Yn ystod 2010/2011 roedd gwaith ar y gweill i gyflwyno gwelliannau i'r gronfa ddata monitro corfforaethol, sydd heb ei gwblhau eto. Hefyd, dechreuodd adolygiad o'r trefnau Cwynion Corfforaethol yn ystod 2009/2010, ond cafodd ei ohirio dros dro i aros am gwblhau'r drefn gwynion sengl ar gyfer cyrff cyhoeddus Cymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cyhoeddwyd y trefnau ym mis Ebrill 2011 a byddant yn cael eu gweithredu fel rhan o'r prawf EDRMS yn ystod 2011/2012. Mae adroddiad blynnyddol yn cael ei lunio i ganfod y nifer a'r mathau o gwynion y mae'r Awdurdod wedi ymdrin â nhw yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith yn cael ei wneud i wella categorïau'r cwynion a fformat adroddiadau.

### ***Cynlluniau Gweithredu Lleol***

**5.8.4** Mae'r awdurdod wedi datblygu 5 cynllun gweithredu lleol. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda Chynghorau Tref lleol ac aelodau etholedig ynglŷn â datblygiad cynlluniau gweithredu i wella eu hardal leol. Bydd y cynlluniau gweithredu yn rhan o'r Strategaeth Gymunedol ddiwygiedig.

- 5.8.5** Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned sydd â dyddiadur sefydledig o gyfarfodydd rheolaidd. Mae'r fforwm wedi drafftio Siarter sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Rhagwelir bydd y Siarter yn cael ei gymeradwyo erbyn mis Hydref 2011.

#### ***Cyngor Ieuentid***

- 5.8.6** Sefydlwyd Cyngor Ieuentid a bu cyfarfodydd llwyddiannus ar y cyd gyda Chabinet yr Awdurdod.

#### ***Ymgynghoriad Cwsmeriaid***

- 5.8.7** Mae penodiad y Rheolwr Datblygu Gwasanaeth Cwsmer wedi dangos gwelliant sylweddol yn yr agwedd gorfforaethol tuag at Gysylltu â Chymunedau. Er bod angen gwneud gwaith pellach ar y Gronfa Ddata Ymgynghori, mae Fframwaith Ymgynghori Cwsmeriaid wedi'i gymeradwyo. Mae archwiliadau i ymarferoldeb system Rheoli Perthnasau Cwsmeriaid ar y gweill ac mae'r gwaith o sefydlu proses 'dweud wrthym unwaith' yn parhau.

#### ***Cyngor Staff***

- 5.8.8** Mae gan yr Awdurdod Gyngor Staff sy'n cynnwys staff a enwebwyd o bob rhan o'r Awdurdod gyda'r nod o ddarparu cyswllt cyfathrebu rhwng staff a rheolwyr gweithredol yr Awdurdod. Mae'r Cyngor Staff yn gweithredu mewn modd ymgynghorol ac mae'n gyfle i staff gymryd rhan wrth ddatblygu polisiau a threfnau corfforaethol ac yn galluogi rheolwyr i rannu gwybodaeth gorfforaethol allweddol gyda staff. Mae gan staff hefyd gyfle i herio datblygiad gwelliannau gwasanaeth yn yr Awdurdod trwy wirfoddoli i gymryd rhan yn y cynllun chwe thema allweddol. Mae'r cynllun yn galluogi staff ac aelodau etholedig i gynnal hunanasesiad ar y gwelliannau llywodraethol yn yr Awdurdod.

#### ***Strategaeth Gyfathrebu***

- 5.8.9** Ers cymeradwyo'r Strategaeth Gyfathrebu Corfforaethol gan y Cabinet ym mis Ionawr 2010, mae gwaith wedi bod ar y gweill i gymryd y camau gweithredu sydd eu hangen i wella cyfathrebu mewnol ac allanol. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod 2010/2011 gyda 30% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau a 44% arall ar y gweill. Yn ystod adolygiad diweddar o'r camau gweithredu sydd heb eu cymryd, cytunwyd i ddiweddarau'r Cynllun Gweithredu yn unol ag anghenion presennol cyfranogion a sefydliadau partner. Bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â datblygiad y Strategaeth Gymunedol 2025 a Chynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2012 – 2016. Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio yn agos gan ddatblygu perthnasau a gwella cyfathrebu ar lefel uwch, yn ogystal â datblygu dull cydweithrediadol ar gyfer darparu gwasanaethau gyda chydweithwyr ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

#### ***Adroddiad Perfformiad Blynyddol***

- 5.8.10** Er mwyn cyflawni ein goblygiadau statudol, bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi bob mis Hydref gan fanylu ar berfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

### **6. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD**

#### ***Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2009/2010***

- 6.1** Mae archwilwyr allanol y Cyngor (KPMG a Swyddfa Archwilio Cymru) yn adolygu gweithgareddau'r Cyngor ac yn archwilio'r cyfrifon blynyddol. Rhoddir gwybod i'r aelodau etholedig a'r rheolwyr am y casgliadau a'r materion pwysig sy'n codi yn yr adroddiadau allweddol. Yn dilyn Canllawiau newydd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, nid yw SAC bellach yn cynhyrchu Llythyrau Blynyddol. Maent wedi'u disodli gan Aseiad Corfforaethol sy'n archwilio trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, ac Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) sy'n archwilio perfformiad yr

Awdurdod. Yn yr AGB diweddaraf a gynhyrchwyd ym mis Ionawr 2011, daeth SAC i'r casgliad bod "sawl agwedd o drefniadau corfforaethol erbyn hyn yn cynnal gwelliant. Ond, canfuom bod ansicrwydd ar lefel uwch reolwyr yn risg posibl i allu'r Cyngor i ddelio â'r heriau sydd i ddod.

- 6.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi fod 'Cynllun Gwella'r Cyngor 2010/2011 yn diwallu gofynion statudol ac yn rhoi barn gytbwys o'i berfformiad yn 2009/2010".

#### ***Gwasanaeth Archwilio Mewnol***

- 6.3 Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn wasanaeth mewnol a gyflogir yn uniongyrchol sy'n darparu adolygiad parhaus yn unol â goblygiadau'r Awdurdod dan y Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol ym Mhrydain. Mae'r adain Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd sy'n darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ar yr amgylchedd rheoli trwy werthuso effeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion y sefydliad.

- 6.4 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio'n barhaus gyda rheolwyr i asesu'r amgylchedd rheoli a gwella rheolaethau yn ôl yr angen. Mae cynllun archwilio mewnol strategol yn seiliedig ar risg pedair blynedd wedi'i sefydlu sy'n archwilio pob system ariannol allweddol. Mae'r amcanion Archwilio Mewnol yn cynnwys:

- Adolygu a gwerthuso systemau rheolaeth yn annibynnol yn yr Awdurdod;
- Argymhell gwelliannau mewn trefnau, rheolaethau a chynhyrchiant systemau i gyflawni nodau ac amcanion corfforaethol;
- Gweithio mewn partneriaeth gydag Archwilwyr Allanol gan sicrhau cyflenwad archwilio effeithiol a gwneud y gorau o'r adnoddau archwilio sydd ar gael;
- Gweithio yn unol â Strategaeth Gwrth Dwyll a Llygredigaeth yr Awdurdod a chynnal archwiliadau i dwyll ac anghysondebau yn ôl yr angen;
- Rhoi gwybod i'r UDRh yn chwarterol mewn perthynas â materion rheoli a ganfuwyd yn ystod cyfnod yr archwiliadau anghysondebau i alluogi mynd i'r afael â materion rheoli mewnol.

#### ***Datganiad Sicrwydd Blynyddol y Pennaeth Archwilio***

- 6.5 Mae'n rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n rhoi barn ynglŷn ag addasrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor, a rhoi manylion unrhyw wendidau sy'n cyd-fynd â'r farn hon a thynnu sylw at unrhyw faterion sy'n berthnasol i baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi tystiolaeth a sicrwydd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â'r safonau a nodwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol ym Mhrydain i alluogi'r Cyngor i gael sicrwydd o'r farn hon.

- 6.6 Mae Datganiad Sicrwydd Blynyddol 2010/11 yn cynnwys y farn ganlynol "Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drefniadau rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol boddhaol i reoli llwyddiant amcanion y sefydliad". Ond, ni all y sicrwydd archwilio mewnol fod yn absoliwt a dim ond y gwendidau amlwg a ganfuwyd mewn perthynas â'r meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, ac nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r gwelliannau fydd eu hangen. Mae'r sicrwydd yn gyfyngedig mewn perthynas â'r 48 prosiect archwilio a ddilëwyd o'r cynllun blynyddol yn ystod 2010/2011.

#### ***Hunanasesiad***

- 6.7 Sefydlwyd gweithgorau yn 2007 i fonitro a mesur gwelliant o fewn y Cyngor mewn perthynas â'r 9 Thema Allweddol ar gyfer gwelliant dan y Prosiect Asesu a Gwella

Corfforaethol (CAIP). Datblygodd y broses hon yn Brosiect 6 Thema Allweddol yn ystod 2010/2011. Roedd y chwe thema allweddol wedi'u seilio ar Hierarchaeth Asesu Corfforaethol SAC ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ac yn sail i hunanasesiad mewn perthynas â'r 6 Thema Allweddol ddilynol:

- Arweinyddiaeth a Llywodraethu;
- Polisi a Strategaeth;
- Rheoli Pobl;
- Rheoli Adnoddau;
- Partneriaethau;
- Prosesau Busnes.

- 6.8** Sefydlwyd fframwaith i alluogi'r 6 gweithgor i asesu a sgorio pob thema ac i wneud hyd at dri argymhelliad ymhob maes ynglŷn â sut y gallai'r Cyngor wella yn y dyfodol er budd y gymuned. Roedd y gweithgorau yn cynnwys trawstoriad o Aelodau a staff gwirfoddol gyda chefnogaeth ar gyfer y broses yn cael ei darparu gan Wella a Datblygu Corfforaethol ac Archwilio Mewnol.
- 6.9** Cynigwyd y byddai'r argymhellion ar gyfer gwelliant a gynhyrchwyd gan y prosiect yn cael eu cynnwys yn y cylchred Rheoli Perfformiad i'w hystyried a'u gweithredu. Cafodd llwyddiant y prosiect a manteision hunanasesu corfforaethol eu cydnabod gan y Cabinet sy'n cefnogi ailadrodd proses asesu corfforaethol y 6 Thema Allweddol yn ystod 2011.

#### ***Y Cyfansoddiad***

- 6.10** Adolygwyd Cyfansoddiad yr Awdurdod yn drylwyr yn ystod 2009/2010 a chymeradwywyd y diwygiadau gan y Cyngor. Mae'r Cyfansoddiad yn cael ei adolygu yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn diwallu gofynion statudol a'r amgylchedd gwaith newidiol.
- 6.11** Bydd y Swyddog Monitro yn cynnal adolygiad parhaus o bob mater cyfreithiol a moesol, gan gael copïau o bob rhaglen, cofnodion, adroddiadau a phapurau cysylltiol gan roi sylwadau os oes angen, neu weithredu os yw'n briodol.
- 6.12** Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am safonau a chywirdeb, ac yn cael adroddiadau rheolaidd gan y Swyddog Monitro.
- 6.13** Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal trosolwg o swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor. Bydd aelodau etholedig yn cael copïau o'r holl adroddiadau a gynhyrchwyd gan yr Archwilwyr Mewnol, Swyddfa Archwilio Cymru, a KPMG. Byddant yn cymeradwyo'r cynlluniau blynyddol ar gyfer pob un ac yn cael adroddiadau cynnydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Pennaeth Archwilio a Chaffael yn cyflwyno'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol i'r pwyllgor hwn. Bob blwyddyn mae'r Archwilwyr Allanol yn cyflwyno Adroddiad Asesu Corfforaethol sy'n archwilio trefniadau llywodraethu'r Awdurdod ac Adroddiad Gwella Blynyddol sy'n adolygu perfformiad yr Awdurdod, i'r Pwyllgor Archwilio.

#### ***Rheoli Risg***

- 6.14** Adolygwyd y Strategaeth Rheoli Risg yn ystod 2009/2010 ac mae Rheoli Risg wedi gwella fwy fyth yn ystod y flwyddyn gyda'r defnydd o system feddalwedd Ffynnon.
- 6.15** Roedd risg yn nodwedd bwysig o'r ystyriaethau sefydlu cyllideb ar gyfer y Cyngor yn ystod 2010/2011 ac wrth sefydlu'r gyllideb a Threth y Cyngor ar gyfer 2011/2012.

## ***Rheoli Ariannol***

- 6.16** Mae gan yr Awdurdod hanes diweddar o reoli ei gynlluniau gwario o fewn y gyllideb a gymeradwywyd, ac mae Llythyrau Blynyddol dilynol a gynhyrchwyd gan SAC ac yna SAC a KPMG yn credu bod yr amgylchedd rheoli cyffredinol yn gadarn ar y cyfan, gyda systemau rheoli ariannol mewnol a threfniadau rheoli ariannol cadarn yn gweithredu. Mae gan Gonwy hanes o reoli ariannol effeithiol.

## ***Cynllunio Busnes a Rhoi Gwybod***

- 6.17** Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Fframwaith Cynllunio Busnes ac yn monitro ac adolygu cynnydd yn barhaus yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynlluniau'r gwasanaethau. Bydd ein cynnydd yn erbyn yr amcanion corfforaethol hefyd yn cael ei fonitro hanner ffordd drwy'r flwyddyn a'i riportio i'r Gweithgor, yr UDRh, y Cabinet, a'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cynhelir sesiynau cynllunio strategol gyda'r Cabinet a'r uwch swyddogion i ganfod a chytuno ar y pethau strategol allweddol i'w cyflawni a thargedau fel y nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae monitro rheolaidd yn ein galluogi i adolygu ein cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd mewn mesurau perfformiad statudol a lleol. Rydym yn rhoi gwybod am ddatblygiadau yn ein Adroddiad Blynyddol ac yn rhoi gwybod am weithgareddau gwella a gynlluniwyd yn ein hadolygiad blynyddol o'r Cynllun Corfforaethol.

## **RHAGLEN O WELLIANNAU AR GYFER MATERION LLYWODRAETHU**

- 7.1** Nid yw'r Cyngor yn hunanfodlon. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn wedi canfod meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau pellach. Yr hyn sy'n dilyn yw crynodeb o'r meysydd y bydd y Cyngor yn canolbwyntio ei ymdrechion arnynt yn ystod 2011/12.
- 7.2** Y bwriad yw y bydd pob un o'r camau gweithredu a nodwyd yn y rhaglen wella hon yn cael eu cynnwys yn Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth y dyfodol. Bydd cynnydd yn erbyn y mesurau gwella sydd eu hangen yn cael eu cydlynu a'u monitro gan y Grŵp Gwella ac Archwilio a'u riportio i'r Pwyllgor Archwilio.
- 7.3** Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yr amgylchedd llywodraethu a rheoli, credir mai'r canlynol yw blaenoriaethau mwyaf yr Awdurdod:-
- (i)** Adolygu'r fframwaith mewn perthynas â'r 6 thema allweddol newydd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.
  - (ii)** Adolygu, diweddarau a gweithredu'r Llawlyfr Rheoli Prosiectau.
  - (iii)** Adolygu ein Rheolau Sefydlog ynglŷn â Chontractau a'r Cod Ymarfer ar Gontractau a darparu hyfforddiant priodol i staff.
  - (iv)** Parhau i ddatblygu Strategaeth Pobl newydd i ddarparu cynllun gweithlu trofswaol i gefnogi ein canlyniadau strategol a busnes yn y dyfodol.
  - (v)** Cyflwyno'r gofrestr o gysylltiadau Aelodau i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer ei adolygu ddwywaith y flwyddyn.
  - (vi)** Profi a gweithredu'r Cynllun Adolygu Perfformiad a Datblygiad diwygiedig ar gyfer staff.
  - (vii)** Symud gweithredu'r drefn Llywodraethu Partneriaeth a'r Cynllun Gwella ymlaen.

- (viii)** Hyrwyddo defnydd cyfranogwyr o'r Gronfa Ddata Ymgynghori.
- (ix)** Cwblhau'r cynlluniau gweithredu ardal leol mewn perthynas â'r ardal wledig.
- (x)** Dechrau llunio'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012 i 2016.
- (xi)** Cynnal Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth ar y cyd gyda Chyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â'r meysydd gwasanaeth hynny lle mae cydweithredu/integreiddio arwyddocaol.
- (xii)** Cynnig hyfforddiant rheoli risg i staff priodol.
- (xiii)** Bydd datblygiad Ffynnon yn parhau gyda chofnodi pob Cynllun Gwasanaeth ar y system.
- (xiv)** Bydd argymhellion yr Adolygiad Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu gweithredu.
- (xv)** Cwblhau'r adolygiad o'r Strategaeth Gymunedol 2012 i 2025.
- (xvi)** Cwblhau'r adolygiad o'r Fframwaith Gwerthuso Budd-daliadau gyda KPMG.
- (xvii)** Gweithio mewn partneriaeth ar draws rhanbarth Gogledd Cymru i ddatblygu set o Ddangosyddion Perfformiad ar draws amrywiaeth o wasanaethau i ddibenion meincnodi.
- (xviii)** Parhau i foderneiddio'r modd rydym yn darparu ein gwasanaethau i sicrhau defnydd effeithiol o'n adnoddau ariannol
- (xix)** Gorffen yr ymarfer i gysylltu'r Cynllun Rheoli Asedau â pholisïau corfforaethol.
- (xx)** Ymateb i'r hinsawdd ariannol heriol ar gyfer y sector cyhoeddus trwy wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â pha wasanaethau y gallwn barhau i'w hariannu yn y dyfodol.

## **8. CRYNODEB SICRWYDD**

**8.1** O'r adolygiad, yr asesiad, a'r gwaith monitro parhaus a wnaed, rydym wedi dod i'r casgliad fod systemau allweddol yn gweithredu yn dda ac nad oes gwendidau rheoli sylfaenol. Mae tystiolaeth bellach i gefnogi'r casgliad hwn yn:-

- Datganiad Sicrwydd Archwilio Mewnol Blynyddol 2010/2011;
- Yr Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf i'r Cyngor (Ionawr 2011),

**8.2** Hefyd, mae tystiolaeth fod y broses barhaus ar gyfer canfod, gwerthuso a rheoli'r risgiau allweddol a'r rhaglen wella yn adran 7 yn briodol. Nid oes unrhyw faterion rheoli mewnol sylweddol wedi'u nodi, ac yn seiliedig ar y gwahanol sicrwydd a roddwyd, nod y datganiad yw rhoi sicrwydd rhesymol fod trefniadau llywodraethu corfforaethol boddhaol wedi'u sefydlu ac yn gweithio yn effeithiol.

**Llofnod**

**Llofnod**

**Dyddiad 26/9/2011**

**Dyddiad 26/9/2011**

**K.W. Finch  
Prif Weithredwr Dros Dro**

**Y Cynghorydd D.O. Roberts  
Arweinydd y Cyngor**

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU Y DATGANIAD CYFRIFON

## CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Y mae'n ofynnol bod y Cyngor yn:

- Trefnu bod ei faterion ariannol yn cael eu gweinyddu'n gywir, a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y swyddog hwnnw yw'r **Swyddog Adran 151**.
- Rheoli ei fusnes mewn modd sy'n sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r Pwyllgor Archwilio.

### TYSTYSGRIF YR AWDURDOD

Rwy'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2011.

LLOFNOD: .....

Y Cynghorydd Andrew Hinchliff  
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

DYDDIEDIG: 26/09/2011



## **CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ADRAN 151**

Fel y Prif Swyddog Cyllid, mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor sydd, yn ôl gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gadw Cyfrifon Llywodraeth Leol ym Mhrydain ("Y Cod"), yn gorfod cyflwyno barn gywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar y dyddiad cyfrifyddu, ac o incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:

- dewis polisiau addas ar gyfer cadw cyfrifon ac wedi'u defnyddio mewn modd cyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhai rhesymol a gofalus;
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir sydd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

### **TYSTYSGRIF SWYDDOG ADRAN 151**

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi barn cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2011, a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

LLOFNODWYD: .....

A H Kirkham  
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro  
a Phennaeth Gwasanaethau Ariannol

DYDDIEDIG: 26/09/2011

## **ADRODDIAD ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y flwyddyn a ddaeth i ben [nodwch y dyddiad] o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a nodiadau cysylltiedig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

### **Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon [a nodir ar dudalennau 40 i 41, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### **Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Bwrdeistref Conwy Sirol a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### **Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

## **Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y [Datganiad Llywodraethu] y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Anthony Barrett  
Archwilydd Penodedig  
Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Bae Caerdydd  
CF11 9LJ  
30 Medi 2011

## **DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISIÄU CYFRIFO**

### **1. EGWYDDORION CYFFREDINOL**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod am flwyddyn ariannol 2010/11 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2011. Mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn yn bennaf yw'r Cod Ymddygiad ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 (y Cod) a'r Cod Ymarfer Cyfrifo Gwerth Gorau 2010/11 (BVACOP), a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a chanllawiau statudol a gyhoeddwyd dan Adran 12 o Ddeddf 2003.

Y confensiwn cyfrifo pennaf a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol, wedi ei diwygio trwy ailbriso rhai categorïau penodol o asedau nad ydynt yn gyfredol, ac offerynnau cyllidol.

### **2. NEWIDIADAU MEWN POLISIÄU CYFRIFO: TROSLWYDDO I IFRS**

Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ac mae'n cynnwys Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda gwybodaeth gwasanaeth wedi ei ddadansoddi ar sail BVACOP), y Fantolen, Datganiad Llif Arian a Nodiadau i'r Cyfrifon (yn cynnwys adrodd segment ychwanegol wedi'i seilio ar drefniadau rheolaeth ariannol fewnol ac yn cynnwys dadansoddiad goddrychol a chysoniadau). Adroddir ar drydedd mantolen ar 1 Ebrill 2009 yn y Fantolen.

Yn y Datganiad Cyfrifon cychwynnol IFRS ar gyfer dechrau cyfrifo dan IFRS, gwnaethpwyd y canlynol:-

- Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau gofynnol wedi cael eu cydnabod.
- Mae'r asedau a rhwymedigaethau priodol wedi eu dadgydnabod.
- Mae eitemau a gydnabuwyd dan UK GAAP wedi eu hailddosbarthu fel un math o ased, rhwymedigaeth neu gydran o ecwiti, ond maent yn wahanol fathau dan IFRS.
- Defnyddiwyd y Cod wrth fesur yr holl asedau a rhwymedigaethau.
- Yn gyffredinol, mae newidiadau wedi eu gwneud yn ôl weithredol heblaw am eithriadau penodol.

Diffinnir segmentau gweithredu ar yr un sail â'r "prif benderfynydd gweithredol" a cheir esboniad o'r sail a ddefnyddiwyd ar gyfer adrodd ar segmentau, ynghyd â chysoniad o'r symiau perthnasol yn y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gynnwys.

### **3. CRYNHOI INCWM A GWARIANT**

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid yn unig pryd y gwneir neu pryd y derbynnir taliadau arian parod. Yn arbennig:-

- Mae'r refeniw o werthu nwyddau'n cael ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a'r buddiannau perchenogaeth i'r prynwr ac mae'n

debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Awdurdod.

- Mae refeniw o ddarparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn medru mesur yn ddibynadwy pa ganran o'r trafodyn a gwblhawyd a hithau'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Awdurdod..
- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwllch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cludo fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud.
- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac sy'n cael ei dalu ar fenthyciadau'n cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar gyfradd y llog mewn grym i'r offeryn cyllidol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract.
- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyled neu gredyd i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan fo dyledion heb eu setlo mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

#### **4. ARIAN PAROD A CHYWERTHYDD ARIAN**

Mae arian parod yn golygu arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthydd arian yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad eu caffael ac y gellir eu trosglwyddo'n rhwydd i symiau gwybyddus o arian heb risg sylweddol o newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chywerthydd arian yn net o orddrafftiau banc sy'n daladwy ar ofyniad ac sy'n ffurfio rhan integrol o reolaeth arian yr Awdurdod.

#### **5. EITEMAU EITHRIADOL**

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'u maint ar wahân, un ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y Nodiadau i'r Cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i bwrpas deall perfformiad ariannol yr Awdurdod.

#### **6. ADDASIADAU CYN CYFNOD, NEWIDIADAU MEWN POLISIÄU CYFRIFO AC AMCANGYFRIFON A CHAMGYMERIADAU**

Gall Addasiadau cyn cyfnod ddeillio o newid mewn polisiäu cyfrifo neu i gywiro camgymeriad perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, hy eleni ac ym mlynnyddoedd y dyfodol y ceir effaith arnynt gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo'n ofynnol gan arferion cyfrifo cywir y gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifo neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni bai y nodir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau a ganfyddir mewn ffigyrau cyn cyfnod yn cael eu cywiro'n ôl weithredol trwy addasu'r balansau agor a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## 7. TALIADAU I REFENIW AM ASED AU NAD YDYNT YN GYFREDOL

Rhoddir debyd yn erbyn gwasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu yn ôl y symiau a ganlyn i bwrpas cofnodi cost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:-

- Dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol
- Colledion ailbriso ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronrus yn y Cyfrif Ailbriso Wrth Gefn y mae modd dileu'r colledion yn ei erbyn
- Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol a briodolir i'r gwasanaeth.

Nid oes raid i'r Awdurdod godi'r dreth gyngor i bwrpas cyllido colledion dibrisiant, ailbriso neu amhariad na rhai amorteiddio. Fodd bynnag rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei anghenion benthyca cyffredinol – cyfraniad sy'n cyfateb i swm a gyfrifir ar sail ddarbodus ac a bennir gan yr awdurdod yn unol â chyfarwyddiadau statudol. Felly yn lle colledion dibrisiant, ailbriso ac amhariad ac yn lle amorteiddiadau ceir cyfraniad i Falans Cronfa'r Cyngor trwy drafodyn diwygio i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn ac yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

## 8. BUDDIANNAU'R GWEITHWYR

### Buddiannau Sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheiny sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn - buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheiny'n cael eu cydnabod fel treulïau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Awdurdod. Darperir ffigwr cronrus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd *mewn lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheiny heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r ffigwr cronrus yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y cyflogai yn cymryd y budd. Codir y ffigwr cronrus yn erbyn y Swrplws neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

## **Buddiannau Terfynu**

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu Costau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ategu pensiynau mae darpariaethau statudol yn mynnu ar godi o falans Cronfa'r Cyngor y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a glendrir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen clustnodiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn i gael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu wrth ategu pensiynau ac yn eu lle ddarparu debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i'r pensiynwyr a'r cyfryw symiau'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

## **Buddiannau Ôl Gyflogaeth**

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita ar ran yr Adran Addysg (DfE)
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Mae'r cynlluniau'n darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a pensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau i gynllun yr athrawon yn golygu na all yr rhwymedigaethau i'r buddiannau hyn gael eu dynodi fel arfer yn benodol i'r Awdurdod. Felly cyfrifir am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig ac ni chydabyddir unrhyw rwymedigaeth ar gyfer talu buddiannau i'r dyfodol yn y Fantolen. Codir am gyfraniadau y cyflogwr i Bensiynau Athrawon yn y flwyddyn i'r llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Cedwir cyfrifon i'r Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun buddiannau diffiniedig:

- Mae'r rhwymedigaethau i Gynlluniau Pensiwn Gwynedd a Sir y Fflint a briodolir i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwariol gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr ayyb. a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol.
- Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 5.4% (5.5% 2009/10)

(yn seiliedig ar raddfa dychweliad awgrymiadol ar fondiau corfforaethol o safon uchel (iboxx))

- Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-
  - Stociau a ddyfynnir – pris bid presennol
  - Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
  - Stociau uned - cyfartaledd cyfraddau'r bidiau a'r cynigion
  - Eiddo - gwerth ar y farchnad
- Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul saith rhan:-
  - Costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei glustnodi i Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt
  - Costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheiny yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynnyddoedd y gorffennol - debyd i Swrplws neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir.
  - Costau llog - y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth i'r rheiny symud blwyddyn yn nes i gael eu talu - debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddi a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
  - Dychweliad a ddisgwylir ar asedau - y dychweliad buddsoddol blynyddol ar asedau'r gronfa a briodolir i'r Cyngor, yn seiliedig ar gyfartaledd o'r dychweliad disgwylidig yn y tymor hir - credyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddi a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
  - Enillion neu golledion ar setliadau a chwotgiadau - o ganlyniad i gamau a gymerir i ryddhau'r Awdurdod o rwymedigaethau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth disgwylidig y dyfodol neu'r buddiannau cronus i weithwyr – debyd neu greddyd i'r Swrplws neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir.
  - Enillion a cholledion actiwariol - newidiadau yn y rhwymedigaethau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau yn y prisiad actiwariol diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariâu wedi diweddarau eu rhagdybiaethau - debyd i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn.
  - Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd a Sir y Fflint - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn ar falans Cronfa'r Cyngor, ac nid y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifeg cysylltiedig. Yn y Datganiad Symudiadau yn



y Cronfeydd wrth Gefn, golyga hyn fod cyllid yn mynd i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn ac o'r Gronfa, er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeoliad a chael yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn neu bensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath a oedd yn daladwy ond na thalwyd cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o'r angen i roi cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na buddiannau a enillwyd gan weithwyr.

### **Buddiannau Dewisol**

Yn ogystal mae gan yr Awdurdod rai pwerau i dalu buddiannau ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o'r staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheiny a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## **9. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rheiny sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau
- Y rheiny sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond pan fo categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.

Nid adlewyrchir digwyddiadau sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon.

## **10. OFFERYNNAU ARIANNOL**

### **Rhwymedigaethau ariannol**

Mae rhwymedigaeth ariannol yn cael ei chydabod yn y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn barti i ddarpariaethau contract offeryn ariannol a chânt eu mesur, yn y lle cyntaf, yn ôl gwerth teg a chânt eu cludo ar eu cost amorteiddiedig. Mae'r treuliau blynyddol yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt y llog taladwy yn seiliedig ar swm yr rhwymedigaeth a gludir, wedi ei luosogi gan y gyfradd log mewn grym ar y pryd i'r offeryn. Y gyfradd a ddefnyddir yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod yn y dyfodol dros oes yr offeryn yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf.

Yn achos y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Awdurdod, golyga hyn mai'r swm sydd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (plws llog cronnus); a'r llog a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyca.

Mae'r enillion neu'r colledion wrth ail-brynu neu wrth setlo'r benthyciad yn gynnar yn cael eu rhoddi mewn credyd neu mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn neu ail-brynu/setlo. Fodd bynnag, pan fo ail-brynu yn digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthycia yng nghyswllt diwygio neu ffeirio'r offerynnau presennol, yna mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu ar gost amorteiddiedig y benthyciad newydd neu'r un diwygiedig a'r cofnod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei daenu dros oes y benthyciad trwy wneud diwygiad i'r gyfradd log weithredol.

Pan fo premiwm neu ddisgownt wedi ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu taenu, dros flynyddoedd y dyfodol, unrhyw effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Polisi'r Awdurdod yw taenu'r enillion neu'r colledion dros weddill tymor y benthyciad yr oedd y premiwm yn cael ei dalu drosto neu pryd yr oedd y disgownt yn cael ei dderbyn pan ad-dalwyd. Mae cysoni symiau a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r taliad net o Falans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Diwygio Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

### **Asedau Ariannol**

Mae dau ddsbarth o asedau ariannol:

- Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy - asedau gyda thaliadau sefydlog neu gellir eu pennu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol.
- Asedau ar gael i'w gwerthu – asedau gyda phris y farchnad a ddyfynnwyd a/neu heb daliadau sefydlog neu gellir eu pennu.

### **Benthyciadau a Symiau sy'n Dderbyniadwy**

Cydnabyddir benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy posib ar y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac ar y cychwyn maent yn cael eu mesur ar werth teg. Wedi hynny cânt eu mesur yn ôl y gost amorteiddiedig. Mae'r credydau blynyddol i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar swm cludadwy ased wedi ei luosi gan y raddfa log berthnasol i'r offeryn. Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau a drefnwyd gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd heb ei glirio ac yn dderbyniadwy (ynghyd â llog sydd wedi cronni) a'r llog a roddwyd mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a geir yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gwneud nifer o fenthyciadau i sefydliadau chwaraeon a gwirfoddol ar raddfeydd is na'r farchnad (benthyciadau meddal). Pan y gwneir benthyciadau meddal, cofnodir colled yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (wedi ei ddebydu i'r gwasanaeth priodol) ar gyfer gwerth presennol y llog a gollir dros oes yr offeryn, gan arwain at gost amorteiddiedig is na'r prifswm sydd dros ben. Credydir llog i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar raddfa effeithiol ychydig yn uwch na'r raddfa a dderbynnir gan sefydliadau gwirfoddol, gyda'r gwahaniaeth yn arwain at gynyddu cost amorteiddiedig y benthyciad yn y Fantolen. Mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i effaith benthyciadau meddal ar Falans Cronfa'r Cyngor yw'r llog sy'n dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol – rheolir cysoniad y symiau a ddebydir ac a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r enilliad net sydd ei angen yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Pan fo asedau yn cael eu nodi fel rhai sy'n destun amhariad a hynny oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar beth a ddigwyddodd yn y gorffennol, na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, yna rhoddir gostyngiad yn erbyn yr ased a chodi am hynny ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer symiau sy'n dderbyniadwy sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu ar y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn graddfa llog.

Bydd unrhyw enillion neu unrhyw golledion sy'n codi oherwydd dadgydnabod yr ased yn cael eu rhoddi mewn credyd/debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## **Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu**

Cydnabyddir asedau sydd ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac ar y cychwyn maent yn cael eu mesur a'u cludo ar werth teg. Pan fo gan ased daliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu, mae'r credydau blynyddol i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar gost amorteiddiedig yr ased wedi ei luosi gan y raddfa log berthnasol i'r offeryn. Ble nad oes unrhyw daliadau sefydlog na rhai y mae modd eu pennu, mae incwm (ee difidendau) yn cael ei greydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan ddaw'n dderbyniadwy gan yr Awdurdod.

Cedwir yr asedau yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg. Mae'r gwerthoedd yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Offerynnau gyda phrisiau a nodir ar y farchnad - pris y farchnad.
- Offerynnau eraill gyda thaliadau penodol neu rai y mae modd eu pennu – dadansoddiad o'r llif arian ar ôl disgownt.
- Cyfrannau ecwiti heb brisiau wedi eu nodi ar y farchnad - asesiad annibynnol o werth y cwmni.

I gydnabod unrhyw newidiadau yn y gwerth teg, rhoddir cofnod yn y Gronfa Wrth Gefn ar Gael i'w Gwerthu a bydd cydnabyddiaeth i'r enillion/colledion yn y Swrplws neu Ddiffyg ar Ailbrisiant Asedau Ariannol Ar Gael i'w Gwerthu. Y mae eithriad pan fo colledion amhariad yn digwydd - rhoddir y rhain mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw golledion/enillion net i'r ased a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Wrth Gefn Ar Gael i'w Gwerthu.

Pan nodir fod asedau yn wynebu amhariad oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, na fydd y taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno (taliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu),neu pan fo gwerth teg yn gostwng o dan y gost, nodir gostyngiad i'r ased a chodir am hynny yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Os oes gan yr ased daliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu, mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cludadwy a gwerth presennol llif arian diwygiedig y dyfodol gyda disgownt yn seiliedig ar log gweithredol yr ased gwreiddiol. Fel arall, mesurir y golled amhariad fel unrhyw ddiffyg gwerth teg yn erbyn costau caffael yr offeryn (net o unrhyw ad-daliad swm gwreiddiol ac amorteiddiad).

Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n digwydd yn sgil dadgydnabod yr ased yn cael eu gosod mewn credyd/debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ynghyd ag unrhyw

enillion/colledion cronnus a gafodd eu cydnabod cyn hynny yn y Gronfa Wrth Gefn ar gael i'w Gwerthu.

Os nad oes modd mesur y gwerth teg mewn ffordd ddibynadwy, mae'r offeryn yn cael ei gludo yn ôl cost (llai unrhyw golledion amhariad).

#### 11. TROSI ARIAN TRAMOR

Pan fo'r Awdurdod wedi gwneud trafodion mewn arian tramor, mae'r trafodyn yn cael ei drosi i sterling ar y raddfa gyfnewid sy'n berthnasol ar i diwrnod y gwnaethpwyd y trafodyn. Pan fo symiau mewn arian tramor dros ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol maent yn cael eu hail-drosi ar y raddfa gyfnewid sbot ar 31 Mawrth. Mae'r enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Gwariant Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

#### 12. GRANTIAU LLYWODRAETH A CHYFRANIADAU ERAILL

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- Y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- Y derbynir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a brynwyd gyda'r arian grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel a nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae'r arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau lle na chafodd yr amodau eu bodloni yn cael eu cludo ymlaen yn y Fantolen fel credydwyd. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell gwasanaeth priodol (grantiau refeniw a chyfraniadau a briodolwyd) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo'r grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn – y rhai na chafodd eu defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn na chawsant eu defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf..

#### 13. ASED AU ANNIRIAETHOL

Mae gwariannau ar asedau nad ydynt yn rhai ariannol ac sydd heb ffurf ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) yn cael eu cyfalafu pan y tybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cyfalafu pan fo modd dangos bod y prosiect yn dechnegol-ymarferol ac y bwriedir ei gwblhau (gydag adnoddau digonol ar gael) ac y bydd yr Awdurdod yn medru cynhyrchu buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'n medru darparu gwasanaeth posib trwy werthu'r ased nei ei ddefnyddio. Mae gwariant yn cael ei gyfalafu pan fo modd ei fesur gyda sicrwydd fel un a briodolir i'r ased a phan fo'n cael ei gyfyngu i'r gwariant hwnnw a ddigwyddo yn ystod y cyfnod datblygu (nid oes modd cyfalafu gwariant ymchwil).

Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Awdurdod neu ei wasanaethau.

Ar y cychwyn cyntaf mesurir asedau anniriaethol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbriso hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedion y mae'r Awdurdod yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes yr un o'r asedau anniriaethol y mae'r Awdurdod yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac felly cânt eu cludo yn ôl y gost amorteiddiedig. Mae swm dibrisiannol ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(-au) y gwasanaeth perthnasol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar ased pryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased – mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn y llinell(-au) i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased anniriaethol neu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei drosglwyddo i'r Llinell Gwariant Gweithredol arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, amorteiddio, colledion amhariad neu wrth gael gwared â'r asedion ni chaniateir i enillion a cholledion gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniion Cyfalaf.

#### **14. RHESTRAU STOC A CHONTRACTAU TYMOR HIR**

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu, pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Swrplws neu ar y Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

#### **15. EIDDO BUDDSODDIAD**

Eiddo buddsoddiad yw eiddo a ddefnyddir yn unswydd i ennill rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael ei fesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac wedyn yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu am faint y gellid cyfnewid yr ased rhwng partion gwybodus hyd braich. Nid yw eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff ei ailbriso'n flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen (diwedd y flwyddyn). Mae enillion a cholledion adeg ailbriso'n cael eu symud i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei roi mewn credyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad ac yn peri cynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, ni chaniateir i enillion a cholledion ailbriso a gwerthu, dan drefniadau statudol, gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r

colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbynion Cyfalaf

## 16. **GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD AC ASEDAU A REOLIR AR Y CYD**

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Awdurdod ynghyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedion ac o adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau y mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau a wyneba ac mae'n rhoi fel credyd neu ddebyd, yn ei Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y gwariant hwnnw'r â iddo a'r gyfran o incwm a enilla yn sgil y gwaith.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau eiddo, offer a chyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan yr Awdurdod a mentrwyr eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r gydfenter yn galw am sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau'r â iddynt ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y gydfenter a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

## 17. **PRYDLESAU**

Mae prydlesau'n cael eu categoreiddio fel prydlesau ariannol pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo, i bob pwrpas, o'r prydleswr i'r prydlesai yr holl risgiau a'r holl fendithion sydd ynghlwm wrth fod yn berchennog yr eiddo, yr offer a'r chyfarpar. Categoreiddir yr holl brydlesau eraill fel Prydlesau Gweithredol.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, mae'r tir a'r adeiladau'n cael eu hystyried ar wahân i bwrpas categoreiddio.

Pan fo trefniadau heb statws cyfreithiol prydles, ond er hynny'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad, yna mae cyfrif amdanynt dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

### **Yr Awdurdod fel Daliwr Prydles**

#### **Prydlesau Ariannol**

Mae eiddo, offer a chyfarpar sy'n cael eu dal dan brydlesau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar gychwyn y brydles yn ôl gwerth teg a fesurir adeg sefydlu'r brydles (neu yn ôl gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf bosib, pa un bynnag o'r ddau sydd isaf). Gyda'r ased a gydnabyddir mae cyfrifoldeb cyfatebol i dalu i'r prydlesydd. Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr Awdurdod yn cael eu hychwanegu at y swm y mae'r ased yn ei gludo. Defnyddir y taliadau a wneir adeg gwneud prydles i nodi'r rhwymedigaeth sydd ynghlwm wrth y brydles. Codir am rent dilynol fel treuliau yn y cyfnodau hynny pryd y digwyddant.

Rhennir y taliadau prydles rhwng:-

- Tâl am brynu budd yn yr eiddo, offer a chyfarpar - defnyddir hwn i nodi i lawr beth yw rhwymedigaeth y brydles, a
- Tâl ariannol (mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)

Cedwir cyfrif am Eiddo, Offer a Chyfarpar a gydnabyddir dan brydlesau ariannol trwy ddefnyddio'r polisïau hynny a ddefnyddir yn gyffredin yng nghyswllt asedau o'r fath, yn amodol ar godi am ddibrisiant dros gyfnod y brydles os ydyw'r cyfnod hwnnw'n fyrrach na'r amcangyfrif i oes ddefnyddiol yr ased (pan fo perchnogaeth yr ased ddim yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid yw'n ofynnol ar i'r Awdurdod godi Treth Gyngor i gynnwys dibrisiant neu ailbrisiant a cholledion amhariad sy'n deillio o asedau a brydleswyd. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol gochelgar o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly mae cyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor yn cymryd lle dibrisiant ac ailbriso a cholledion, trwy addasu trafodyn gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### **Prydlesau Gweithredol**

Mae rhenti a delir dan brydlesau gweithredol yn cael eu codi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul i'r gwasanaethau sy'n cael y budd o eiddo, offer a chyfarpar prydles. Codir y taliadau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. mae cyfnod di-rent ar gychwyn y brydles).

### **Yr Awdurdod fel Prydleswr**

#### **Prydlesau Ariannol**

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, dilëir yr ased perthnasol o'r Fantolen fel gwarediad. Ar gychwyn y brydles, mae swm cludadwy'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Ased sy'n Cael ei Dal i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar warediad. Mae enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net yr Awdurdod yn y brydles, yn cael ei gredu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar warediad (h.y. ei ddebydu yn erbyn gwerth cludadwy'r ased adeg ei waredu), yn cydweddu gydag ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen.

Dyrennir prydlesau rhent rhwng:

- Taliad am gaffael y budd yn yr eiddo – defnyddir i ysgrifennu i lawr y dyledwr prydles (ynghyd ag unrhyw bremiwm a dderbyniwyd), ac
- Incwm ariannol (credydir i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaniateir yn ôl statud i'r enilliad a gredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar warediad gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae'n ofynnol iddo gael ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi ei dderbyn, mae hwn yn cael ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan fo'r swm sy'n ddyledus yng nghyswllt yr ased prydles i'w setlo trwy dalu rhenti ym mlynnyddoedd ariannol y dyfodol, mae hwn yn cael ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn Gohiriedig yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan dderbynnir rhenti yn y dyfodol, defnyddir yr elfen derbyniad cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr y dyledwr prydles. Ar y pwynt hwn, mae'r derbyniadwyon cyfalaf gohiriedig yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilêir o warediadau'n cael ei godi ar y dreth gyngor, gan y darperir yn llawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly mae'r symiau hyn yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

### **Prydlesau Gweithredol**

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o eiddo neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae Incwm Rhent yn cael ei gredu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cludadwy'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

## **18. GORBENION A GWASANAETHAU CEFNOGOL**

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y rheiny sy'n cael y budd o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol ag egwyddorion costio Cod Ymarfer Cyfrifo Gwerth Gorau 2010/11 CIPFA (BVACOP). Defnyddir yr egwyddor costio amsugno llwyr - cost lawn y gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu rhannu rhwng defnyddwyr yn ôl cyfran y buddiannau a gafwyd, ac eithrio:-

- Craidd Corfforaethol a Democraidaidd – costau'n gysylltiedig â statws yr Awdurdod fel sefydliad aml swyddogaethol, democraidaidd.
- Costau heb eu Dosbarthu - costau buddiannau disgrisiwn a roddir i weithwyr sy'n ymdeol yn gynnar a cholledion amhariad a godir ar yr Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Diffinnir y ddau gategori hyn yn BVACOP a chyfrifir amdanynt o dan benawdau ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, fel rhan o Wariant ar Wasanaethau.

Mae sail y dosbarthiad y costau hyn yn amrywio'n ôl natur y taliad a godir:-

<b>Gwasanaethau Cefnogol</b>		<b>Sail y Taliad a Godir</b>
Cyllid	- Cyfrifeg	Amser
	- Cyflogres	Slipiau cyflog a gynhyrchir
	- Taliadau credydwyr	Nifer yr anfonebau a delir
	- Archwilio	Diwrnodiau archwilio
	- Debydwyr	Nifer yr anfonebau a anfonir
	- Arianwyr	Nifer y trafodion y ceir derbynneb amdanynt
	- Gweinyddu	Amser
	- Rheoli	Amser
Cyfreithiol		Amser
Adnoddau Dynol		Amser a staff a gyflogwyd
Technoleg Gwybodaeth		Dyraniad, Amser ac offer a ddefnyddir
Gwasanaethau Rheoli Eiddo ac Asedau		Sail Ffi (Cynlluniau Cyfalaf) ac Arwynebedd Llawr i lety swyddfa



## 19. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar.

### Cydnabyddiaeth

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail gronnu, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel y mae'n digwydd

### Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- Y pris prynu
- Unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr
- Amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno.

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

Mae asedau a roddir yn asedau a drosglwyddwyd i'r Cyngor ar werth dim neu ar lai na'r gwerth teg ac i ddechrau mesurir yr asedau a roddir yn ôl eu gwerth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw ystyriaeth a delir yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod y rhodd wedi ei rhoi gydag amod. Hyd nes y bydd yr amodau'n cael eu boddhau, bydd yr enilliad yn cael ei ddal yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd. Pan fo enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol
- Anheddau – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH)
- Pob ased weithredol arall – gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

- Eiddo buddsoddiad – gwerth y farchnad a heb ei ddibrisio.
- Asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu – gwerth isaf cyn cael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu a gwerth y farchnad, a heb eu dibrisio.

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbriso yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbriso'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrddroad colled a godwyd yn flaenorol i wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano fel a ganlyn:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronus)
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad eu gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

## **Amhariad**

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronus).
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrddroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrddroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydabod.

## **Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (h.y. tir rhydd-ddaliad a rhai Asedau Cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- Anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr: rhwng 1-100 blwyddyn
- Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar: dros oes ddefnyddiol o rhwng 5 i 10 mlynedd
- Asedau Cymunedol: 1-40 blwyddyn
- Isadeiledd: dyraniad llinell syth dros rhwng 1-40 mlynedd.

Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, ac mae ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yn sylweddol wahanol i oes ddefnyddiol y brif ased, dibrisir y cydrannau ar wahân. Fodd bynnag, wrth drosglwyddo i'r Cod, dim ond pan fo cydran yn cael ei amnewid neu ei wella'n rhannol, a'r hen gyfran wedi ei ddadgydnabod, y ddefnyddir cyfrifo cydrannau, ac felly nid oes addasiad i'r fantolen 31 Mawrth 2009 neu 31 Mawrth 2010.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

## **Gwarediadau ac Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu**

Pan ddaw'n bosib y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael eu Dal i'w Werthu. Mae'r ased yn cael ei hailbrisio yn union cyn ei hailddosbarthu ac yna ei chario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Swrplws neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn gyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w werthu; addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael eu Dal i'w Werthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu.

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei datgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae symiau a dderbynnir o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10,000 a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel **Derbyniadwyon Cyfalaf**. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadwyon cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadwyon yn cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau sefydlog dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae symiau'n cael eu meddiannu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

## 20. **MENTRAU CYLLID PREIFAT (PFI) A CHONTRACTAU TEBYG**

Cytundeb yw contract PFI i dderbyn gwasanaeth, lle mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr Eiddo, Offer a Chyfarpar ar gael sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth yn trosglwyddo i'r contractwr PFI. Gan mai'r dybiaeth yw bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu dan ei gynllun PFI ac y bydd perchenogaeth yr Eiddo, Offer a Chyfarpar yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contract, heb ddim cost ychwanegol, mae'r Cyngor yn dal yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd dan y contract ar y Fantolen.

Yn cydbwysu cydnabyddiaeth wreiddiol yr Eiddo, Offer a Chyfarpar hyn, mae cydnabyddiaeth ynghylch rhwymedigaeth am symiau dyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau. I'r Cynllun PFI Tair Ysgol, ysgrifennwyd yr rhwymedigaeth i lawr gan daliad cychwynnol ymlaen llaw o dal unedol o £9m.

Caiff Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael eu cydnabod ar y Fantolen eu hadbriso a'u dibrisio yn yr un modd ag Eiddo, Offer a Chyfarpar ym meddiant y Cyngor.

Caiff y symiau taladwy i'r gweithredwr PFI bob blwyddyn eu dadansoddi i bum elfen:-

- Gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Costau cyllid – codi llog ar yr rhwymedigaeth Mantolen sydd dros ben, wedi ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Rhent wrth gefn – cynnydd yn y swm i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, wedi'i ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Taliad tuag at y rhwymedigaeth – wedi'i gymhwyso i ddibrisio dyled y Fantolen tuag i'r gweithredwr PFI.

- Costau adnewyddu cylchred oes – yn cael eu cydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen.

### **Credydau PFI**

Mae grantiau llywodraeth a dderbynnir ar gyfer cynlluniau PFI, uwchlaw lefelau gwariant presennol, yn cael eu cario ymlaen fel cronfa wrth gefn glustnodedig i ariannu gwariant contract i'r dyfodol.

## **21. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN AC ASED AU WRTH GEFN**

### **Darpariaethau**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod, sydd mae'n debyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu wneud setliad llai na'r disgwyl), gwyrdroir y ddarpariaeth a'i rhoddi mewn credyd yn ôl yn y gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (ee oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os oes sicrwydd go bendant yn unig y bydd ad-daliad ar gael os yw'r awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

### **Darpariaeth ar gyfer Ôl-gyflog yn Codi'n Sgil Hawliadau Tâl Anghyfartal**

Mae gan yr Awdurdod ddarpariaeth ar gyfer costau setlo hawliadau ôl-gyflog yn codi yn sgil taliadau rhagfarnol a wnaed cyn i'r Awdurdod ddechrau gweithredu ar ei strategaeth tâl gyfartal. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn caniatáu cyllido setliadau o Gronfa'r Cyngor yn y flwyddyn pryd y gwneir y taliadau mewn gwirionedd, nid pryd y sefydlir y ddarpariaeth. Felly mae balans i'r ddarpariaeth gyda Chyfrif Ôl-gyflog Tâl Cyfartal a grëir o symiau a roddwyd mewn credyd ym Malans Cronfa'r Cyngor yn y flwyddyn pryd y gwneir neu y diwygir y ddarpariaeth. Bydd y balans ar y Cyfrif Ôl-gyflog Tâl Cyfartal yn cael ei roddi mewn debyd yn ôl ym Malans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn ym mlynnyddoedd ariannol y dyfodol wrth i'r taliadau gael eu gwneud.

### **Rhwymedigaethau Wrth Gefn**

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib i'r Awdurdod, ond ni cheir cadarnhad iddi hyd oni fydd y digwyddiad nad oes modd ei ragweld wedi digwydd yn y dyfodol a hwnnw heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

### **Asedau Wrth Gefn**

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Awdurdod, ond ni fydd modd cael cadarnhad iddo hyd oni fydd y digwyddiad nad oes modd ei ragweld wedi digwydd yn y dyfodol a hwnnw heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod.

Ni chydabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

## **22. CRONFEYDD WRTH GEFN**

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn i ddibenion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â materion wrth gefn. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy dynnu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Swrplws neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Awdurdod – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisiâu perthnasol.

## **23. GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR GYDA CHYFALAF DAN STATUD**

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased anghyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycu, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrddroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

## **24. TAW**

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul ond i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

## **25. FFIGYRAU CYMHAROL**

Ble bo'n briodol, dangosir y ffigyrau cymharol mewn datganiadau ariannol, yn unol â'r Cod.

## 26. DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian a nodiadau ategol wedi'u paratoi gan ddefnyddio'r dull anuniongyrchol.

## 27. ASED AU TREFTADAETH

Mae ased treftadaeth ddiriaethol yn ased ddiriaethol sydd â nodweddion hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, sy'n cael ei dal a'i chynnal yn bennaf er mwyn ei chyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

Mae ased treftadaeth anniriaethol yn ased anniriaethol sydd ag arwyddocâd diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Mae enghreifftiau o asedau treftadaeth anniriaethol yn cynnwys recordiad o ddigwyddiadau hanesyddol o bwys.

Fel arfer bydd asedau treftadaeth (heblaw am asedau treftadaeth gweithredol) yn cael eu mesur adeg eu prisiad. Gellir prasio yn ôl unrhyw ddull sy'n briodol a pherthnasol. Nid oes gofynion i brisio gael ei gynnal na'i wirio gan briswyr allanol, na chwaith isafswm cyfnod rhwng prisiadau. Fodd bynnag, pan fo asedau treftadaeth yn cael eu mesur ar eu prisiad, bydd y swm sy'n cario'n cael ei adolygu yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiad yn parhau'n gyfredol.

Ble nad yw'n ymarferol cael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr datganiadau ariannol, bydd yr asedau treftadaeth yn cael eu mesur ar gost hanesyddol (llai unrhyw golledion dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad cronus).

<b>Symudiad yn y Datganiad Arian Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth I ben ar 31 Mawrth 2010</b>	<b>Nodiadau</b>	<b>Balans Cronfa'r Cyngor</b>	<b>Balans HRA</b>	<b>Arian wrth gefn a neilltuwyd</b>	<b>Arian wrth gefn cyfalaf a neilltuwyd</b>	<b>Arian wrth gefn Derbynebion Cyfalaf</b>	<b>Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd</b>	<b>Cyfanswm yr Arian Wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio</b>	<b>Arian Wrth Gefn na ellir ei ddefnyddio</b>	<b>Cyfanswm Arian Wrth Gefn yr Awdurdod</b>
		<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2009</b>		3,005	189	28,328	1,971	5,465	1,080	40,038	58,691	98,729
<b>Symudiad yn y datganiad yr Arian wrth gefn yn ystod 2009/10</b>										
Arian dros ben neu ddiffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		(26,252)	-	-	-	-	-	(26,252)	-	(26,252)
			-	-	-	-	-	-	(47,374)	(47,374)
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		<b>(26,252)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(26,252)</b>	<b>(47,374)</b>	<b>(73,626)</b>
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan reoliadau	6	27,358	-	-	(685)	(1,838)	85	24,920	(24,920)	-
<b>Cynydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddo i'r Arian wrth Gefn Penodol</b>		1,106	-	-	(685)	(1,838)	85	(1,332)	(72,294)	(73,626)
Trosglwyddo i'r/(o'r) arian wrth gefn penodol	7	(1,255)	-	(715)	1,970	-	-	-	-	-
<b>Cynydd/(Gostyngiad) yn 2009/10</b>		<b>(149)</b>	<b>-</b>	<b>(715)</b>	<b>1,285</b>	<b>(1,838)</b>	<b>85</b>	<b>(1,332)</b>	<b>(72,294)</b>	<b>(73,626)</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2010</b>		<b>2,856</b>	<b>189</b>	<b>27,613</b>	<b>3,256</b>	<b>3,627</b>	<b>1,165</b>	<b>38,706</b>	<b>(13,603)</b>	<b>25,103</b>



<b>Symudiad yn y Datganiad Arian Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth I ben ar 31 Mawrth 2011</b>	<b>Nodiadau</b>	<b>Balans Cronfa'r Cyngor</b>	<b>Balans HRA</b>	<b>Arian wrth gefn a neilltuwyd</b>	<b>Arian wrth gefn cyfalaf a neilltuwyd</b>	<b>Arian wrth gefn Derbynebion Cyfalaf</b>	<b>Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd</b>	<b>Cyfanswm yr Arian Wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio</b>	<b>Arian Wrth Gefn na ellir ei ddefnyddio</b>	<b>Cyfanswm Arian Wrth Gefn yr Awdurdod</b>
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans ar 31 Mawrth 2010</b>		2,856	189	27,613	3,256	3,627	1,165	38,706	(13,603)	25,103
<b>Symudiad yn y datganiad yr Arian wrth gefn yn ystod 2010/11</b>										
Arian dros ben neu ddiffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau		45,245	-	-	-	-	-	45,245	-	45,245
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		-	-	-	-	-	-	-	90,510	90,510
<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>		<b>45,245</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>45,245</b>	<b>90,510</b>	<b>135,755</b>
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan reoliadau	6	(43,464)	-	-	(1,391)	18	368	(44,469)	44,469	-
<b>Cynydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddo i'r Arian wrth Gefn Penodol</b>		<b>1,781</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(1,391)</b>	<b>18</b>	<b>368</b>	<b>776</b>	<b>134,979</b>	<b>135,755</b>
Trosglwyddo i'r/o'r arian wrth gefn penodol	7	(1,632)	(189)	(230)	2,051	-	-	-	-	-
<b>Cynydd/Gostyngiad yn 2010/11</b>		<b>149</b>	<b>(189)</b>	<b>(230)</b>	<b>660</b>	<b>18</b>	<b>368</b>	<b>776</b>	<b>134,979</b>	<b>135,755</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2011</b>	<b>7,23</b>	<b>3,005</b>	<b>-</b>	<b>27,383</b>	<b>3,916</b>	<b>3,645</b>	<b>1,533</b>	<b>39,482</b>	<b>121,376</b>	<b>160,858</b>

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**

2009/10				2010/11			
Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net		Nodia dau	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
10,668	(8,213)	2,455	Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd		13,853	(11,771)	2,082
48,257	(16,224)	32,033	Gwasanaethau Diwylliant, Amgylcheddol, Rheoleiddio a Chynllunio		44,750	(15,923)	28,827
132,477	(23,937)	108,540	Gwasanaethau Addysg a Phlant		115,989	(23,821)	92,168
23,516	(12,051)	11,465	Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant		21,529	(10,861)	10,668
42,407	(38,808)	3,599	Gwasanaethau Tai eraill		44,068	(40,080)	3,988
55,596	(15,911)	39,685	Gwasanaethau Cymdeithasol		55,680	(15,043)	40,637
6,721	(315)	6,406	Crai Democraataidd a Chorfforaethol		2,945	(178)	2,767
837	(1,750)	(913)	Costau na ddosbarthwyd		755	(40,046)	(39,291)
<b>320,479</b>	<b>(117,209)</b>	<b>203,270</b>	<b>Costau Gwasanaeth</b>		<b>299,569</b>	<b>(157,723)</b>	<b>141,846</b>
17,519	-	17,519	Gwariant Gweithredu Eraill	<b>8</b>	16,914		16,914
35,238	(23,173)	12,065	Cyllido a Buddsoddi, Incwm a Gwariant	<b>9</b>	39,794	(30,371)	9,423
-	(206,602)	(206,602)	Trethi ac Incwm Grant Amhenodol	<b>10</b>		(213,428)	(213,428)
		<b>26,252</b>	<b>(Arian dros ben) neu ddiffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau</b>				<b>(45,245)</b>
		(53,204)	(Arian dros ben) neu ddiffyg ariannol wrth Ailbrisiu Eiddo, Offer a Chyfarpar	<b>23</b>			1,745
		(1,359)	(Arian dros ben) neu ddiffyg ariannol wrth Ailbrisiu Asedau Ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	<b>23</b>			(30)
		101,937	(Enillion)/Colledion ar Asedau Pensiwn/Atebolrwydd	<b>23</b>			(92,225)
		<b>47,374</b>	<b>Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall</b>				<b>(90,510)</b>
		<b>73,626</b>	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>				<b>(135,755)</b>

## Y Fantolen

1 Ebrill 2009	31 Mawrth 2010		Nodiadau	31 Mawrth 2011
£'000	£'000			£'000
302,897	325,972	Eiddo, Offer a Chyfarpar	11	325,170
4,093	6,395	Eiddo Buddsoddi	12	16,016
1,019	1,112	Asedau anghyffwrddadwy	13	948
-	1,359	Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	14	1,389
1,052	1	Buddsoddiadau Tymor Hir	14	1
834	953	Dyledwyr Tymor Hir	14	809
<b>309,895</b>	<b>335,792</b>	<b>Asedau Tymor Hir</b>		<b>344,333</b>
8,000	6,000	Buddsoddiadau Tymor Byr	14	3,529
695	756	Rhestr Stoc	15	910
24,424	27,778	Dyledwyr Tymor Byr	17	29,476
23,974	8,186	Arian a chywerthydd arian	18	10,207
575	7,273	Asedau a gedwir i'w gwerthu	19	2,222
<b>57,668</b>	<b>49,993</b>	<b>Asedau Cyfredol</b>		<b>46,344</b>
18,005	7,827	Benthyca Tymor Byr	14	12,834
18,976	18,081	Credydwyr Tymor Byr	20	17,656
963	4,224	Darpariaethau	21	3,375
<b>37,944</b>	<b>30,132</b>	<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>		<b>33,865</b>
93,150	195,303	Rhwymedigaethau Pensiwn	44	68,268
8,010	7,664	Darpariaethau	21	1,016
96,392	96,120	Benthyca Tymor Hir	14	96,421
31,913	30,748	Benthyca Tymor Hir Eraill	14	29,555
1,425	715	Derbynebion Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw	35	694
<b>230,890</b>	<b>330,550</b>	<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>		<b>195,954</b>
<b>98,729</b>	<b>25,103</b>	<b>Asedau Net</b>		<b>160,858</b>
40,038	38,706	Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio	22	39,482
58,691	(13,603)	Arian Wrth Gefn na ellir ei ddefnyddio	23	121,376
<b>98,729</b>	<b>25,103</b>	<b>Cyfanswm yr Arian wrth Gefn</b>		<b>160,858</b>

**Datganiad ynglŷn â Llif arian**

<b>2009/10</b>		<b>Nodia dau</b>	<b>2010/11</b>
<b>£'000</b>			<b>£'000</b>
26,252	(Arian dros ben)/diffyg arian wrth Ddarparu Gwasanaethau		(45,245)
(33,818)	Addasiadau i (arian dros ben) neu ddiffyg arian net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau di-ariannol	24	39,709
(121)	Addasiadau ar gyfer eitemau sy'n cael eu cynnwys yn yr (arian dros ben) neu ddiffyg arian net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu		(1,151)
(7,687)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol		(6,687)
9,858	Llif Arian Net o Weithgareddau Buddsoddi	25	6,674
13,617	Gweithgareddau Ariannu	26	(2,008)
15,788	(Cynnydd) neu Ostyngiad mewn Arian a chywerthydd arian		(2,021)
<b>23,974</b>	<b>Arian a chywerthydd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd</b>	<b>18</b>	<b>8,186</b>
<b>8,186</b>	<b>Arian a chywerthydd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd</b>	<b>18</b>	<b>10,207</b>

## **Nodiadau i'r Cyfrifon**

### **1. Safonau Cyfrifo a Gyhoeddwyd ond Nad Ydynt Eto Wedi'u Mabwysiadu**

FRS30 – Asedau treftadaeth wedi ei gyhoeddi ond heb eto wedi'i fabwysiadu. Bydd mabwysiadu'r safon yn y Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol 2011/12 yn arwain at newid mewn polisi cyfrifo.

Bydd yr asedau treftadaeth yn cael eu cydnabod fel dosbarth ar wahân o asedau am y tro cyntaf yn natganiadau ariannol 2011/12, yn unol ag FRS30.

Y symiau cario o asedau y disgwylir iddynt gael eu hailddosbarthu fel asedau treftadaeth yw £154,560. Mae'r asedau hyn yn cael eu dal fel Asedau Cymunedol yn y fantolen ar 31 Mawrth 2011, a byddant yn destun i ailbrisiad ar eu hailddosbarthu yn 2011/12.

### **2. Barn Gritigol mewn Cymhwyso Polisiâu Cyfrifo**

Wrth ddefnyddio'r polisiâu cyfrifo, mae'r Awdurdod wedi gorfod dod i farn bendant ynghylch trafodion cymhleth neu'r rheiny sy'n cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau i'r dyfodol. Y farn gritigol a wnaed yn y Datganiad Cyfrifon yw:

Mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllido i lywodraeth leol i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi pennu nad yw'r ansicrwydd hwn eto'n ddigon i roi arwydd y gallai asedau'r Awdurdod ddiodef amhariad o ganlyniad i angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau darpariaeth gwasanaeth.

### 3. Rhagdybiaethau a wneir am y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifedig sydd wedi eu seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2011 ble bo risg sylweddol o addasiad perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:-

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw'r Canlyniadau Gwirioneddol yn Gwahaniaethu oddi wrth y Rhagdybiaethau
EIDDO, OFFER A CHYFARPAR	Mae asedau'n cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol yn ddibynol ar ragdybiaethau ynghylch lefel trwsio a chynnal i'r dyfodol a geir yng nghyswllt asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd presennol yn ei gwneud yn ansicr y bydd y Cyngor yn medru cynnal ei wariant cyfredol ar drwsio a chynnal, gan fwrw amheuaeth ar yr oes ddefnyddiol a ddynodir i'r asedau.	Os yw oes ddefnyddiol ased yn cael ei lleihau, yna mae dibrisio'n cynyddu ac mae swm cario'r ased yn gostwng. Amcangyfrifir y byddai'r tâl dibrisio blynyddol ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar cynyddu am bob blwyddyn y byddai rhaid gostwng yr oes ddefnyddiol.
DARPARIAETHAU	Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth o £2m ar gyfer setlo hawliadau am ôl gyflog yn deillio o'r fenter Cyflog Cyfartal, wedi ei seilio ar y nifer o hawliadau a dderbynnir a'r swm setlo cyfartalog. Mae hwn yn ostyngiad o £3.8m yn 2010/11 o'r ddarpariaeth a grewyd yn wreiddiol. Nid yw'n sicr bod yr holl hawliadau dilys eto wedi eu derbyn gan y Cyngor neu y bydd y cynseiliau a osodwyd gan awdurdodau eraill wrth setlo'r hawliadau'n berthnasol	Byddai cynnydd dros y flwyddyn sydd i ddod o 10% yn naill ai'r cyfanswm o hawliadau neu'r swm setlo cyfartalog ill dau'n cael effaith o ychwanegu £200k i'r ddarpariaeth sydd ei hangen.
RHWYMEDIGAETH PENSIYNAU	Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o farnau cymhleth ynghylch y raddfa ddisgownt a ddefnyddir, y raddfa y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oed ymddeol, graddfeydd marwoldeb, a dychweliadau disgwylidig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actwariaid ymgynghorol wedi eu penodi i roi cyngor arbenigol i'r Cyngor ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w defnyddio.	Newidiodd y gyllideb frys yn cynnydd pensiwn i fod yn unol â'r CPI yn hytrach na'r RPI. Mae hyn wedi golygu cyflwyno credyd gwasanaeth yn y gorffennol gan leihau'r rhwymedigaeth net yn y fantolen. Disgwylia'r actwariaid y bydd cyflwyno'r CPI yn lleihau taliadau pensiwn i'r dyfodol, fodd bynnag byddai rhagamcanion presennol o lefel y CPI o'i gymharu â'r RPI yn medru bod yn anghywir.
ÔL DDYLEDION	Ym Mawrth 2011, roedd gan y Cyngor falans dyledwyr amrywiol o £6.5m. Awgrymodd adolygiad o falansau sylweddol fod amhariad o dyledion amheus o £364k yn briodol. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd economaidd presennol nid yw'n sicr y byddai'r fath lwfans yn ddigonol.	Petai dyledion amrywiol yn dod yn anoddach i'w casglu yna byddai angen cynyddu'r ddarpariaeth Dyledion Drwg.

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys asedau a rhwymedigaethau sy'n cael eu cario ar werth teg wedi ei seilio ar bris arsylledig diweddar y farchnad.

## **4. Eitemau perthnasol o Incwm a Threuliau**

### **4.1 Darpariaeth Cyflog Cyfartal**

Mae'r farn ar hawliadau Cyflog Cyfartal drwy Brydain wedi bod yn destun llawer iawn o waith achos ac adolygiad. Mae hon yn sefyllfa sy'n newid yn gyflym, ac sy'n cael ei hadolygu'n barhaus. Yng ngoleuni gwybodaeth mwy cyfredol mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cyflog Cyfartal yn y cyfrifon wedi ei leihau o £5.8m i £2m. Nid yw hwn yn cael ei gefnogi gan arian parod, ac mae'n cael ei wrthosod gan gronfa wrth gefn anefnyddiadwy negyddol – y Cyfrif Ôl Gyflog Cyflog Anghyfartal

Cynhwysir y diwygiad hwn ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel lleihad mewn gwariant i'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd.

### **4.2 Rhwymedigaeth Pensiynau**

Yn 2010/11 roedd lleihad anghymesur yng ngwerth rhwymedigaethau'r gronfa o £195m i £68m, oherwydd dychweliadau ased positif a disgwyliadau chwyddiant tymor hir yn gostwng ynghyd â newid yn y cynnydd pensiwn o RPI i CPI.

Cynhwysir y lleihad hwn ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o fewn incwm ar gyfer costau nas dosbarthwyd.

## **5. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Awdurdodwyd y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan y Prif Swyddog Cyllid ar 30 Mehefin 2011. Nid yw digwyddiadau a gymerodd le ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol neu nodiadau. Pan fo digwyddiadau a gymerodd le cyn y dyddiad hwn wedi darparu gwybodaeth ynglŷn ag amodau oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2011, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol wedi eu haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Fel yr amlinellwyd yn nodyn 44, mae'r penderfyniad i godi pensiynau gwasanaeth cyhoeddus gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Adwerthu wedi'i gydnabod yn y cyfrifon hyn. Mae'r penderfyniad hwn ger bron y llysoedd ar hyn o bryd mewn achos adolygiad barnwrol. Mae'r Llywodraeth yn ymladd yr achos ac felly nid yw'r cyfrifon wedi'u haddasu ar gyfer y mater hwn. Nid oes asesiad wedi bod ar y goblygiadau ariannol os bydd yr adolygiad yn penderfynu yn erbyn y Llywodraeth.

## 6. Addasiadau rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Ariannu Dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir yn y cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifo cywir i'r adnoddau y manylir arnynt gan ddarpariaethau statudol fel eu bod ar gael i'r Awdurdodi gwrdd â gwariant cyfalaf a referniw i'r dyfodol.

2010/11	Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio					Arian Wrth Gefn na ellir ei ddefnyddio
	Balans Cronfa'r Cyngor	Arian wrth gefn cyfalaf a neilltuwyd	Arian wrth gefn Derbynebion Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd	Cyfanswm yr Arian Wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio	Symudiadau mewn Arian
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys y Cyfrif Addasiad Cyfalaf</b>						
<b>Gwrthdroi eitemau a dynnwyd neu a greddydwyr i'r datganiad Incwm a Gwariant Gynhwysfawr</b>						
Costau ar gyfer dibrisiad ac amhariad ar eitemau nad ydynt yn asedau cyfredol	13,109	-	-	-	13,109	(13,109)
Ailbriso colledion ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	2,782	-	-	-	2,782	(2,782)
Symudiad yng ngwerth marchnad Eiddo Buddsoddi	(644)	-	-	-	(644)	644
amorteiddiad o asedau anghyfyrdadwy	164	-	-	-	164	(164)
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd	(10,323)	-	-	-	(10,323)	10,323
Gwariant referniw a ariannwyd o gyfalaf dan statud	2,218	-	-	-	2,218	(2,218)
	1,127	-	-	-	1,127	(1,127)
<b>Cynnwys eitemau na dynnwyd na chredydwyd i'r datganiad Incwm a Gwariant</b>						
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	(7,653)	-	-	-	(7,653)	7,653
Gwariant cyfalaf yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor	(165)	(1,391)	-	-	(1,556)	1,556
<b>Addasiadau yn bennaf yn cynnwys y Cyfrif Grantiau nas defnyddiwyd</b>						
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a greddydwyr i'r Datganiad Incwm a Gwariant	(368)	-	-	368	-	-



2010/11	Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio					Arian Wrth Gefn na ellir ei ddefnyddio
	Balans Cronfa'r Cyngor	Arian wrth gefn cyfalaf a neillituwyd	Arian wrth gefn Derbynebion Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd	Cyfanswm yr Arian Wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio	Symudiadau mewn Arian
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys Arian Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf:</b>						
Trosglwyddo elw o wariant arian parod a gredydwyd fel rhan o'r ennil/colled wrth gael gwared ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,151)	-	1,151	-	-	-
Defnyddio Arian wrth Gefn o Dderbynebion Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	-	-	(1,111)	-	(1,111)	1,111
Cyfraniad o'r Arian Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol cael gwared ar asedau anghyfredol	26	-	(26)	-	-	-
Gwella Rhent Prydles Ariannol	102	-	-	-	102	(102)
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys Arian Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf a ohiriwyd:</b>						
Trosglwyddo morgais o dderbynebion cyfalaf a ohiriwyd i Arian Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf	-	-	4	-	4	(4)
<b>Addasiad yn bennaf yn cynnwys y Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol</b>						
Y gwahaniaeth rhwng costau ariannol o'r datganiad Incwm a Gwariant a'r costau ariannol sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(23)	-	-	-	(23)	23
<b>Addasiad sy'n bennaf yn cynnwys yr Arian Wrth Gefn Pensiynau</b>						
Gwyrdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-daliadau ymddeol a dynnwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodiadau 44)	(21,131)	-	-	-	(21,131)	21,131
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	(13,679)	-	-	-	(13,679)	13,679
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys y Cyfrif Addasu ôl-dâl Cyflog Anghyfartal</b>						
Gostyngiad mewn Darpariaeth Tâl Cyfartal	(3,800)				(3,800)	3,800
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau</b>						
Y gwahaniaeth rhwng tâl y swyddog o'r datganiad Incwm a Gwariant a'r tâl sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(55)	-	-	-	(55)	55
<b>Cyfanswm Addasiadau</b>	<b>(39,464)</b>	<b>(1,391)</b>	<b>18</b>	<b>368</b>	<b>(40,469)</b>	<b>40,469</b>

2009/10 Ffigyrau i'w Cymharu	Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio					Arian Wrth Gefn na ellir ei ddefnyddio
	Balans Cronfa'r Cyngor	Arian wrth gefn cyfalaf a neilltuwyd	Arian wrth gefn Derbynebion Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd	Cyfanswm yr Arian Wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio	Symudiadau mewn Arian
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Addasiad sy'n bennaf yn cynnwys y Cyfrif Addasiad Cyfalaf</b>						
<b>Gwyrddro eitemau a dynnwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</b>						
Costau ar gyfer dibrisiad ac amhariad ar eitemau nad ydynt yn asedau cyfredol	15,172	-	-	-	15,172	(15,172)
Ailwerthuso colledion Eiddo, Offer a Chyfarpar	29,389	-	-	-	29,389	(29,389)
Symudiadau yng ngwerth y farchnad mewn perthynas ag Eiddo Buddsoddi amorteiddiad o asedau anghyfyrrdadwy	(3,488)	-	-	-	(3,488)	3,488
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd	131	-	-	-	131	(131)
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd	(8,711)	-	-	-	(8,711)	8,711
Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf dan statud	1,538	-	-	-	1,538	(1,538)
Symiau o eitemau nad ydynt yn asedau cyfredol a gafwyd gwared ohonynt neu a werthwyd fel rhan o'r enillion/colledion o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,073	-	-	-	1,073	(1,073)
Y gwahaniaeth rhwng gwerth asedau ac atebolrwydd prydles	4	-	-	-	4	(4)
<b>Cynnwys eitemau na dynnwyd na chredydwyd i'r datganiad Incwm a Gwariant</b>						
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	(7,491)	-	-	-	(7,491)	7,491
Gwariant cyfalaf yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor	-	(685)	-	-	(685)	685
<b>Addasiad yn bennaf yn cynnwys y Cyfrif Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd</b>						
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant	(85)	-	-	85	-	-

2009/10 Ffigyrau i'w Cymharu	Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio					Arian Wrth Gefn na ellir ei ddefnyddio
	Balans Cronfa'r Cyngor	Arian wrth gefn cyfalaf a neilltuwyd	Arian wrth gefn Derbynebion Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd	Cyfanswm yr Arian Wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio	Symudiadau mewn Arian
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys Arian Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf:</b> Trosglwyddo elw o wariant arian parod a gredydwyd fel rhan o'r ennill/colled wrth gael gwared ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Defnyddio Arian wrth Gefn o Dderbynebion Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd Gwella Rhent Prydles Ariannol - Incwm	(121)	-	121	-	-	-
	-	-	(1,966)	-	(1,966)	1,966
	11	-	-	-	11	(11)
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys Arian Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf a ohiriwyd:</b> Trosglwyddo morgais o dderbynebion cyfalaf a ohiriwyd i Arian Wrth Gefn Derbynebion Cyfalaf	-	-	7	-	7	(7)
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys y Cyfrif Addasu Eitemau Ariannol</b> Y gwahaniaeth rhwng costau ariannol o'r datganiad Incwm a Gwariant a'r costau ariannol sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(57)	-	-	-	(57)	57
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys Arian Wrth Gefn Pensiynau:</b> Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-daliadau ymddeol neu wedi'i gredydu i'r datganiad Incwm a Gwariant Gynhwysfawr (gweler Nodiadau 44) Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	13,114	-	-	-	13,114	(13,114)
	(12,898)	-	-	-	(12,898)	12,898
<b>Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau</b>  Y gwahaniaeth rhwng tâl y swyddog o'r datganiad Incwm a Gwariant a'r tâl sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(223)	-	-	-	(223)	223
<b>Cyfanswm Addasiadau</b>	<b>-2,031</b>	<b>(685)</b>	<b>(1,838)</b>	<b>85</b>	<b>-4,469</b>	<b>4,469.00</b>

## 7. Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a roddwyd o'r neilltu o falans Cronfa'r Cyngor mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu ariannu ar gyfer cynlluniau gwariant i'r dyfodol a'r symiau a bostiwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gwrdd â gwariant Cronfa'r Cyngor.

	Balans ar 1 Ebrill 2009	Trosglwyddo allan 2009/10	Trosglwyddo mewn 2009/10	Balans ar 31 Mawrth 2010	Trosglwyddo allan 2010/11	Trosglwyddo mewn 2010/11	Balans ar 31 Mawrth 2011
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cronfa'r Cyngor:</b>							
Balansau a gedwir gan ysgolion o dan gynllun dirprwyo	4,752	(710)	499	4,541	(758)	610	4,393
<b>Arian Wrth Gefn Gwasanaethau:</b>							
Datblygu Cymunedol	362	(90)	53	325	(106)	328	547
Isadeiledd	221	(104)	-	117	(64)	80	133
Tramffordd – Rhaglen Gynnal	238	-	48	286	(63)	37	260
TG – Adfer Trychineb, Buddsoddiad TG Cyffredinol	297	(124)	6	179	-	81	260
Adnoddau Dynol	99	(32)	-	67	(8)	43	102
Refeniw a Budd-daliadau	236	(50)	-	186	(74)	29	141
Archwilio Mewnol – Meddalwedd, systemau TG etc	189	-	-	189	(40)	50	199
Gwasanaethau Eraill	606	(550)	355	411	(159)	84	336
Theatrau – Trwsio ac Adnewyddu	151	-	82	233	(38)	115	310
Strategaeth Tai a Tai Sector Preifat	407	(249)	130	288	(39)	102	351
Gwasanaethau Cymdeithasol Arian Wrth Gefn	820	(63)	505	1,262	(55)	-	1,207
Gwasanaethau Addysg Arian Wrth Gefn	925	-	154	1,079	(63)	215	1,231

	Balans ar 1 Ebrill 2009	Trosglwyddo allan 2009/10	Trosglwyddo mewn 2009/10	Balans ar 31 Mawrth 2010	Trosglwyddo allan 2010/11	Trosglwyddo mewn 2010/11	Balans ar 31 Mawrth 2011
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<i>Corfforaethol Arian Wrth Gefn:</i>							
Cronfa Wrth Gefn Risg Sy'n Cael ei Arwain yn ôl y Galw	460	(600)	405	265	-	-	265
Gwerthuso Swyddi Statws Sengl	6,155	(1,799)	160	4,516	(2,415)	300	2,401
Arian Wrth Gefn Yswiriant	842	(63)	201	980	(55)	374	1,299
Cefnogaeth Cyllideb Refeniw 2011/12	-	-	190	190	(56)	356	490
Diswyddo ac Ymddeol	18	-	165	183	-	547	730
Arian Wrth Gefn Gwario i Arbed	742	(108)	-	634	(110)	-	524
Tâl Unedol PFI	8,299	- (229)	1,085	9,155	(16)	781	9,920
Cronfa Trawsffurfio Rhanbarthol	-	-	-	-	-	510	510
Prosiectau Cymunedol	9	-	292	301	-	50	351
Arall	1,368	(586)	110	892	(464)	220	648
Arian Grantiau wrth gefn a neilltuwyd	1,132	- (1,132)	1,334	1,334	(1,334)	775	775
<b>Cyfanswm yr Arian wrth Gefn a neilltuwyd</b>	<b>28,328</b>	<b>(6,489)</b>	<b>5,774</b>	<b>27,613</b>	<b>(5,917)</b>	<b>5,687</b>	<b>27,383</b>
<b>Cyfanswm yr Arian Cyfalaf Wrth Gefn</b>	<b>1,971</b>	<b>(988)</b>	<b>2,273</b>	<b>3,256</b>	<b>(1,863)</b>	<b>2,523</b>	<b>3,916</b>

## 8. Gwariant Gweithredol Arall

2009/10 £000		2010/11 £000
9,604	Praesept Heddlu	9,911
1,382	Praeseptau Cynghorau Cymuned	1,386
5,155	Ardollau Eraill	5,281
426	Enillion / colledion ar warediad asedau nad ydynt yn gyfredol	360
952		(24)
<b>17,519</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>16,914</b>

## 9. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi

2009/10 £000		2010/11 £000
8,642	Llog Taladwy a thaliadau tebyg	8,262
19,246	Cost llog pensiynau	23,904
(12,318)	Dychweliad disgwylidig ar asedau pensiwn	(19,397)
(1,310)	Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(306)
(3,776)	Incwm a gwariant yng nghyswllt eiddo buddsoddiad a newidiadau yn eu gwerth teg	(5,017)
1,581	Gweithrediadau Masnachu	1,977
<b>12,065</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>9,423</b>

## 10. Incwm Treth a Grantiau Amhenodol

2009/10 £000		2010/11 £000
(49,472)	Incwm y Dreth Gyngor	(51,670)
(30,633)	Trethi annomestig	(31,985)
(117,698)	Grantiau'r llywodraeth heb eu clustnodi	(119,082)
(8,799)	Grantiau a chyfraniadau cyfalaf	(10,691)
<b>(206,602)</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>(213,428)</b>

## 11. Eiddo, Offer a Chyfarpar

### Symudiadau ar Falansau

Symudiadau yn 2010/11:	Aneddiadau'r Cyngor	Tiroedd ac Adeiladau Eraill	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer	Asedau Isadeiledd	Asedau Cymunedol	Asedau Dros Ben	Asedau'n cael eu Hadeiladu	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar	Asedau PFI wedi eu cynnwys gydag Eiddo, Offer a Chyfarpar
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Cost neu Brisriad</b>									
Ar 1 Ebrill 2010	-	263,046	31,860	77,508	5,170	320	3,294	381,198	51,567
Ychwanegiadau	-	2,178	2,072	5,966	401	-	7,268	17,885	165
Cynnydd/ (Gostyngiad) ailbrisriad wedi'i gydnabod yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisriad	-	(598)	-	-	-	(15)	-	(613)	(55)
Cynnydd/ (Gostyngiad) ailbrisriad wedi'i gydnabod yn y Gwarged/ Diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau	-	(1,314)	-	-	-	(5)	-	(1,319)	(110)
Dadgydnabyddiaeth - Gwaredu	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Trosglwyddiadau o Asedau dan Adeiladu	-	557	-	1,548	-	-	(2,105)	-	-
Asedau wedi eu Hail-gategoreiddio (i)/o eu Cadw i'w Gwerthu	-	(3,796)	-	-	-	-	150	(3,646)	-
Symudiadau Eraill mewn Cost neu Brisriad	-	-	-	-	-	(300)	300	-	-
<b>Ar 31 Mawrth 2011</b>	<b>-</b>	<b>260,073</b>	<b>33,932</b>	<b>85,022</b>	<b>5,571</b>	<b>-</b>	<b>8,907</b>	<b>393,505</b>	<b>51,567</b>
<b>Dibrisiad a Nam a Gronwyd</b>									
Ar 1 Ebrill 2010	-	(4,332)	(20,505)	(28,963)	(1,426)	-	-	(55,226)	(5,610)
Ffi Dibrisiad	-	(4,270)	(2,818)	(4,796)	(347)	-	-	(12,231)	(975)
TALWYR TRETH Y CYNGOR	(49,472)									(49,472)
Grant Cefnogi Refeniw ac Eraill	(117,698)			(10,348)		(87)		1,636		(126,497)
NNDR	(30,633)									(30,633)
<b>ARIAN (DROS BEN)/ DIFFYG NET AM Y FLWYDDYN</b>	<b>32,892</b>	<b>479</b>	<b>(223)</b>	<b>(6,923)</b>	<b>(203)</b>	<b>(87)</b>	<b>2,169</b>	<b>1,636</b>	<b>(3,488)</b>	<b>26,252</b>

MANTOLEN FEL AR 1/4/2009	Mantolen a gysynwyd o dan UK GAAP 31/3/09	Newidiadau IFRS - ailgategoreiddio asedau/ atebolrwydd	Newidiadau IFRS - Arian a chywerthydd arian	Newidiadau IFRS - Darpariaethau	Newidiadau IFRS - Prydlesi	Derbynebau IFRS Ymlaen Llaw i Arian Wrth Gefn	Newidiadau IFRS i Fuddion Gweithwyr	Newidiadau IFRS - Grantiau'r llywodraeth a ohirwyd, nas defnyddiwyd a derbynebion grantiau cyfalaf ymlaen llaw	Balansau UK GAAP yn fformat IFRS - Balans 1/4/09	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
<b>Asedau Gweithredol</b>										<b>Asedau Gweithredol</b>
Aneddiadau'r Cyngor	-									
Tir ac Adeiladau Eraill	231,396									
Cerbydau, peiriannau ac offer	8,367									
Isadeiledd	48,364									
Asedau cymunedauol	3,328									
	291,455	(291,455)								
Asedau Anweithredol	15,148	(15,148)								
Eiddo, Offer a Chyfarpar	-	301,883			1,014			302,897	Eiddo, Offer a Chyfarpar	
Eiddo Buddsoddi	-	4,145			(52)			4,093	Eiddo Buddsoddi	
Asedau Penodol Anghyffwrddadwy	992				27			1,019	Asedau anghyffwrddadwy	
Buddsoddiadau Tymor Hir	1,052							1,052	Buddsoddiadau Tymor Hir	
Dyledwyr Tymor Hir	644				190			834	Dyledwyr Tymor Hir	
<b>Cyfanswm Asedau Tymor Hir</b>	<b>309,291</b>	<b>(575)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>1,179</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>309,895</b>	<b>Asedau Tymor Hir</b>	
<b>Asedau Cyfredol</b>										<b>Asedau Cyfredol</b>
<b>Asedau Ariannol Tymor Byr</b>										<b>Asedau Ariannol Tymor Byr</b>
Arian Mewn llaw	479		23,495					23,974	Arian a chywerthydd arian	
Stoc a Gwaith ar y gweill	695							695	Rhestr Stoc a Gwaith ar y gweill	
Dyledwyr	23,614	799			11			24,424	Dyledwyr Tymor Byr	
Buddsoddiadau	34,903		(26,903)					8,000	Buddsoddiadau Tymor Byr	
Taliadau Ymlaen Llaw	799	(799)						-		
		575						575	Asedau a gedwir i'w gwerthu	
<b>Cyfanswm Asedau Cyfredol</b>	<b>60,490</b>	<b>575</b>	<b>(3,408)</b>	<b>-</b>	<b>11</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>57,668</b>	<b>Asedau Cyfredol</b>	
<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>										<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>
<b>Rhwymedigaethau Ariannol Tymor Byr</b>										<b>Rhwymedigaethau Ariannol Tymor Byr</b>
Credydwyr	14,035	3,588			444		2,334	(1,425)	18,976	Credydwyr Tymor Byr
Benthyciadau sy'n rhaid eu had-dalu o fewn 12 mis	18,005								18,005	Benthyca Tymor Byr
Derbynebau ymlaen llaw	4,720	(3,588)				(1,132)			-	
				963					963	Darpariaethau
Gorddrافت y Banc	3,408		(3,408)						-	Arian a chywerthydd arian
<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol</b>	<b>40,168</b>	<b>-</b>	<b>(3,408)</b>	<b>963</b>	<b>444</b>	<b>(1,132)</b>	<b>2,334</b>	<b>(1,425)</b>	<b>37,944</b>	<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol</b>
<b>Rhwymedigaethau / Asedau Cyfredol Net (-)</b>	<b>20,322</b>	<b>575</b>	<b>-</b>	<b>(963)</b>	<b>(433)</b>	<b>1,132</b>	<b>(2,334)</b>	<b>1,425</b>	<b>19,724</b>	<b>Rhwymedigaethau / Asedau Cyfredol Net (-)</b>
<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Di-asedau Cyfredol</b>	<b>329,613</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(963)</b>	<b>746</b>	<b>1,132</b>	<b>(2,334)</b>	<b>1,425</b>	<b>329,619</b>	<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Di-asedau Cyfredol</b>
<b>Rhwymedigaethau heb fod yn Gyfredol</b>										<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>
Rhwymedigaethau Pensiynau	93,150								93,150	Rhwymedigaethau Pensiynau
Rhwymedigaethau Ariannol Tymor Hir: Benthycia	96,392								96,392	Benthyca Tymor Hir
Benthyca Tymor Hir Eraill	31,007				906				31,913	Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill
Darpariaethau	8,973			(963)					8,010	Darpariaethau
Grantiau'r llywodraeth a ohirwyd	73,358							(73,358)	-	
								1,425	1,425	Derbynebion Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw
Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd	1,079							(1,079)	-	
	<b>303,959</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(963)</b>	<b>906</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(73,012)</b>	<b>230,890</b>	<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>
<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Di-asedau</b>	<b>25,654</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>(160)</b>	<b>1,132</b>	<b>(2,334)</b>	<b>74,437</b>	<b>98,729</b>	<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Di-asedau</b>

MANTOLEN FEL AR 1/4/2009	Mantolen a gysonwyd o dan UK GAAP 31/3/09	Newidiadau IFRS - ailgategoreiddio asedau/ atebolrwydd	Newidiadau IFRS - Arian a chywerthydd arian	Newidiadau IFRS - Darpariaethau	Newidiadau IFRS - Prydlesi	Derbynebaw IFRS Ymlaen Llaw i Arian Wrth Gefn	Newidiadau IFRS i Fuddion Gweithwyr	Newidiadau IFRS - Grantiau'r llywodraeth a ohiriwyd, nas defnyddiwyd a derbynebion grantiau cyfalaf ymlaen llaw	Balansau UK GAAP yn fformat IFRS - Balans 1/4/09		
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000		
<b>Arian Wrth Gefn</b>										<b>Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio</b>	
Cronfa'r Cyngor	3,005								3,005	Cronfa'r Cyngor	
HRA	189								189	HRA	
Arian Wrth Gefn	27,197					1,132			28,329	Arian Wrth Gefn a glustnodwyd	
Arian Wrth Gefn Cyfalaf	1,971								1,971	Arian Wrth Gefn Cyfalaf	
Arian wrth gefn Derbynebion Cyfalaf y gellir ei ddefnyddio	5,465								5,465	Arian wrth gefn Derbynebion Cyfalaf y gellir ei ddefnyddio	
	<b>37,827</b>	-	-	-	-	<b>1,132</b>	-	1,079	<b>40,038</b>	Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd	
								<b>1,079</b>			
Arian wrth Gefn Pensiynau	(93,150)								(93,150)	Arian wrth Gefn Pensiynau	
Cyfrif Ol-dal Cyflog Cyfartal	(5,800)								(5,800)	Cyfrif Ol-dal Cyflog Cyfartal	
Derbynebaw Cyfalaf a ohiriwyd	28					201			(2,334)	Cronfa Absenoldebaw a Gronnwyd	
Cyfrif Newid Cyfalaf	87,771					(361)				229 Derbynebaw Cyfalaf a ohiriwyd	
Cronfa Wrth Gefn Ailbrisiad	25								73,358	160,768 Cyfrif Newid Cyfalaf	
Cyfrif Newid Cyfarwyddiadau Ariannol	(1,047)								25	25 Cronfa Wrth Gefn Ailbrisiad	
	<b>(12,173)</b>	-	-	-	<b>(160)</b>	-	<b>(2,334)</b>	<b>73,358</b>	<b>73,358</b>	<b>58,691</b>	(1,047) Cyfrif Newid Cyfarwyddiadau Ariannol
<b>Cyfanswm Ecwiti</b>	<b>25,654</b>	-	-	-	<b>(160)</b>	<b>1,132</b>	<b>(2,334)</b>	<b>74,437</b>	<b>98,729</b>	<b>Cyfanswm Ecwiti</b>	



Mantolen fel ar 31/3/2010	Mantolen a gysonwyd o dan UK GAAP 31/3/19	Newidiadau IFRS - allgategoreiddio asedau/ atebolrwydd	Newidiadau IFRS - Arian a chywerthedd arian	Newidiadau IFRS - Darpariaethau	Newidiadau IFRS - Prydlesi	Newidiadau bt.CAA a RR ynglyn â Chael Gward ar Brydlesi	Newid Gwerth Asedau	Arian Allbrisriad Wrth Gefn mewn perthynas â nam	Derbynebaw IFRS Ymlaen Llaw i'r Arian Wrth Gefn	Derbynebaw IFRS Ymlaen Llaw i Arian Wrth Gefn	Newidiadau IFRS i Fuddion Gweithwyr	Newidiadau IFRS - Grantiau'r llywodraeth a ohiriwyd, nas defnyddiwyd a derbynebion grantiau cyfalaf ymlaen llaw	Balansau UK GAAP yn fformat IFRS - Balans 31/3/10		
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000		
<b>Asedau Gweithredo</b>														<b>Asedau Gweithredo</b>	
Aneddiadau'r Cyngor															
Tir ac Adeiladau Eraill	259,465														
Cerbydau, peiriannau ac offer	10,140														
Isadeiledd	48,545														
Asedau cymunedau	3,744														
	<b>321,894</b>	(321,894)													
Asedau Anweithredol	17,955	(17,955)													
Eiddo, Offer a Chyfarpar		325,509			463								325,972	Eiddo, Offer a Chyfarpar	
Eiddo Buddsoddi		6,567			(172)								6,395	Eiddo Buddsoddi	
Asedau Penodol Anghyffwrddadwy	1,094				18								1,112	Asedau anghyffwrddadwy	
Buddsoddiadau Tymor Hir	1												1	Buddsoddiadau Tymor Hir	
Dyledwyr Tymor Hir	775				178								953	Dyledwyr Tymor Hir	
Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	1,359												1,359	Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	
<b>Cyfanswm Asedau Tymor Hir</b>	<b>343,078</b>	<b>(7,773)</b>	-	-	<b>487</b>	-	-	-	-	-	-	-	<b>335,792</b>	<b>Asedau Tymor Hir</b>	
<b>Asedau Cyfredol</b>														<b>Asedau Cyfredol</b>	
<b>Asedau Ariannol Tymor Byr</b>														<b>Asedau Ariannol Tymor Byr</b>	
Arian Mewn llaw	641		7,545											8,186	Arian a chywerthedd arian
Stoc a Gwaith ar y gweill	755													756	Rhestr Stoc a Gwaith ar y gweill
Dyledwyr	25,946	1,820			12									27,778	Dyledwyr Tymor Byr
Buddsoddiadau	17,456		(11,456)											6,000	Buddsoddiadau Tymor Byr
Taliadau Ymlaen Llaw	1,820	(1,820)													
		7,773					(500)							7,273	Asedau a gedwir i'w gwerthu
<b>Cyfanswm Asedau Cyfredol</b>	<b>46,618</b>	<b>7,773</b>	<b>(3,911)</b>	-	<b>12</b>	-	<b>(500)</b>	-	-	-	-	-	<b>49,993</b>	<b>Asedau Cyfredol</b>	
<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>														<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>	
<b>Rhwymedigaethau Ariannol Tymor Byr</b>														<b>Rhwymedigaethau Ariannol Tymor Byr</b>	
Credydwy	12,946	5,917			326				(2,140)	2,111		(1,079)	18,081	Credydwy Tymor Byr	
Benthyciadau sy'n rhaid eu had-dalu o fewn 12 mis	7,827													7,827	Benthycia Tymor Byr
Derbynebaw ymlaen llaw	5,917	(5,917)												-	
					4,224									4,224	Darpariaethau
Gorddrafft y Banc	3,910		(3,910)											-	Arian a chywerthedd arian
<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol</b>	<b>30,600</b>	-	<b>(3,910)</b>	<b>4,224</b>	<b>326</b>	-	-	-	<b>(2,140)</b>	<b>2,111</b>	-	<b>(1,079)</b>	<b>30,132</b>	<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol</b>	
<b>Rhwymedigaethau / Asedau Cyfredol Net (-)</b>	<b>16,018</b>	<b>7,773</b>	<b>(1)</b>	<b>(4,224)</b>	<b>(314)</b>	-	<b>(500)</b>	-	<b>2,140</b>	<b>(2,111)</b>	-	<b>1,079</b>	<b>19,861</b>	<b>Rhwymedigaethau / Asedau Cyfredol Net (-)</b>	
<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Di-asedau Cyfredol</b>	<b>359,096</b>	-	<b>(1)</b>	<b>(4,224)</b>	<b>173</b>	-	<b>(500)</b>	-	<b>2,140</b>	<b>(2,111)</b>	-	<b>1,079</b>	<b>355,653</b>	<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Di-asedau Cyfredol</b>	
<b>Rhwymedigaethau heb fod yn Cyfredol</b>														<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>	
Rhwymedigaethau Pensiynau	195,303													195,303	Rhwymedigaethau Pensiynau
Rhwymedigaethau Ariannol Tymor Hir: Benthycia	95,315									805			96,120	Benthycia Tymor Hir	
Benthycia Tymor Hir Eraill	29,936				812								30,748	Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill	
Darpariaethau	11,888		(4,224)										7,664	Darpariaethau	
Grantiau'r llywodraeth a ohiriwyd	78,644											(78,644)	-		
Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd	802											715	-	Derbynebion Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw	
												(802)	-		
	<b>411,888</b>	-	-	<b>(4,224)</b>	<b>812</b>	-	-	-	<b>805</b>	-	-	<b>(78,731)</b>	<b>330,550</b>	<b>Rhwymedigaethau Tymor Hir</b>	
<b>Cyfanswm Rhwymedigaethau Di-asedau</b>	<b>(52,792)</b>	-	<b>(1)</b>	-	<b>(639)</b>	-	<b>(500)</b>	-	<b>1,335</b>	<b>(2,111)</b>	-	<b>79,810</b>	<b>25,103</b>	<b>Asedau Net</b>	

	Mantolennau a gysonwyd o dan UK GAAP 31/3/19	Newidiadau IFRS - ailgategoreiddio asedau/ atebolrwydd	Newidiadau IFRS - Arian a chywerthydd arian	Newidiadau IFRS - Darpariaethau	Newidiadau IFRS - Prydlesi	Newidiadau bt.CAA a RR ynglyn â Chael Gwared ar Brydlesi	Newid Gwerth Asedau	Arian Ailbrisiad Wrth Gefn mewn perthynas â nam	Derbynebau IFRS Ymlaen Llaw i'r Arian Wrth Gefn	Derbynebau IFRS Ymlaen Llaw i Arian Wrth Gefn	Newidiadau IFRS i Fuddion Gweithwyr	Newidiadau IFRS - Grantiau'r llywodraeth a ohiriwyd, nas defnyddiwyd a derbynebau grantiau cyfalaf ymlaen llaw	Balansau UK GAAP yn fformat IFRS - Balans 31/3/10	
Mantolennau fel ar 31/3/2010	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
<b>Arian Wrth Gefn</b>														<b>Arian wrth Gefn y gellir ei ddefnyddio</b>
Cronfa'r Cyngor	2,856													2,856 Cronfa'r Cyngor
HRA	189													189 HRA
Arian Wrth Gefn	26,278								1,335					27,613 Arian Wrth Gefn a glustnodwyd
Arian Wrth Gefn Cyfalaf	3,256													3,256 Arian Wrth Gefn Cyfalaf
Arian wrth gefn Derbynebau Cyfalaf y gellir ei ddefnyddio	3,626													3,626 Arian wrth gefn Derbynebau Cyfalaf y gellir ei ddefnyddio
	<b>36,205</b>	-	-	-	-	-	-	-	<b>1,335</b>	-	-	1,166	<b>1,166</b>	1,166 Grantiau Cyfalaf nas defnyddiwyd
Arian wrth Gefn Pensiynau	(195,303)													(195,303) Arian wrth Gefn Pensiynau
Cyfrif Ol-dal Cyflog Cyfartal	(5,800)													(5,800) Cyfrif Ol-dal Cyflog Cyfartal
Derbynebau Cyfalaf a ohiriwyd	23				190					(2,111)				213 Cronfa Absenoldebau a Gronnwyd
Cyfrif Newid Cyfalaf	56,743				(829)	485		(2,169)			3,488			213 Derbynebau Cyfalaf a ohiriwyd
Cronfa Wrth Gefn Ailbrisiad	54,973					(485)	(500)	2,169			(3,488)			136,362 Cyfrif Newid Cyfalaf
Cyfrif Newid Cyfarwyddiadau Ariannol	(992)													52,669 Cronfa Wrth Gefn Ailbrisiad
Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	1,359													(992) Cyfrif Newid Cyfarwyddiadau Ariannol
	<b>(88,997)</b>	-	-	-	<b>(639)</b>	-	<b>(500)</b>	-	-	<b>(2,111)</b>	-	78,644	<b>78,644</b>	1,359 Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu
<b>Cyfanswm Ecwiti</b>	<b>(52,792)</b>	-	-	-	<b>(639)</b>	-	<b>(500)</b>	-	<b>1,335</b>	<b>(2,111)</b>	-	<b>79,810</b>	<b>25,103</b>	<b>Cyfanswm Ecwiti</b>

## **CRONFA'R DEGWM**

### **DATGANIAD CYFRIFON 2010/11**

#### **Rhagair eglurhaol**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am Gronfa'r Degwm yn rhinwedd adran 50 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn (Dynodi a Manylu) Cronfeydd Degwm 1996(b)).

Y Cyngor yw ymddiriedolwr corfforaethol nawdd Cronfa'r Degwm yn ardal Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n dal rhywfaint o nawdd a pharsel o dir a wahanwyd o gronfa Clwyd adeg ad-drefnu 1996. Hefyd, mae ganddo ran o Gronfa Gwynedd, y disgwylir iddi ddadelfennu yn y dyfodol.

Mae Gwynedd yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer Cronfa'r Degwm ac mae'n paratoi cyfrifon i'w cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau. Pan gaiff gronfa Gwynedd ei gwahanu, bydd disgwyl i Gonwy gofrestru ei gronfa fel elusen a pharatoi cyfrifon yn unol â Datganiad o Ymarfer a Argymhellir y Comisiwn Elusennau.

#### **Polisiâu Cyfrifo**

Y polisiâu Cyfrifo a ddilynir yw'r rheiny sydd wedi eu hamlinellu ar dudalennau 44 i 63, sy'n berthnasol i'r eitemau yng Nghyfrifon Cronfa'r Degwm. Hefyd mae'r cyfrifon yn dilyn Datganiad Ymarferiad Cymeradwyedig y Comisiwn Elusennau.

Y brif egwyddor gyfrifo sy'n berthnasol i'r cyfrifon hyn yw'r egwyddor groniadau, sy'n galw am gynnwys dyledwyr a chredydwyr yn y cyfrifon

Mae'r tir sy'n berchen i ran Conwy o'r Gronfa yn cael ei brisio ar ochr is cost amnewid gyfredol net a gwerth sylweddoladwy.

## CYFRIF INCWM A GWARIANT

	Nodiadau	2010/11	2009/10
		£	£
<b>ADNODDAU SY'N CODI</b>			
Rhent Tir	1	809	786
Llog Buddsoddi	2	6,189	7,054
Tynnu Ffioedd Rheolwyr y Gronfa		(103)	(130)
		6,895	7,710
<b>DEFNYDD O ADNODDAU</b>			
Ffioedd a Gwariant	3	-	(221)
Dyraniadau	4	(3,541)	(9,595)
Newid mewn Adnoddau cyn Enillion neu Gollledion Buddsoddi		3,354	(2,106)
Enillion (Colledion) a Wireddwyd ar Warediadau Buddsoddi		53	8
Enillion (Colledion) na Wireddwyd ar Werthoedd Buddsoddi		(309)	(2,153)
<b>Adnoddau a Gadwyd (Diffyg) ar gyfer y Dyfodol</b>		<b>3,098</b>	<b>(4,251)</b>
Adnoddau a Ddygwyd Ymlaen		285,643	289,894
Adnoddau a Gariwyd Ymlaen		288,741	285,643
<b>Symudiad yn y Flwyddyn</b>		<b>3,098</b>	<b>(4,251)</b>

## MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2011

	Nodiadau	2011	2010
		£	£
<b>Asedau Sefydlog</b>			
Tir	1	15,333	15,333
Buddsoddiadau	2	76,963	77,426
		92,296	92,759
<b>Asedau Cyfredol</b>			
Dyledwyr (yn daladwy gan Gyngor Gwynedd)	3	5,680	6,513
Arian Parod	2	72,723	68,536
Asedau Cyfredol (Yn nwylo Cyngor Gwynedd)	2	126,222	126,539
		204,625	201,588
<b>Atebolrwydd Cyfredol</b>			
Credydwyr	3	(8,180)	(8,704)
Asedau Net		288,741	285,643
<b>Balans y Gronfa</b>		<b>288,741</b>	<b>285,643</b>

## **NODIADAU CYFRIFON CRONFA'R DEGWM**

### **Cyfrif Incwm a Gwariant**

#### **Nodyn 1**

Roedd rhent o dir a oedd yn cael ei weinyddu gan Gonwy yn dod i gyfanswm o £809 (£786 yn 2009/10). Mae gan Gonwy hawl i gael 17.810244% o rent o dir sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, £250 oedd y swm ar gyfer 2010/11. (£250 ar gyfer 2009/10).

#### **Nodyn 2**

Prif ffynhonnell incwm yw incwm buddsoddiad o asedau a weinyddwyd gan Wynedd ar ran y gronfa, roedd hyn yn dod i gyfanswm o £5,680 (£6,513 yn 2009/10). Mae incwm y prif gronfa yn cael ei ddosrannu ar sail canran, ac mae gan Gonwy hawl i gael 17.810244%. Mae Conwy yn cadw arian ar ran y gronfa ac yn talu llog ar falans y gronfa a ddaeth i £406. (£411 yn 2009/10). Y gyfradd llog a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo yw cyfartaledd cyfradd libor 7 ar gyfer y misoedd rhwng Ebrill a Mawrth.

Mae incwm buddsoddiad wedi gostwng eto eleni wrth i effaith blwyddyn lawn o'r graddfeydd llog isel effeithio ar y gronfa. Os yw'r duedd bresennol yn parhau, bydd yr incwm buddsoddiad a geir rhwng £6,500 a £7,500 y flwyddyn. Mae'r incwm is wedi arwain at ostyngiad yn yr arian gwirioneddol a ddyrannwyd.

#### **Nodyn 3**

Ni osodwyd unrhyw hysbysebion eleni, gan fod hysbysebu yn y gorffennol wedi cyflawni'i nod a chodi ymwybyddiaeth o'r gronfa.

#### **Nodyn 4**

Dan ddarpariaethau Cronfa'r Degwm, mae Conwy yn dyrannu grantiau i amrywiol sefydliadau. Y swm oedd ar gael i'w ddyrannu yn 2010/11 oedd amcangyfrifo o £16,385 (£22,328 yn 2009/10) a chafodd £3,541 eu dyrannu (£9,595 yn 2009/10). Mae'r balans oedd ar gael i'w ddyrannu yn 2010/11 wedi'i gario ymlaen i'w ddyrannu yn 2011/12.

## **Mantolen**

### **Nodyn 1**

Gwerth y tir a ddelir ar ran y gronfa gan Gonwy yw £10,676 (£10,676 yn 2009/10) a rhan Conwy o'r tir sy'n cael ei ddal yn y brif gronfa yw £4,657 (£4,657 yn 2009/10).

### **Nodyn 2**

Mae'r buddsoddiadau sy'n cael eu dal yn y brif gronfa yn bennaf mewn Ecwiti Deyrnas Unedig, £432,127 (£434,725 yn 2009/10), ac mae Conwy yn cael 17.810244% o'r swm hwnnw. Mae balans y prif gronfa yn cael ei ddal fel taliadau ariannol ac mae llog yn cronni ar y swm. Yn 2010/11, daeth y swm i £700,150 (£700,358 yn 2009/10) ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn ffigwr yr asedau cyfredol ynghyd â Dyledwyr oedd yn dod i £8,554 (£10,122 yn 2009/10). O'r swm hwn mae Conwy yn cael 17.810244% wedi'i ddyrannu. Roedd y swm ariannol yr oedd Conwy yn ei ddal yn 2010/11 yn dod i £72,723 (£68,536 yn 2009/10), ac o'r swm hwn, mae £57,542 (£57,542 2009/10) yn cael ei ddal fel arian parod na ddyrennir ac mae'n cael ei fuddsoddi er mwyn cynhyrchu incwm i'w ddosbarthu.

### **Nodyn 3**

Mae'r swm i'w ddyrannu gan Wynedd ar gyfer 2010/11 yn cael ei ddangos fel dyledwr ar y fantolen. Y swm credydwy'r a ddangosir ar y fantolen yw cyfran Conwy o gredydwyd y prif gronfa.

# **YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG LLANRWST**

## **Datganiad Cyfrifon 2010/11**

### **Rhagair esboniadol**

Yn 2010/11, y Cyngor oedd Ymddiriedolwr Ceidwad y gronfa hon.

### **Polisiau Cyfrifo**

Ceir manylion am y polisiau cyfrifo ar dudalennau 44 i 63, sy'n berthnasol i eitemau yn y Cyfrifon. Mae'r Cyfrifon hefyd yn dilyn Datganiad a Argymhellwyd gan y Comisiwn Elusennau.

Y prif egwyddor sy'n berthnasol i'r cyfrifon hyn yw'r egwyddor croniad sy'n nodi bod rhaid cynnwys debydwyr a chredydwyr yn y cyfrifon.

**CYFRIF INCWM A GWARIANT AR GYFER Y FLWYDDYN A  
DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2011**

	2010/11 £		2009/10 £	
<b>ADNODDAU'N CODI</b>				
Rhoddion	0		1,250	
Llog ar Fuddsoddiadau	4,908		4,944	
Llai Gwariant	(15,000)		(13,507)	
		(10,092)		(7,313)
Adnoddau a ddygwyd ymlaen	909,276		916,589	
Adnoddau a gariwyd ymlaen	899,184		909,276	
<b>Symudiad yn y flwyddyn</b>		<b>(10,092)</b>		<b>(7,313)</b>

**TAFLEN FALANS AR 31 MAWRTH**

	2011 £	2010 £
Asedau cyfredol		
Buddsoddiadau	899,184	909,276
Rhwymedigaeth Cyfredol	-	-
<b>Balans y Gronfa</b>	<b>899,184</b>	<b>909,276</b>

**Nodyn 1**

Mae'r Gronfa Arian yn cael ei buddsoddi gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn ennill llog, y gyfradd a ddefnyddir yw cyfartaledd cyfradd LIBOR 7 diwrnod am y misoedd perthnasol.



## **GEIRFA**

### **ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL**

Addasiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r flwyddyn flaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifo neu gywiriad camgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol normal neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blwyddyn flaenorol.

### **ADNODDAU HYLIFOL**

Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar neu'n agos at y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol

### **AMHARIAD**

Lleihad mewn gwerth ased sefydlog dan ei swm a gludir yn y Fantolen.

### **AMORTEIDDIAD**

Dileu rhwymedigaeth yn raddol, fel benthyciad, drwy daliadau rheolaidd dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i'r fath daliadau fod yn ddigon i gynnwys y prifswm a'r llog.

### **ARCHWILIO CYFRIFON**

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

### **ARIAN**

Yn cynnwys arian parod mewn llaw ac mewn adneuon ar gais.

### **ARIANNU CYFALAF**

Arian a godir i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycia, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbynion cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, refeniw cronfeydd wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

### **ASED**

Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae eitemau'n cael eu categorio fel rhai cyfredol neu sefydlog:

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu'n peidio â bod â gwerth perthnasol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae ased sefydlog yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol e.e. canolfan gymuned, neu anniriaethol, e.e., trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

### **ASED WRTH GEFN**

Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

### **ASEDAU ANNIRIAETHOL**

Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

### **ASEDAU CYMUNEDOL**

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

### **ASEDAU GWEITHREDOL**

Asedau sefydlog sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu â disgresiwn.

## **ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL**

Asedau sefydlog a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau swrplws i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

## **ASEDAU SEILWAITH**

Asedau sefydlog sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae eu gwerth yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus a grëwyd gan yr ased. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

## **BENTHYCA DROS DRO**

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

## **BENTHYCIAD MEDDAL**

Benthyciad a wnaed yn ddi-log neu ar raddfa llai na graddfa'r farchnad, fel arfer am resymau polisi. Yn aml gwneir y fath benthyciadau i unigolion neu sefydliadau y mae'r Cyngor yn eu hystyried fel rhai sy'n dod â budd i'r boblogaeth leol.

## **BUDD-DALIADAU TAI**

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

## **BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiwn) 1996.

## **BUDDIANNAU GWEITHWYR**

Bob ffurf o ystyriaeth a roddir gan y cyngor fel cyfnewid am wasanaeth a roddir gan ei weithwyr.

## **BUDDIANNAU YMDDEOLIAD**

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

## **BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**

Bydd buddsoddiadau'r gronfa bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, siâr i'w briodoli o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

## **BUSNES HYFYW**

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

## **BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a mwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheiny y gall y llywodraeth fenthycia ei hun.

## **BWRDD YMGYNGHOROL ADRODD ARIANNOL (FRAB)**

Y corff annibynnol sy'n cynghori'r Llywodraeth ar faterion cyfrifo.

## **CIPFA**

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo

## **COST AMNEWID DIBRISIEDIG (DRC)**

Dull o brisio sy'n rhoi amcan cydnabyddedig i werth marchnad eiddo arbenigol. Mae'n amcangyfrif o werth y farchnad i ddefnydd presennol y tir, ynghyd â chostau amnewid gros presennol i'r adeilad llai lwfans ar gyfer dirywiad ffisegol yr ased oherwydd ei stad ffisegol gyfatebol bresennol.

## **COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

## **COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn cyfnodau blaenorol sy'n deillio yn y cyfnod presennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

## **COSTAU HEB EU DOSBARTHU**

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr, ac fel y cyfryw nid ydynt yn cael eu dosrannu i Wasanaethau.

### **CONTRACT TYMOR HIR**

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un cyfnod cyfrifo.

### **COST LLOG (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwylidig yn ystod y cyfnod o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un cyfnod yn nes at setliad.

### **CRAIDD CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD**

Mae'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw, oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

### **CREDYDWR**

Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y cyfnod cyfrifo, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y cyfnod cyfrifo hwnnw.

### **CRONFEYDD WRTH GEFN**

Croniad swrplws, diffyg a meddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cyfalaf cronfeydd wrth gefn fel y cyfrif ailddatganiad asedau sefydlog i gwrdd â gwariant cyfredol.

### **CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

### **CRONIADAU**

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm refeniw a chyfalaf incwm a'r gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

### **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Mae'r holl symiau a delir i neu sy'n dderbyniadwy gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

### **CYFNOD CYFRIFO**

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen.

### **CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

### **CYFRIF INCWM A GWARIANT**

Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gost net am y flwyddyn o'r swyddogaethau mae'n gyfrifol amdanynt ac yn dangos sut y cyllidwyd y gost honno o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

### **CYLLIDEB**

Rhagolygon o wariant refeniw a chyfalaf net dros y cyfnod cyfrifo.

### **CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

## **CYSONDEB**

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn cyfnod cyfrifo ac o un cyfnod i'r nesaf yr un fath.

## **CYWERTHYDD ARIAN**

Buddsoddiadau tymor byr, hylifol iawn sy'n hawdd i'w trosi i symiau hysbys o arian parod ac sy'n destun i risg fechan o newid mewn gwerth.

## **DARPARIAETH**

Swm a osodir o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

## **DERBYNION CYFALAF**

Yr elw o waredu tir neu asedau sefydlog eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbynion cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth ond ni ellir eu defnyddio i gyllido refeniw gwariant.

## **DIBRISIANT**

Mesur o'r gost o dreulio, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau sefydlog y Cyngor yn ystod y cyfnod cyfrifo, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu anarferiant trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

## **DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

## **DULL UNED RHAGAMCANEDIG**

Dull prasio buddiannau cronus ble mae'r rhwymedigaethau cynllun pensiwn yn gwneud lwfans am gyflogau rhagamcanedig. Y buddiannau cronus yw'r buddiannau gwasanaeth hyd at bwynt penodol mewn amser, p'un a ydynt yn hawliau a roddwyd ai peidio.

## **DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASED AU PENSIWN**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir, a'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn Gwerth Teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

## **DYLED NET**

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

## **DYLEDWR**

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y cyfnod cyfrifo, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y cyfnod cyfrifo hwnnw.

## **EITEMAU ANGHYFFREDIN**

Eitemau perthnasol, gyda graddfa uchel o annormalrwydd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n disgyn tu allan i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac na ddisgwylir iddynt ailddigwydd. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, na chwaith yn cynnwys eitemau cyfnod blaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â chyfnod blaenorol.

## **EITEMAU EITHRIADOL**

Eitemau perthnasol sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n dod oddi mewn i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac sydd angen eu datgelu ar wahân oherwydd eu maint neu ddigwyddiad i roi cynrychiolaeth deg o'r cyfrifon.

## **ENILLION A CHOLLEDION ACTWARAIDD**

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn swrplws neu ddiffyg actwaraidd sy'n codi oherwydd:

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actwaraidd a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actwaraidd wedi newid

### **GRADDDFA LLOG EFFEITHIOL**

Dyma raddfa llog sydd ei hangen i ddisgowntio y maes amcangyfrifedig o lif arian prifswm a llog drwy oes ddisgwyliedig offerynnau ariannol i gyfateb i'r swm ar yr adnabyddiaeth gychwynnol.

### **GRANT CEFNOGI REFENIW**

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

### **GRANTIAU LLYWODRAETH**

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfiad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

### **GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)**

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei offen ar ddyddiad y Fantolen.

### **GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar gaffael ased sefydlog, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r cyfnod cyfrifo cyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased sefydlog presennol.

### **GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

### **GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL**

Gweithgareddau'r Cyngor nad ydynt yn weithgareddau buddsoddi neu gyllido.

### **GWERTH DEFNYDD PRESENNOL (EUW)**

Y swm amcangyfrifedig y dylid cyfnewid eiddo amdano ar ddyddiad prasio rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn trafodyn hyd braich, ar ôl marchnata priodol pryd yr oedd y partion yn gweithredu'n wybodus, darbodus a heb orfodaeth, gan gymryd fod y prynwr yn cael meddiant gwag ar bob rhan o'r eiddo sydd ei angen gan y busnes ac yn anwybyddu defnyddiau amgen posib ac unrhyw nodweddion eraill o'r eiddo a fyddai'n achosi i'w werth marchnad wahaniaethu o'r hyn oedd ei angen i gymryd lle'r potensial gwasanaeth dros ben ar y gost leiaf.

### **GWERTH GWEDDILLIOL**

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

### **GWERTH LLYFR NET**

Y swm y mae asedau sefydlog yn cael eu gosod arnynt yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronus ar gyfer dibrisiant.

### **GWERTH TEG**

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

### **GWERTH TREHADWY**

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau TAC.

### **INCWM**

Symiau mae'r Cyngor yn eu derbyn neu mae'n disgwyl eu derbyn o unrhyw ffynhonnell, yn cynnwys ffioedd, gwerthiannau a grantiau.

### **ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

### **LASAAC**

Pwyllgor Ymgynghorol Cyfrifon Awdurdodau Lleol (Yr Alban).

### **LLIF ARIAN**

Llif i mewn ac allan o arian parod a chywerthydd arian.

## **MATEROLIAETH**

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan, neu eu camgynrychioli, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac yn y pen draw gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

### **MENTER CYLLID PREIFAT (PFI)**

Yn nodweddiadol mae trefniadau PFI yn cynnwys endid sector breifat yn adeiladu neu wella eiddo a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, ac yn gweithredu a chynnal yr eiddo hwnnw am gyfnod penodol o amser ar ran y corff sector gyhoeddus. yn ei le, mae'r corff sector gyhoeddus yn talu am ddefnydd yr asedau a gwasanaethau cysylltiedig dros gyfnod y trefniant trwy daliad unedol.

### **MYNEGAI PRISIAU DEFNYDDIWR (CPI)**

Mesur o chwyddiant y gellir ei gymharu'n rhyngwladol sy'n defnyddio methodolegau a strwythurau sy'n dilyn Deddfwriaeth a Chanllawiau Rhyngwladol.

### **MYNEGAI PRISIAU MANWERTHU (RPI)**

Datblygwyd yn wreiddiol fel mynegai gwneud iawn i ddiogelu gweithwyr, yn gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl nifero ddatblygiadau sylweddol, daeth i gael ei ddefnyddio fel y prif fesur domestig o chwyddiant.

### **OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)**

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased sefydlog.

### **OFFERYNNAU ARIANNOL**

Unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol, o dderbyniadwyon masnach syml (anfonebau sydd angen eu talu) a thaladwyon masnach (anfonebau sy'n ddyledus) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau sefydlog.

### **PARTIÖN CYSYLLTIEDIG**

Mae diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn FRS 8. I bwrpasau'r Cyngor, tybir bod Partïon Cysylltiedig yn cynnwys aelodau'r Cyngor, y Prif Weithredwr ac aelodau agos o'u teulu a'u haelwyd.

### **PARTNERIAETHAU CYHOEDDUS PREIFAT (PPP)**

Menter ar y cyd pan fo partner sector breifat yn cytuno i ddarparu gwasanaethau i neu ar ran sefydliad sector gyhoeddus. Mae Menter Gyllid Gyhoeddus yn ffurf o PPP.

### **POLISIAU CYFRIFO**

Yr egwyddorion, seiliau, confensiynau, rheolau ac arferion a ddefnyddir gan y Cyngor wrth baratoi a chyflwyno ei ddatganiadau ariannol.

### **PRAESEPT**

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

### **PRYDLES**

Cytundeb ble bo'r prydleswr yn rhoi hawl i'r deilydd prydles ddefnyddio ased am gyfnod o amser, ar amod taliad neu gyfres o daliadau.

### **RHAGLEN GYFALAF**

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

### **REFENIW GWARIANT**

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

### **RHESTRAU STOC**

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau defnyddiadwy, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

### **RHWYMEDIGAETH**

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y cyfnod cyfrifo nesaf, e.e. credydwr neu arian parod wedi'u gordynnu.

- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd drwy drefniant yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

#### **RHWYMEDIGAETH ADEILADOL**

Rhwymedigaeth sy'n deillio o weithredoedd yr Awdurdod pan:

- drwy batrwm sefydlog o arferion yn y gorffennol, polisiau a gyhoeddwyd, neu ddatganiad cyfredol digon penodol, mae'r Awdurdod wedi rhoi arwydd i bartion eraill y bydd yn derbyn cyfrifoldebau penodol; ac
- ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi creu disgwyliad dilys ar ran partion eraill y bydd yn cyflawni y cyfrifoldebau hynny.

#### **RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN**

Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

#### **RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcanir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu i'r Gwasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

#### **SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS)**

Mae'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn swit o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Yng Nghyllideb 2007, cyhoeddodd y canghellor-ar-y-pryd y byddai Sector Gyhoeddus y DU yn mabwysiadu'r IFRS, gan fod hwn yn cael ei ystyried fer arfer gorau ac y byddai'n caniatáu gwneud cymariaethau rhyngwladol. O ganlyniad mae CIPFA/LASAC yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Llywodraeth Leol ym Mhrydain wedi ei seilio ar IFRS, a oruchwylir gan y Bwrdd Ymgynghori Adrodd Ariannol (FRAB).

#### **SAFONAU CYFRIFO RHYNGWLADOL Y SECTOR GYHOEDDUS (IPSAS)**

Y safonau cyfrifo sydd wedi'u datblygu'n arbennig ar gyfer y sector gyhoeddus gan Fwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol y Sector Gyhoeddus (IPSASB).

#### **SOLACE**

Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

#### **TREFNIADAU ASIANTAETHAU**

Trefniant rhwng dau sefydliad ble y bydd un yn gweithredu fel asiant, yn casglu arian ar ran y parti arall, y telir yr arian iddo wedi hynny. Enghraifft yw casgliadau NNDR, ble mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant bilio i lywodraeth ganol, gan gasglu arian gan drethdalwyr ar ran y llywodraeth ganolog ac yna ei dalu iddynt.

#### **TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH**

Mae trefniant consesiwn gwasanaeth yn gyffredinol yn cynnwys y grantwr (fel rheol corff sector gyhoeddus) yn rhoi i'r gweithredydd (fel rheol corff sector breifat), am gyfnod y consesiwn, yr hawl i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi mynediad cyhoeddus at gyfleusterau economaidd a chymdeithasol.

#### **TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (TAC)**

Mae graddfeydd trethi annomestig cenedlaethol yn ardoll ar fusnesau, wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

## **TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartion Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod rhanddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a goblygiadau hynny.

## **Y FANTOLEN**

Datganiad o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo.